# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 8 Mawrth 2021

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.Senedd.TV**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 - 09.30)**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

09.30

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

09.30-09.40 (Tudalennau 1 - 9)

**CLA(5)-08-21 - Papur 1** - Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**2.1 SL(5)759 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021**

**2.2 SL(5)760 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021**

**2.3 SL(5)761 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021**

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**2.4 SL(5)762 - Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021**

**2.5 SL(5)763 - Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021**

**2.6 SL(5)765 - Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021**

**2.7 SL(5)766 - Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021**

**2.8 SL(5)768 - Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021**

## 3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

09.40-09.45

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**3.1 SL(5)752 - Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 10 - 25)

**CLA(5)-08-21 - Papur 2** - Adroddiad

**CLA(5)-08-21 - Papur 3** - Rheolau

**CLA(5)-08-21 - Papur 4** - Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

**3.2 SL(5)755 - Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021**

(Tudalennau 26 - 42)

**CLA(5)-08-21 - Papur 5** - Adroddiad

**CLA(5)-08-21 - Papur 6 -** Gorchymyn

**CLA(5)-08-21 - Papur 7** - Memorandwm Esboniadol

**3.3 SL(5)764 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021**

(Tudalennau 43 - 52)

**CLA(5)-08-21 – Papur 8** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 9** – Rheoliadau

**CLA(5)-08-21 – Papur 10** – Memorandwm Esboniadol

**3.4 SL(5)767 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 53 - 67)

**CLA(5)-08-21 – Papur 11** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 12** – Rheoliadau

**CLA(5)-08-21 – Papur 13** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**3.5 SL(5)771 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021**

(Tudalennau 68 - 82)

**CLA(5)-08-21 – Papur 14** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 15** – Rheoliadau

**CLA(5)-08-21 – Papur 16** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-08-21 – Papur 17** – Llythyr gan y Prif Weinidog, 26 Chwefror 2021

**CLA(5)-08-21 – Papur 18** – Datganiad ysgrifenedig, 26 Chwefror 2021

## 4 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

09.45-09.50

**4.1 SL(5)735 – Rheoliadau Adnoddau Dwr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

(Tudalennau 83 - 85)

**CLA(5)-08-21 – Papur 19** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 20** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.2 SL(5)744 – Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021**

(Tudalennau 86 - 88)

**CLA(5)-08-21 – Papur 21** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 22** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.3 SL(5)751 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

(Tudalennau 89 - 94)

**CLA(5)-08-21 – Papur 23** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 24** – Ymateb Llywodraeth Cymru

**4.4 SL(5)754 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

(Tudalennau 95 - 98)

**CLA(5)-08-21 – Papur 25** – Adroddiad

**CLA(5)-08-21 – Papur 26** – Ymateb Llywodraeth Cymru

## 5 Papurau i'w nodi

09.50-09.55

**5.1 Llythyr tan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gweithredu Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

(Tudalennau 99 - 107)

**CLA(5)-06-21 – Papur 27** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 26 Chwefror 2021

**5.2 Llythyr gan Brif Weithredwr yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd: Swyddfa'r Farchnad Fewnol**

(Tudalennau 108 - 109)

**CLA(5)-08-21 – Papur 28** – Llythyr gan Brif Weithredwr yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, 2 Mawrth 2021

5.3 **Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd**

(Tudalennau 110 - 111)

**CLA(5)-08-21 – Papur 29** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 2 Mawrth 2021

5.4 **Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Cyfarfod Gweinidogion y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol**

(Tudalennau 112 - 113)

**CLA(5)-08-21 – Papur 30** – Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, 3 Mawrth 2021

5.5 **Llythyr gan y Llywydd: Rheolau Sefydlog Drafft ar y weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi**

(Tudalennau 114 - 128)

**CLA(5)-08-21 – Papur 31** – Llythyr gan y Llywydd, 3 Mawrth 2021

**CLA(5)-08-21 – Papur 32** – Llythyr at y Llywydd, 4 Rhagfyr 2019

**CLA(5)-08-21 – Papur 33** – Llythyr at y Llywydd, 11 Hydref 2019

5.6 **Gohebiaeth â Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Rheoliadau Cynnyrch Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio Etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 129 - 136)

**CLA(5)-08-21 – Papur 34** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 2 Rhagfyr 2020

**CLA(5)-08-21 – Papur 35** – Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 17 Tachwedd 2020

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

09.55

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Lles Anifeiliaid (Dedfrydu) – trafod y materion allweddol

09.55-10.05 (Tudalennau 137 - 140)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**CLA(5)-08-21 – Papur 36** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil y Lluoedd Arfog – trafod y materion allweddol

10.05-10.15 (Tudalennau 141 - 145)

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**CLA(5)-08-21 – Papur 37** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 9 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf

10.15-10.20 (Tudalen 146)

**CLA(5)-08-21 – Papur 38** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 3 Mawrth 2021

## 10 Gwaith gwaddol – trafod yr adroddiad drafft

10.20-11.00 (Tudalennau 147 - 187)

**CLA(5)-08-21 – Papur 39** – Adroddiad drafft

## Dyddiad y cyfarfod nesaf – 15 Mawrth 2021

# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 08 Mawrth 2021

## SL(5)759 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Sefydlir y cyrff corfforaethol hyn er mwyn arfer rhai swyddogaethau a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n ffurfio aelodaeth y cyd-bwyllgor corfforedig. Yn ogystal â hynny, pan roddir swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio strategol i gyd-bwyllgor corfforedig, caiff awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn aelod o'r pwyllgor hefyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig a elwir yn Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin, ac yn pennu'r swyddogaethau a ganlyn fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisïau trafnidiaeth a llunio cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000), a

(3) llunio cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin, a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin, gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin. Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 4 aelod cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yn y de-orllewin, aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro nad oes ganddynt ond hawl i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol. Caiff y Pwyllgor gyfethol personau eraill (a elwir yn "cyfranogwyr cyfetholedig") i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a chaiff roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y 3 swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y

swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

# SL(5)760 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cydbwyllgorau corfforedig. Caiff y cyrff corfforedig hyn eu sefydlu er mwyn arfer rhai swyddogaethau a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, a hynny mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol, sy'n aelodau o'r cydbwyllgor corfforedig. Yn ogystal, pan roddir swyddogaethau i gydbwyllgor corfforedig mewn perthynas â chynllunio strategol, gall awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd fod yn aelod o'r pwyllgor.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig i'w alw'n Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru), ac yn nodi'r swyddogaethau canlynol fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisïau trafnidiaeth a pharatoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol (o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000), a

(3) pharatoi cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys y trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru), gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn pennu aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru). Yn unol â'r Rhan hon, bydd 6 aelod cyngor yn rhan o'r corff, gydag un ar gyfer pob un o'r awdurdodau lleol yn y Gogledd, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd â chaniatâd i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â pharatoi cynlluniau datblygu strategol yn unig. Gall y Pwyllgor gyfethol unigolion eraill ("cyfranogwyr cyfetholedig" fel y'u gelwir) i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a gall roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y tair swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (Cymru) i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

# SL(5)761 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cydbwyllgorau corfforedig. Caiff y cyrff corfforedig hyn eu sefydlu er mwyn arfer rhai swyddogaethau a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, a hynny mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol, sy'n aelodau o'r cydbwyllgor corfforedig. Yn ogystal â hynny, pan roddir swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio strategol i gydbwyllgor corfforedig, caiff awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn aelod o'r pwyllgor hefyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig i'w alw'n Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru), ac yn nodi'r swyddogaethau canlynol fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisïau trafnidiaeth a pharatoi cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol (o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000), a

(3) pharatoi cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys y trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru), gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn pennu aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru). Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 2 aelod cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yn y Canolbarth, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, nad oes ganddynt ond hawl i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol. Gall y Pwyllgor gyfethol unigolion eraill ("cyfranogwyr cyfetholedig" fel y'u gelwir) i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a gall roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y tair swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

# SL(5)762 – Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain (Cymru) 2021

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021") yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Sefydlir y cyrff corfforedig hyn er mwyn arfer swyddogaethau penodol a bennir yn y rheoliadau sy'n eu sefydlu, mewn perthynas ag ardal sy'n cynnwys ardaloedd yr awdurdodau lleol sy'n ffurfio aelodaeth y cyd-bwyllgor corfforedig. Yn ogystal â hynny, pan roddir swyddogaethau mewn perthynas â chynllunio strategol i gyd-bwyllgor corfforedig, caiff awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn aelod o'r pwyllgor hefyd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu corff corfforedig a elwir yn Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain, ac yn pennu'r swyddogaethau a ganlyn fel rhai sy'n arferadwy gan y corff hwn—

(1) y swyddogaeth llesiant economaidd (gweler adran 76 o Ddeddf 2021),

(2) datblygu polisïau trafnidiaeth a llunio cynlluniau trafnidiaeth rhanbarthol (o dan Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000), a

(3) llunio cynlluniau datblygu strategol (gweler Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004).

Mae 5 Rhan i'r Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 1 yn sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain, a'i ardal, ac yn diffinio rhai termau allweddol.

Mae Rhan 2 yn cyflwyno'r Atodlen i'r Rheoliadau. Mae'r Atodlen hon yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain, gan gynnwys trefniadau ynghylch cynnal a chadeirio cyfarfodydd, pleidleisio ar benderfyniadau, sefydlu is-bwyllgorau a staffio.

Mae Rhan 3 yn nodi aelodaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain. Yn unol â'r Rhan hon, bydd y corff wedi ei ffurfio o 10 aelod cyngor, un ar gyfer pob awdurdod lleol yn y de-ddwyrain, ac aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, nad oes ganddynt ond hawl i bleidleisio ar faterion sy'n ymwneud â llunio cynlluniau datblygu strategol. Caiff y Pwyllgor gyfethol personau eraill (a elwir yn "cyfranogwyr cyfetholedig") i gyfranogi ym musnes y Pwyllgor a chaiff roi hawliau pleidleisio i gyfranogwyr cyfetholedig.

Mae Rhan 4 yn pennu y caniateir arfer y 3 swyddogaeth a grybwyllir uchod gan Gyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain ac y caiff y Pwyllgor wneud pethau eraill i hwyluso arfer y swyddogaethau hynny neu bethau sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau hynny neu'n ffafriol iddynt.

Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth ynghylch sut y mae Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain i gyfrifo ei gyllideb a sut y mae i'w ariannu.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:**

## SL(5)763 – Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") drwy ychwanegu cydbwyllgorau corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr o awdurdodau Cymreig perthnasol sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149(1) o'r Ddeddf.

Mae'r awdurdodau Cymreig perthnasol a bennir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf yn awdurdodau sy'n bodloni'r prawf yn adran 157(2) o'r Ddeddf; hynny yw, maent yn awdurdodau Cymreig datganoledig o fewn yr ystyr a roddir i "devolved Welsh authority" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Cydraddoldeb 2010
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

## SL(5)765 – Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) yn rhoi swyddogaethau i Archwilydd Cyffredinol Cymru, gan gynnwys gwneud darpariaeth ynghylch archwilio cyfrifon cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Mae adran 12(1) o Ddeddf 2004 yn rhestru'r cyrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae Rhan 2 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddynt. Mae adran 12(2) o'r Ddeddf honno yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy Orchymyn, i ddiwygio'r rhestr honno.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy Reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 at y rhestr yn adran 12(1) o Ddeddf 2004. Mae'r Gorchymyn hefyd yn gwneud mân ddarpariaeth ganlyniadol ac atodol.

Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys yr awdurdodau lleol hynny yng Nghymru a bennir mewn Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig ac, o dan rai amgylchiadau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn Nghymru.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

## SL(5)766 – Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 3 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019. Mae Atodlen 3 yn nodi'r cyrff a'r personau eraill sy'n awdurdodau rhestredig at ddibenion y Ddeddf honno ac sydd felly o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ("yr Ombwdsmon").

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at Atodlen 3 gydbwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy Reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu bod holl swyddogaethau cydbwyllgor corfforedig i ddod o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon o dan Ran 3 o'r Ddeddf honno.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

# SL(5)768 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021

## Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn ("y Rheoliadau Cyffredinol") yn cyflwyno nifer o ddarpariaethau cyffredinol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol yn ceisio sicrhau:

- fel rhan o'r defnydd ehangach o fframwaith moesegol llywodraeth leol, bod aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig a chyflogeion Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i safonau ymddygiad priodol.
- bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i gyfundrefn gyfrifyddu, archwilio a rheoli ariannol briodol.

Mae'r Rheoliadau Cyffredinol hefyd yn gwneud nifer fach o fân ddiwygiadau er mwyn:

- cefnogi'r trefniadau angenrheidiol ar gyfer darparu gwasanaethau rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac awdurdodau lleol;
- sicrhau bod aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu trin yn gyfartal gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig; a
- darparu i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig allu dal a gwaredu asedau.

Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyffredinol yn darparu bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 yn gymwys i gyd-bwyllgorau corfforedig fel y maent yn gymwys i awdurdodau lleol.

Mae Atodlen 3 i'r Rheoliadau Cyffredinol yn gwneud diwygiadau cyffredinol i ddeddfiadau eraill gan gynnwys:

- Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 (cyflenwi nwyddau a gwasanaethau gan awdurdodau lleol) fel bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cynnwys fel "Awdurdod Lleol" at ddiben y Ddeddf honno.
- Deddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 59 fel bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cynnwys fel "awdurdod lleol" at ddibenion adran 58 o'r Ddeddf honno (Busnes swyddogol yr aelodau).
- Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 fel bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cynnwys fel "corff cyhoeddus" at ddibenion paragraff 1 o Atodlen 20 (Rhyddhad ar gyfer caffael gan gyrff cyhoeddus a chyrff Iechyd) i'r Ddeddf honno.

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021
**Fe'u gwnaed ar:**
**Fe'u gosodwyd ar:**
**Yn dod i rym ar:** 01 Ebrill 2021

# SL(5)752 – Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae’r Rheolau hyn yn rhagnodi’r ffioedd sy’n daladwy i’r Prif Gofrestrydd Tir am amrywiol wasanaethau sy’n ymwneud â phridiannau tir lleol sy’n effeithio ar dir yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau hynny o dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (“Deddf 1975”) a Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018. Mae’r ffioedd a ragnodir yn y Rheolau hyn yn disodli’r ffioedd a bennir gan reol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt am wasanaethau tebyg sy’n ymwneud â phridiannau tir lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae’r Rheolau hyn yn cael effaith yn ardal weinyddol awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i’r awdurdod lleol hwnnw yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015.

Mae’r gwasanaethau y mae ffioedd yn daladwy amdanynt wedi eu nodi yn yr Atodlen. Mae rhesi (1) i (4) yn wasanaethau mewn cysylltiad â hysbysiadau rhwystro golau, sy’n fath penodol o bridiant tir lleol. O dan baragraff (5), mae ffi yn daladwy am chwiliad swyddogol o’r gofrestr – nid yw’r ffi honno’n daladwy os ceir cais am chwiliad o’r fath o fewn 6 mis i gais cynharach gan yr un person, mewn perthynas â’r un tir, y talwyd ffi amdano.

## Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheolau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd ddirymu'r Rheolau hyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy’n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd.**

Gwneir y Rheolau hyn o dan adran 14(1) o Ddeddf 1975, sy'n darparu fel a ganlyn:

*"The Lord Chancellor may, with the concurrence of the Treasury as to fees, make rules for carrying this Act into effect".*

Mae'r Rheolau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n gosod ffioedd ar gyfer rhai taliadau tir lleol.

Gwnaed y rheolau cyfatebol sydd ar waith yn Lloegr – Rheolau Pridiannu Tir Lleol (Lloegr) 2018 – o dan yr un pŵer galluogi, gyda chytundeb y Trysorlys.

Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 14(1)(h) o Ddeddf 1975, i'r graddau y gellir ei arfer mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006."*

Mae hyn yn esbonio trosglwyddo pŵer yr Arglwydd Ganghellor i Weinidogion Cymru, ond nid yw'n cyfeirio at swyddogaeth y Trysorlys. Nid oes unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau hyn na'r Memorandwm Esboniadol at y Trysorlys yn cytuno i wneud y Rheolau hyn.

Byddai'n ddefnyddiol deall sail gyfreithiol Llywodraeth Cymru dros wneud y Rheolau hyn os na chafwyd cytundeb y Trysorlys.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**3 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 152 (Cy. 37)

# PRIDIANNAU TIR, CYMRU

## Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)*

Mae'r Rheolau hyn yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy i'r Prif Gofrestrydd Tir am amrywiol wasanaethau sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol sy'n effeithio ar dir yng Nghymru. Darperir y gwasanaethau hynny o dan Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 a Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018. Mae'r ffioedd a ragnodir yn y Rheolau hyn yn disodli'r ffioedd a bennir gan reol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt am wasanaethau tebyg sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r Rheolau hyn yn cael effaith yn ardal weinyddol awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015.

Mae'r gwasanaethau y mae ffioedd yn daladwy amdanynt wedi eu nodi yn yr Atodlen. Mae rhesi (1) i (4) yn wasanaethau mewn cysylltiad â hysbysiadau rhwystro golau, sy'n fath penodol o bridiant tir lleol. O dan baragraff (5), mae ffi yn daladwy am chwiliad swyddogol o'r gofrestr. Ond nid yw'r ffi honno'n daladwy os ceir cais am chwiliad o'r fath o fewn 6 mis i gais cynharach gan yr un person, mewn perthynas â'r un tir, y talwyd ffi amdano.

Mae rheol 3 yn rhagnodi pa bryd y mae'r ffioedd am y gwasanaethau hyn yn daladwy a sut mae talu'r ffioedd.

Mae rheol 4 yn dirymu rheol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt fel y maent yn gymwys i dir yng Nghymru.

O ganlyniad i reol 4, mae'r Rheolau hyn yn diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018 er mwyn sicrhau eglurder ynghylch dirymu Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheolau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheolau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol a Phartneriaethau'r Gweithlu, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2021 Rhif 152 (Cy. 37)

# PRIDIANNAU TIR, CYMRU

## Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *15 Chwefror 2021* |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Arglwydd Ganghellor gan adran 14(1)(h) o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**), yn gwneud y Rheolau a ganlyn.

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021.

(2) Daw'r Rheolau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021 ond nid yw rheolau 2, 3, 4 a 5 ond yn cael effaith mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol, ar y dyddiad y daw Rhannau 1 i 3 o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015(**3**) i rym mewn perthynas â'r ardal honno.

(3) Yn y Rheolau hyn—

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;

(**1**) 1975 p. 76. Amnewidiwyd adran 14(1)(h) gan adran 34(1) a (2)(a) o Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7) a pharagraff 13(2)(d) o Atodlen 5 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaeth yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 14(1), i'r graddau y mae'n ymwneud â'r pŵer i wneud rheolau ar gyfer rhagnodi ffioedd a'r dull o dalu ffioedd, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044) ac mae bellach wedi ei breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) 2015 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "y prif Reolau" ("*the principal Rules*") yw Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018(**1**);

mae i "tir" yr un ystyr ag a roddir i "land" yn adran 16 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975;

ystyr "tystysgrif ddiffiniol" ("*definitive certificate*") yw tystysgrif a ddyroddir gan yr Uwch Dribiwnlys o dan adran 2(3)(a) o Ddeddf Hawliau Golau 1959(**2**).

**Ffioedd**

**2.** Y ffioedd am y gwasanaethau a bennir yn yr Atodlen yw'r rheini a nodir yn yr Atodlen honno ac maent yn daladwy i'r Prif Gofrestrydd Tir yn unol â rheol 3.

**Y dull o dalu**

**3.**—(1) Mae'r ffioedd yn daladwy wrth ddarparu'r cais neu'r gofyniad, neu wrth gyflwyno'r dystysgrif ddiffiniol, fel sy'n briodol.

(2) Rhaid i'r ffioedd gael eu talu drwy gerdyn credyd neu gerdyn debyd ac eithrio pan fo'r Prif Gofrestrydd Tir yn caniatáu fel arall neu pan fo paragraff (3) neu (4) yn gymwys.

(3) Pan fo cytundeb rhwng y ceisydd neu'r person sy'n gofyn am y gwasanaeth a'r Prif Gofrestrydd Tir, caniateir talu ffi drwy ddebyd uniongyrchol i unrhyw gyfrif banc Cofrestrfa Tir Ei Mawrhydi a gyfarwyddir gan y Prif Gofrestrydd Tir o bryd i'w gilydd.

(4) Pan fo cais neu ofyniad yn cael ei wneud, neu dystysgrif ddiffiniol yn cael ei chyflwyno, heblaw drwy ddefnyddio dull electronig o gyfathrebu, caniateir talu'r ffi drwy siec neu archeb bost, wedi ei chroesi a'i gwneud yn daladwy i Gofrestrfa Tir Ei Mawrhydi.

**Dirymu**

**4.** Mae rheol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 ac Atodlen 3 iddynt wedi eu dirymu(**3**).

**Diwygiad canlyniadol i Reolau Pridiannau Tir Lleol 2018**

**5.**—(1) Mae Rheolau Pridiannau Tir Lleol 2018 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

---

(**1**) O.S. 2018/273.

(**2**) 1959 p. 56.

(**3**) *Gweler* paragraff 40(3) a (4) o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015 (p. 7) sy'n darparu na fydd rheolau a wneir o dan adran 14 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 ond yn cael effaith mewn perthynas ag ardal awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw yn unol â pharagraff 40(1) o'r Atodlen honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Yn rheol 15 (dirymiadau)—

(a) ar ddechrau paragraff (1) hepgorer y geiriau "Subject to paragraph (2)"; a

(b) hepgorer paragraff (2).

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
12 Chwefror 2021

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Rheol 2

## Ffioedd

| *Gwasanaeth* | | *Ffi* |
|---|---|---|
| (1) | Cofrestru hysbysiad rhwystro golau o dan reol 4 o'r prif Reolau | £18 |
| (2) | Amrywio cofrestriad hysbysiad rhwystro golau o dan reol 7(1) o'r prif Reolau | £18 |
| (3) | Canslo cofrestriad hysbysiad rhwystro golau o dan reol 7(1) o'r prif Reolau | £18 |
| (4) | Amrywio cofrestriad hysbysiad rhwystro golau o dan reol 7(6) o'r prif Reolau (wedi cyflwyno tystysgrif ddiffiniol) | £18 |
| (5) | Chwiliad swyddogol o'r gofrestr (gan gynnwys dyroddi tystysgrif swyddogol o chwiliad) o dan adran 9(1) o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975 | £15; neu £0 os darperir y gofyniad o fewn 6 mis i ddarparu gofyniad cynharach gan yr un person am chwiliad swyddogol mewn cysylltiad â'r un tir, y talwyd y ffi a ragnodwyd amdano. |

**Memorandwm Esboniadol Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021 ac rwyf yn fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**15 Chwefror 2021**

## RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

Disgrifiad

1. Mae Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Ffioedd) (Cymru) 2021 (y Rheolau) yn ddarn technegol o ddeddfwriaeth sy'n gweithredu newidiadau o ran i bwy y mae ffioedd am wasanaethau pridiannau tir lleol yn daladwy a sut mae talu'r ffioedd.

2. Mae'r Rheolau yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy i'r Prif Gofrestrydd Tir am amrywiol wasanaethau sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol sy'n effeithio ar dir yng Nghymru, a sut mae talu'r ffioedd.

3. Mae'r ffioedd a ragnodir yn y Rheolau hyn yn disodli'r ffioedd a bennir gan Reol 14 o Reolau Pridiannau Tir Lleol 1977 (Rheolau 1977) ac Atodlen 3 iddynt am wasanaethau tebyg sy'n ymwneud â phridiannau tir lleol a ddarperir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

4. Ni fydd y Rheolau hyn ond yn cael effaith yn ardal weinyddol awdurdod lleol yng Nghymru ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw a ddaw'n weithredol yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf Seilwaith 2015.

**Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

5. Nid oes unrhyw faterion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor.

**Cefndir deddfwriaethol**

6. Ar y cyfan, mae pridiannau tir lleol yn bridiannau neu’n gyfyngiadau ar dir sy’n llywodraethol eu natur ac sy'n cael eu gosod gan awdurdodau cyhoeddus o dan bwerau statudol.

7. Mae Deddf Pridiannau Tir Lleol 1975 (Deddf 1975) yn darparu bod pridiannau tir lleol yn cael eu cofnodi mewn cofrestrau a gedwir gan awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae pob awdurdod lleol yn ymdrin â'r pridiannau tir lleol sy'n effeithio ar dir yn ei ardal weinyddol benodol. Mae Rheolau 1977 yn gwneud y ddarpariaeth fanwl angenrheidiol ynghylch materion megis ffurf a chynnwys ceisiadau, y manylion sydd i'w cynnwys ar y gofrestr, a diwygio a chanslo cofrestriadau. Rhagnodir y ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru, ac eithrio chwiliadau personol, yn Rheolau 1977. Nid oes rhaid talu ffi am chwiliadau personol yng Nghymru.

8. Mae Deddf Seilwaith 2015 (Deddf 2015) yn diwygio Deddf 1975. Yn benodol, caiff y cofrestrau pridiannau tir lleol a gedwir gan bob awdurdod lleol eu disodli gan gofrestr genedlaethol a gedwir gan y Prif Gofrestrydd Tir. Mae'r diwygiadau wedi dod i rym ond ni fyddant ond yn cael effaith mewn ardal awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015.

9. Mae Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Rheolau 2018) yn gymwys i Gymru a Lloegr ac maent yn dirymu Rheolau 1977, ac eithrio'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r ffioedd sy'n daladwy am wasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru.

10. Ar yr un pryd ag y bydd y diwygiadau i Ddeddf 1975 a wnaed gan Ddeddf 2015 yn cael effaith mewn ardal awdurdod lleol, bydd Rheolau 2018, a'r Rheolau hyn, hefyd yn cael effaith.

11. Mae adran 14(1)(h) o Ddeddf 1975 yn darparu bod gan yr Arglwydd Ganghellor, o ran gwasanaethau pridiannau tir lleol, y pŵer i wneud rheolau ar gyfer rhagnodi ffioedd a sut mae talu'r ffioedd mewn perthynas â darparu'r gwasanaethau hynny.

12. Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor o dan adran 14(1)(h) o Ddeddf 1975, i'r graddau y gellir ei arfer mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny wedyn i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

13. Mae adran 14(3) o Ddeddf 1975 yn darparu y caiff rheolau a wneir o dan adran 14 o Ddeddf 1975 eu gwneud gan ddefnyddio'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

14. Diben y Rheolau hyn yw hwyluso'r gwaith o gyflawni amcan *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* Cofrestrfa Tir EM o greu a chynnal cofrestr ganolog ddigidol ar gyfer system chwiliadau pridiannau tir lleol i Gymru a Lloegr fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2015. Bydd y gofrestr ganolog yn darparu profiad cyson a safonedig i'r cwsmer, gan gynnwys un ffi gyffredinol mewn perthynas â phob gwasanaeth pridiannau tir lleol.

15. O dan y Rheolau hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn dirymu Rheol 14 o Reolau 1977 ac Atodlen 3 iddynt. Effaith hyn yw y bydd y Rheolau hyn yn nodi lefel y ffioedd sy'n daladwy i'r Prif Gofrestrydd Tir am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol, a sut mae talu'r ffioedd. Bydd y gwasanaethau, y ffioedd, a sut mae talu'r ffioedd yr un peth yng Nghymru a Lloegr.

16. Mae'r Rheolau yn nodi, yn yr Atodlen, y gwasanaethau y mae ffioedd yn daladwy amdanynt. Mae paragraffau (1) i (4) yn wasanaethau mewn cysylltiad â hysbysiadau rhwystro golau, sy'n fath penodol o bridiant tir lleol. O dan baragraff (5), mae ffi yn daladwy am chwiliad swyddogol o'r gofrestr. Fodd bynnag, nid yw'r ffi honno'n daladwy os ceir cais am chwiliad o fewn chwe mis i gais cynharach gan yr un person, mewn perthynas â'r un tir, y talwyd ffi amdano.

17. Mae'r Rheolau hefyd yn diwygio Rheolau 2018 drwy ddileu'r darpariaethau yn Rheolau 2018 sy'n cymhwyso Rheolau 1977 at Gymru.

18. Ni fydd y Rheolau ond yn cael effaith mewn ardal awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a nodir mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw a ddaw'n weithredol yn unol â Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015.

**Ymgynghori**

19. Cynhaliodd Gweinidogion Cymru ymgynghoriad 12 wythnos ar ddrafft o'r Rheolau arfaethedig rhwng 11 Awst 2020 a 3 Tachwedd 2020. Tynnwyd sylw cynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Cymdeithas y Cyfreithwyr a rhanddeiliaid eraill a nodwyd gan Gofrestrfa Tir EM, at yr ymgynghoriad. Cafwyd chwe ymateb i'r ymgynghoriad.

20. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Nododd pob un o'r ymatebwyr fod sicrhau bod y strwythur ffioedd a'r dull o dalu yn gyson â'r hyn sydd ar waith yn Lloegr i'w weld yn beth synhwyrol i'w wneud. Roedd sylwadau eraill yn cynnwys nodi bod y cynnydd i £15 yn swm bach o gymharu â chostau eraill wrth brynu eiddo. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd y byddai un system ddigidol yn darparu proses fwy hwylus, gwell gwerth am arian ac ymatebion cyflymach i gwsmeriaid, ac yn eu galluogi i gadarnhau ar unwaith a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i ganlyniadau chwiliadau am hyd at chwe mis yn dilyn y cais.

21. Cynigiodd un ymateb y dylid diwygio lefel y ffi ar unwaith er mwyn i awdurdodau lleol yng Nghymru allu codi £15 am chwiliad swyddogol o'r gofrestr pridiannau tir lleol, am y cyfnod cyn i'r gofrestr gael ei throsglwyddo i'r Prif Gofrestrydd Tir. Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod y ffi o £15, mewn perthynas â darparu gwasanaethau pridiannau tir lleol gan y Prif Gofrestrydd Tir, wedi'i phennu er mwyn adennill cost gychwynnol sefydlu'r gwasanaeth pridiannau tir lleol a'i drosglwyddo i borth digidol newydd Cofrestrfa Tir EM ac, felly, nad yw'n adlewyrchu cost chwiliad swyddogol. Felly, nid ystyriodd Gweinidogion Cymru y cynnig hwn ymhellach.

22. Cododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad faterion nad ydynt yn berthnasol i'r Rheolau hyn. Trosglwyddwyd yr ymatebion hynny i Gofrestrfa Tir EM er mwyn iddi eu hystyried.

23. Ar ôl yr ymgynghoriad, gwnaed rhai diwygiadau drafftio technegol bach i'r Rheolau. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau hynny yn newid swyddogaeth, diben na chwmpas y Rheolau ac nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ymhellach ar y newidiadau hynny.

24. Mae adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud unrhyw beth sy'n ffafriol i unrhyw un o'u swyddogaethau eraill, neu sy'n gysylltiedig â hi. Cyhoeddir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wrth arfer y pŵer hwnnw ac mae ar gael yn:

https://llyw.cymru/ffioedd-pridiannau-tir-lleol

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

25. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheolau hyn ac mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal ac fe'i nodir yn Rhan 2 o'r ddogfen hon.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

26. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn asesu costau ac effeithiau gwneud y Rheolau, neu beidio â'u gwneud, o ran darparu gwasanaeth pridiannau tir lleol digidol yng Nghymru yn y dyfodol.

### Opsiynau

27. Ystyriwyd dau opsiwn:

<u>*Opsiwn 1 – Gwneud Dim*</u>

28. Gallai Gweinidogion Cymru ddewis parhau â'r sefyllfa bresennol. Os byddent yn gwneud hynny, mae'n debygol na fyddai unrhyw newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru, byddai'r ffioedd yn £6 o hyd am chwiliad swyddogol o'r gofrestr pridiannau tir lleol, a byddai'r rhai sy'n gwneud cais am chwiliad yn gallu parhau i dalu yn yr un ffordd. Byddai awdurdodau lleol yng Nghymru hefyd yn parhau i ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yn yr un ffordd. Er, gallai'r Prif Gofrestrydd Tir, yn unol â darpariaethau Deddf 2015, barhau i gyflwyno hysbysiad i awdurdod lleol yng Nghymru i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru. Fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau hynny, ni fyddai Cofrestrfa Tir EM yn gallu codi na chasglu ffioedd am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru. Ar y sail honno, mae'n debygol y byddai Cofrestrfa Tir EM yn hepgor Cymru o'r gofrestr pridiannau tir lleol ddigidol.

*Cost / Risgiau*

29. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu gwneud dim, bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i weithredu'r system bresennol ar gyfer darparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru. Er bod gan awdurdodau lleol yng Nghymru enw da am ddarparu gwasanaeth rhagorol, ni fydd ganddynt yr adnoddau i wneud diwygiadau tebyg i'r rhai i system Cofrestrfa Tir EM, a fydd yn darparu canlyniadau chwiliadau ar unwaith. Bydd hyn yn arwain at ddarparu system dwy haen o wasanaethau pridiannau tir lleol sy'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae defnyddio cofnodion papur o chwiliadau yn peri risg y caiff data hollbwysig eu colli'n barhaol neu y bydd cost cadw data yn cynyddu. Bydd angen ystyried cynaliadwyedd y gwasanaeth pridiannau tir lleol yng Nghymru yn y dyfodol os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu parhau â'r sefyllfa bresennol.

30. Mae'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* yn un o nifer o brosiectau buddsoddi cyfalaf Llywodraeth y DU i foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus. Byddai Cymru mewn perygl o ymddangos fel nad yw am foderneiddio ei gwasanaeth pridiannau tir lleol ac, felly, mae risg y bydd y cyhoedd yn cael argraff anffafriol o Lywodraeth Cymru a Chymru. At hynny, mae risg y gallai fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ariannu unrhyw gynllun i drosglwyddo'r gwasanaeth pridiannau tir lleol i'r Prif Gofrestrydd Tir yn y dyfodol, am ei bod yn bosibl na fydd Cofrestrfa Tir EM yn cynnig yr un lefel o gymorth ariannol i awdurdodau lleol yng Nghymru ag sydd ar gael ar hyn o bryd, neu na fydd yn gallu cynnig hynny.

31. O dan ddarpariaethau Deddf 2015, byddai'r Prif Gofrestrydd Tir yn gallu cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i awdurdodau lleol yng Nghymru o hyd er mwyn cymryd cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru, heb i Weinidogion Cymru orfod diwygio'r darpariaethau presennol ar gyfer ffioedd. Fodd bynnag, os na fydd Gweinidogion Cymru yn diwygio'r rheolau presennol ynglŷn â ffioedd, nid oes unrhyw ddarpariaeth i Gofrestrfa Tir EM, ar ran y Prif Gofrestrydd Tir, godi a derbyn y ffioedd am ddarparu'r gwasanaethau. Mae hyn yn debygol o olygu na fyddai'n gwneud synnwyr ariannol i'r Prif Gofrestrydd Tir ddarparu gwasanaeth pridiannau tir lleol digidol yng Nghymru oherwydd, er mwyn gwneud hynny, byddai angen i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn Lloegr sybsideiddio defnyddwyr y gwasanaeth yng Nghymru. Ni fyddai hyn yn darparu gwasanaeth cyfartal i bob defnyddiwr gwasanaeth. At hynny, gellid ystyried nad yw Cymru am foderneiddio na bod yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn seilwaith pridiannau tir lleol yr oes ddigidol.

*Opsiwn 2 – Cysoni'r ffioedd â'r rhai y gellir eu codi yn Lloegr*

32. Gall Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddir i'r Arglwydd Ganghellor gan adran 14(1)(h) o Ddeddf 1975, wneud rheolau sy'n rhagnodi ffioedd a'r dull o'u talu mewn perthynas â darparu gwasanaethau pridiannau tir lleol yng Nghymru.

33. Gall Gweinidogion Cymru bennu lefel o ffioedd sy'n cyd-fynd â'r ffioedd sy'n daladwy am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol gan y Prif Gofrestrydd Tir yn Lloegr, gan helpu Cofrestrfa Tir EM i ddarparu gwasanaeth safonedig. Bydd gwneud hynny yn galluogi Cofrestrfa Tir EM i roi'r gofrestr pridiannau tir lleol ddigidol ar waith yng Nghymru ochr yn ochr â Lloegr, gan ddarparu gwasanaeth unedig sydd â'r un ffioedd yn y ddwy wlad. Hwn yw'r opsiwn a ffefrir a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru.

34. Gallai Gweinidogion Cymru benderfynu pennu'r ffioedd uwchlaw neu islaw'r lefelau a bennir yn Lloegr. Fodd bynnag, ni fyddai'r naill opsiwn na'r llall yn synhwyrol a gallent roi defnyddwyr y gwasanaeth yng Nghymru a'r economi o dan anfantais. At hynny, mae Cofrestrfa Tir EM yn annhebygol o groesawu'r un o'r opsiynau hyn am y byddai'r naill neu'r llall yn debygol o ychwanegu at ei baich gwaith wrth weinyddu un system unedig a chreu ansicrwydd ynghylch a fyddai'r Prif Gofrestrydd Tir yn gallu darparu gwasanaeth pridiannau tir lleol digidol canolog yng Nghymru. Os bydd Gweinidogion Cymru am newid lefel y ffioedd a/neu'r dulliau o dalu'r ffioedd hynny, bydd angen gwneud hyn drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth. Felly, nid argymhellir y dylid pennu ffioedd nad ydynt yn cyd-

fynd â'r rhai y gellir eu codi yn Lloegr, ac nid dyma'r opsiwn a ffefrir ar gyfer Gweinidogion Cymru.

*Cost / Risgiau*

35. Ni fyddai unrhyw gost yn gysylltiedig â'r Rheolau hyn i Lywodraeth Cymru ar wahân i'r gost weinyddol i lunio'r Rheolau a'u rhoi ar waith yn ddeddfwriaethol.

36. Bydd y gost i ddefnyddwyr gwasanaethau pridiannau tir lleol yn cynyddu, sef y rhai sydd am wneud chwiliad swyddogol o'r gofrestr mewn perthynas â thir yng Nghymru drwy borth Cofrestrfa Tir EM. Ar hyn o bryd, codir ffi o £6 yng Nghymru, sy'n cyfrif am 0.06% o gostau'r broses o brynu cartref. Felly, bydd y cynnydd o £9 i £15 yn cynyddu'r ffigur hwn i 0.15% o gostau'r broses o brynu cartref. Mae hyn yn annhebygol o gael unrhyw effaith sylweddol ar brynu cartrefi na'r farchnad dai ehangach, megis adeiladu cartrefi, am fod y gost mor fach.

37. Os na chaiff y ffioedd yng Nghymru a Lloegr eu cysoni a bod y Prif Gofrestrydd Tir yn mynd ati i gyflwyno hysbysiadau ysgrifenedig i awdurdodau lleol yng Nghymru o dan Ddeddf 2015, gan drosglwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau pridiannau tir lleol, mae risg o sybsideiddio ar draws y ffin. Os bydd defnyddwyr gwasanaethau pridiannau tir lleol yn Lloegr yn talu ffi o £15 o gymharu â defnyddwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau yng Nghymru, os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu codi ffi is, bydd defnyddwyr yn Lloegr, i bob pwrpas, yn sybsideiddio defnyddwyr yng Nghymru. Er bod hyn yn annhebygol iawn o ddigwydd oherwydd anymarferoldeb y senario, gall y Prif Gofrestrydd Tir gyflwyno hysbysiadau o dan Ddeddf 2015 unrhyw bryd.

38. Pan ddeuant i rym, ni fydd y Rheolau ond yn cael effaith mewn ardal awdurdod lleol ar neu ar ôl y dyddiad a bennir mewn hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan y Prif Gofrestrydd Tir i'r awdurdod lleol hwnnw yn unol â darpariaethau Rhan 4 o Atodlen 5 i Ddeddf 2015. Bydd Cofrestrfa Tir EM a swyddogion awdurdodau lleol yn datblygu cynllun gweithredu cyn i hysbysiad gael ei gyflwyno a fydd yn nodi sut y caiff y gwasanaethau pridiannau tir lleol eu trosglwyddo i'r Prif Gofrestrydd Tir. Nes i'r dyddiad a bennir yn yr hysbysiad gan y Prif Gofrestrydd Tir ddod yn weithredol, bydd y gwasanaethau yn parhau i fod o dan y gyfundrefn ffioedd bresennol a bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau i ddarparu chwiliadau i unigolion sy'n gwneud cais amdanynt.

39. Mater i Gofrestrfa Tir EM a Llywodraeth y DU yw unrhyw wariant ychwanegol yr eir iddo gan awdurdodau lleol yn ystod y broses o drosglwyddo i'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* a chamau'r gwasanaeth byw. Bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gymwys i gael taliadau beichiau newydd er mwyn helpu i leihau'r costau. Mae rhagor o fanylion ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/publications/hm-land-registry-local-land-charges-programme/new-burdens-information

**Dewis Opsiwn**

40. Cyfyngedig yw'r opsiynau am mai'r prif nod yw galluogi Cymru i fod yn rhan o'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* a'r gofrestr ddigidol fel y'i gweithredir gan y Prif Gofrestrydd Tir. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu parhau â'r sefyllfa bresennol neu ddiwygio'r ffioedd i symiau sy'n wahanol i'r rhai sydd wedi'u pennu yn Lloegr, efallai y bydd Cofrestrfa Tir EM ac awdurdodau lleol yng Nghymru yn wynebu anawsterau wrth drosglwyddo gwasanaethau pridiannau tir lleol yn unol â Deddf 2015. Felly, nid argymhellir Opsiwn 1 ac Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir.

**Dadansoddi effeithiau eraill**

41. **Hyrwyddo Cyfle Economaidd i Bawb (Trechu Tlodi)**

41.1. Ni nodwyd unrhyw effeithiau andwyol mewn perthynas â hyrwyddo cyfle economaidd i bawb. Mae'r cynnydd mewn ffioedd yn ansylweddol ac ni ddylai gael effaith andwyol ar y rhai sy'n awyddus i brynu eiddo neu wneud chwiliad mewn perthynas â thir yng Nghymru.

42. **CCUHP**

42.1. Ni nodwyd unrhyw effaith benodol ar hawliau plant.

43. **Y Gymraeg**

43.1. Ni nodwyd unrhyw effaith ar y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg nac o ran trin yr iaith yn gyfartal. Bydd pob gwasanaeth a ddarperir gan Gofrestrfa Tir EM ar gael yn ddwyieithog yn unol â'i dyletswydd o dan Safonau'r Gymraeg.

44. **Cydraddoldebau**

44.1. Ni nodwyd effeithiau penodol, cadarnhaol na negyddol, ar bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig (fel y'i pennir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

45. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

45.1. Drwy helpu i drosglwyddo i system ddigidol, bydd y system hon yn fwy cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

46. **Yr effaith ar y sector gwirfoddol**

46.1. Ni nodwyd unrhyw effeithiau penodol ar gyfer y sector gwirfoddol, y sector elusennol na'r sector nid er elw.

47. **Asesu'r Gystadleuaeth**

47.1. Ddim yn gymwys.

48. **Adolygu ar ôl gweithredu**

48.1. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro lefel y ffi a'r dulliau o'i thalu yng Nghymru ac yn mynd ati i weithredu os ceir effaith bosibl ar Gymru a'r rhai

sy'n defnyddio'r gwasanaethau yng Nghymru. Bydd Cofrestrfa Tir EM yn cynnal adolygiadau priodol yn unol â'i pholisi ar gyfer gweithredu ac adolygu'r *Rhaglen Pridiannau Tir Lleol* ac yn hysbysu swyddogion Llywodraeth Cymru am unrhyw beth a all effeithio ar ardaloedd yng Nghymru ar sail ad-hoc.

# SL(5)755 – Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 101(3(b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae adran 101 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno. Mae adran 101(3) o'r Ddeddf yn nodi ystyr y "cyfnod adolygu", sef y cyfnod y mae rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal ynddo.

Y cyfnod adolygu cyntaf o dan adran 101(3)(a) oedd y cyfnod o 25 Chwefror 2015 i 24 Chwefror 2016. O dan adran 101(3)(b) roedd pob asesiad dilynol i'w gynnal yn ystod pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd. Oherwydd effeithiau'r coronafeirws ar gymunedau yng Nghymru a'i effaith ar weinyddu mewn awdurdodau tai lleol mae'r cyfnod adolygu, a fyddai fel arall wedi dod i ben ar 24 Chwefror 2021, wedi ei estyn gan un flwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ystyr "cyfnod adolygu" yn adran 101(3) o'r Ddeddf fel bod y cyfnod adolygu sy'n dilyn y cyfnod adolygu o dan baragraff (a) wedi ei gynyddu o 5 i 6 mlynedd. Ar ôl hynny, y cyfnod adolygu yw 5 mlynedd.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Gorchymyn gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Gorchymyn oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Gorchymyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"A formal consultation has not taken place. However, on the 16 July 2020 the Welsh Government wrote to all local authorities in Wales to acknowledge the challenges of completing the needs assessment to support the Gypsy Travellers Accommodation Assessments and share four options for consideration:*

- *Keep the status quo and require all authorities to undertake an assessment by 25 February 2021.*
- *Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and in-person where this was not possible.*
- *Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and not require in-person where remote contact was not possible.*
- *Extend the review period by 12 months.*

*In addition, an engagement event was held with local authorities on the 17th September where the options were also discussed and indication given that the Minister would consider allowing an extension should this offer useful support to local authorities.*

*An expert stakeholder group comprising those working with Gypsies and Travellers and individuals from these communities, discussed the proposals on 2 July 2020 and provided clear advice that remote contact methods, including phone calls, would be unlikely to provide robust engagement. They unanimously supported the Welsh Government providing a 12 month extension to the process.*

*Officials do not plan to undertake formal consultation in addition to the informal consultation already undertaken on this matter. In order to act quickly to provide clarity to local authorities, it is not possible to undertake additional consultation. The flexibility, inherent in the recommended approach, and the general majority support expressed in the informal consultation will allow the Welsh Government to offer bespoke support to any local authority as required."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ar hyn o bryd, bydd awdurdod tai lleol na chynhaliodd ei ail asesiad erbyn 24 Chwefror 2021 yn torri'r ddyletswydd yn adran 101 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a bydd yn parhau i dorri'r ddyletswydd honno nes i'r Gorchymyn ddod i rym ar 18 Mawrth 2021.

Mewn perthynas â hynny, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

*"Whilst local housing authorities that have not carried out an assessment will be in breach of the duty in s.101(1) of the Housing (Wales) Act 2014 between 25 February 2021 and 18 March 2021, this represents the minimum achievable breach possible in current circumstances."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Mawrth 2021**

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(c) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 101(3)(b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae adran 101 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno. Mae adran 101(3) o'r Ddeddf yn nodi ystyr y "cyfnod adolygu", sef y cyfnod y mae rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal ynddo.

Y cyfnod adolygu cyntaf o dan adran 101(3)(a) oedd y cyfnod o 25 Chwefror 2015 i 24 Chwefror 2016. O dan adran 101(3)(b) roedd pob asesiad dilynol i'w gynnal yn ystod pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd. Oherwydd effeithiau'r coronafeirws ar gymunedau yng Nghymru a'i effaith ar weinyddu mewn awdurdodau tai lleol mae'r cyfnod adolygu, a fyddai fel arall wedi dod i ben ar 24 Chwefror 2021, wedi ei estyn gan un flwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ystyr "cyfnod adolygu" yn adran 101(3) o'r Ddeddf fel bod y cyfnod adolygu sy'n dilyn y cyfnod adolygu o dan baragraff (a) wedi ei gynyddu o 5 i 6 mlynedd. Ar ôl hynny, y cyfnod adolygu yw 5 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision

sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 142(3)(c) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad ganddi.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *18 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 101(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

Yn unol ag adran 142(3)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mawrth 2021.

(**1**) 2014 dccc 7.

(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 142(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

**Diwygio adran 101(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014**

**2.** —(1) Mae adran 101(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (b) rhodder—

“(b) y cyfnod o 6 mlynedd sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod ym mharagraff (a) i ben, a phob cyfnod dilynol o 5 mlynedd sy’n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod adolygu blaenorol i ben.”

*Enw*
Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
o dan awdurdod Gweinidogion Cymru
Dyddiad

**Explanatory Memorandum to** The Assessment of Accommodation Needs of Gypsies and Travellers (Extension of Review Period) (Wales) (Coronavirus) Order 2021.

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Education and Public Services Group of the Welsh Government and is laid before Senedd Cymru in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

**Minister/Deputy Minister's Declaration**

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of The Assessment of Accommodation Needs of Gypsies and Travellers (Extension of Review Period) (Wales) (Coronavirus) Order 2021. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Jane Hutt MS

Deputy Minister and Chief Whip, Member of the Senedd
23 February 2021

**PART 1**

1. **Description**

1.1 The Assessment of Accommodation Needs of Gypsies and Travellers (Extension of Review Period) (Wales) (Coronavirus) Order 2021 will extend the current review period (as set out in section 101 of the Housing Act (Wales) 2014) for Gypsy and Traveller Accommodation Assessments from five years to six years, with subsequent review periods to remain at five years.

1.2 The extension period will allow local housing authorities to undertake engagement with Gypsies and Travellers living within their locality in order to assess accommodation needs for these communities as robustly as possible. The impacts of Coronavirus on communities in Wales and the effect that it has had on administration within local housing authorities prevented this engagement taking place within the original prescribed timescale, which is why the extension is required.

**2. Matters of special interest to the Legislation, Justice and Constitution Committee**

None.

**3. Legislative background**

Section 101 of the Housing (Wales) Act 2014 ("the Act") makes provision for the assessment of accommodation needs, by a local housing authority, of Gypsies and Travellers residing in or resorting to its area.

Section 101(3) of the Act defines the "review period", during which local housing authorities must carry out an assessment of the accommodation needs of Gypsies and Travellers.

The first review period under section 101(3)(a) was the period from 25 February 2015 to 24 February 2016. Under section 101(3)(b) all subsequent review periods were 5 years. The order extends the current review period by one year, so it will now come to an end on 24 February 2022 rather than 24 February 2021. Subsequent review periods will remain at 5 years.

Sections 101(4) and 142(1) of the Act give the Welsh Ministers the power to amend subsection (3)(b) by order.

In accordance with section 142(3)(c) of the Act the draft affirmative procedure applies to orders made under section 101(4). The order must therefore be laid before and approved by a resolution of Senedd Cymru. The proposed coming into force date is 18 March 2021.

## 4. Purpose and intended effect of the legislation

The purpose of this order is to extend the current five year review period for local housing authorities to carry out their second Gypsy and Traveller Accommodation Assessment. As a result of the extension the date for completion of the assessment will move from 24 February 2021 to 24 February 2022. In practice this will mean that the date by which the assessment must normally be submitted to the Ministers will move from 25 February 2021 to 25 February 2022.

Although some local housing authorities had commenced their assessment early within the five year period, those that had intended to undertake detailed survey work during the summer of 2020 faced significant barriers due to the COVID-19 pandemic and associated measures to control public health risks.

Demographic data on the accommodation needs of Gypsies and Travellers is insufficient for a robust calculation of need, which may only be carried out by a face-to-face census-style survey as set in statutory guidance.
By extending the current review period, local housing authorities will be able to undertake the required robust assessment of need based on face-to-face interviews once measures to significantly control the pandemic are in place (as anticipated during 2021). Those local housing authorities that were able to undertake robust engagement and calculation of need, whether in advance or during the COVID-19 pandemic would still be able to submit their GTAA for consideration by the Welsh Ministers to the original timescale. Maintaining a robust assessment of need will help ensure Gypsies and Travellers are provided with sufficient culturally-appropriate accommodation.

Whilst local housing authorities that have not carried out an assessment will be in breach of the duty in s.101(1) of the Housing (Wales) Act 2014 between 25 February 2021 and 18 March 2021, this represents the minimum achievable breach possible in current circumstances.

## 5. Consultation

A formal consultation has not taken place. However, on the 16 July 2020 the Welsh Government wrote to all local authorities in Wales to acknowledge the challenges of completing the needs assessment to support the Gypsy Travellers Accommodation Assessments and share four options for consideration:

- Keep the status quo and require all authorities to undertake an assessment by 25 February 2021.
- Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and in-person where this was not possible.
- Permit assessment surveys to be undertaken remotely where possible and not require in-person where remote contact was not possible.
- Extend the review period by 12 months.

12 local authorities responded and the feedback was as follows:

- 11 local authorities confirmed their preferred option was for an extension of up to 12 months.
- 1 local authority did not support an extension, wishing to press ahead with their GTAA without delay and proposing changes to the statutory methodology in line with option 4

In addition, an engagement event was held with local authorities on the 17th September where the options were also discussed and indication given that the Minister would consider allowing an extension should this offer useful support to local authorities.

An expert stakeholder group comprising those working with Gypsies and Travellers and individuals from these communities, discussed the proposals on 2 July 2020 and provided clear advice that remote contact methods, including phone calls, would be unlikely to provide robust engagement. They unanimously supported the Welsh Government providing a 12 month extension to the process.

Officials do not plan to undertake formal consultation in addition to the informal consultation already undertaken on this matter. In order to act quickly to provide clarity to local authorities, it is not possible to undertake additional consultation. The flexibility, inherent in the recommended approach, and the general majority support expressed in the informal consultation will allow the Welsh Government to offer bespoke support to any local authority as required.

## PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

### 6. Options

Four options have been considered in this assessment, these are as follows:

**Option 1** - All local housing authorities resume fieldwork provided social distancing measures can be put in place.
**Option 2** – Permit non-contact fieldwork and remove the requirement to attempt three on-site household interview attempts from the statutory guidance.
**Option 3** – permit non-contact fieldwork to be attempted and require on-site interview if this fails.
**Option 4** - Permit an extension of 12 months to the submission of GTAA's and re-submission by request for those currently under scrutiny.

Each of these options is summarised below.

**Option 1** - All local housing authorities resume fieldwork provided social distancing measures can be put in place. (This is the return to "business as usual" option).

Pros:

- May permit some local authorities to meet the February 2021 deadline.
- Ensures the maximum number of GTAAs that comply with existing guidance.
- Poses no risk to related Local Development Planning timetables.

Cons:

- Local authorities are very unlikely to be able to recover lost time and submit by February 2021.
- Risk of opposition by community and reduced participation in survey if visitors to sites are perceived as breaking either official health protection rules or being a source of infection. Practice-based feedback suggests that cultural norms in Gypsy and Traveller communities, mean that concerns about infection from outsiders may be particularly strong.
- Fewer people undertaking traditional travel in 2020 may result in systemic under-estimation of transit sites need. Any underestimate of need will be "locked in" until 2026.
- Where external consultants are employed to undertake the GTAA survey, there is a risk they may withdraw from contact rather than put staff at risk.
- Has potential to raise risk of Covid-19 transmission on sites. Caravans and utility blocks are relatively small and whilst it may be possible to ensure a 2m distance in some circumstances, the interviews are likely to exceed 15 minutes. In some circumstances it may be possible to erect temporary outdoor shelters on sites for the purposes of interviews, though not all sites will have a suitable communal location that provides adequate privacy. Whilst it may be possible to reduce the risk of transmission by following social distancing guidance and good hygiene practices; by requiring local authorities to carry out the field work, we potentially expose the community to a greater risk of contracting the disease. If an outbreak of the virus was to follow the completion of site visits, this could anger the community and potentially set back relationships both locally and more widely.
- This risk applies to any site visit conducted as part of option 3 and 4 going forward, but the business as usual approach poses the greatest risk, whatever that is quantified to be. And perhaps the intensity at which they would have to complete the work in order to meet the existing deadline.

**Option 2** – Permit non-contact fieldwork and remove the requirement to attempt three on-site household interviews from the statutory guidance. ("No contact")

Pros:

- May permit some local authorities to meet the February 2021 deadline.
- This methodology is understood by consultants specialising in GTAAs, largely from experience in England.
- Minimises health risk and is compliant with social distancing requirements.
- May reduce cost to local authorities and/or consultants.

- Poses no risk to related Local Development Planning timetables.

Cons:

- Local authorities may still not be able to recover lost time and submit by Feb 2021.
- Not compliant with the statutory guidance, which sets out the intention for surveys to be conducted on a face-to-face basis.
- In order to give effect to this option, supplementary statutory guidance would need to be published permitting departure from the extant statutory guidance.
- No local authority has expressed a preference for this option, although the largest consultant undertaking GTAAs does support it.
- Gypsies and Travellers with unmet need are unlikely to have contact numbers known to consultants (and may not have phones).
- Risk of opposition by community and reduced participation in survey.
- Fewer people undertaking traditional travel in 2020 may result in systemic underestimation of transit site need.
- Risk of misrepresentation and gatekeeping, as it would not be possible to ensure that a respondent on the phone is a resident of an identified household. In addition, where a concealed household (a second or third household on a pitch) is present, respondents would be less likely to disclose their presence and the interviewer could not request their (third party) contact details from the respondent.
- Any underestimate of need will be “locked in” until 2026.

**Option 3** – permit non-contact fieldwork to be attempted and require on-site interview if this fails. (“Reduced contact”)

Pros:

- May permit some local authorities to meet the February 2021 deadline.
- This methodology is understood by consultants specialising in GTAAs, largely from experience in England.
- May reduce cost to local authorities and/or consultants.
- Reduces health risk.
- Maximises potential interviews by providing choice to participants on managing their risk.
- By retaining the requirement to conduct interviews in person, this option would in practice default to the in-person interview (i.e. option 1) where a local authority lacked contact details.
- Poses no risk to related Local Development Planning timetables.

Cons:

- Local authorities may not be able to recover lost time and submit by Feb 2021.
- Risk of opposition by community and reduced participation in survey.
- This option is not described in the existing statutory guidance. Although some local authorities may be able to depart from the guidance whilst maintaining a robust identification of need, some local authorities may not.

- In order to give effect to this option, supplementary guidance will be required to permit local authorities to use this approach even if it results in reduced identification of need.
- Fewer people undertaking traditional travel in 2020 may result in systemic underestimation of transit site need.
- Risk of misrepresentation and gatekeeping
- Any underestimate of need will be “locked in” until 2026.
- May appear to undermine Welsh Government or Public Health Wales messaging on reducing non-essential contact.

**Option 4** - Permit an extension of 12 months to the submission of GTAA’s and re-submission by request for those currently under scrutiny. (“Extend review period”)

Pros:

- Provides a methodology consistent across all local authorities and with the statutory guidance.
- Relieves pressure on local authorities and the Welsh Government during the pandemic.
- Likely to result in most robust levels of need being correctly identified over the next five years, particularly transit site need.
- Provides an evidence base for planning considerations that is robust and most likely to address emerging need over the coming five years.
- This option is supported by the Welsh Government specialist stakeholder group made up those working directly with Gypsies and Travellers on sites, some of whom are also community members.
- This option is supported by the majority of local authorities who responded to officials.

Cons:

- Where need identified under existing GTAAs has been met, delay on replacement GTAAs may stall new projects. This is because evidence gathered in GTAAs is required to support planning consent, either through Local Development Plan or planning applications, and Welsh Government funding for additional pitches is only available where there is evidence of additional need.
- An extension to the review may be perceived as delaying action for the communities. This can be mitigated through clear communication with these communities.
- Without mitigation, the extension period does pose a risk to a small number of Local Development Planning timetables; specifically Monmouthshire, RCT, Conwy and Ceredigion. To mitigate this risk policy officials will work with each local authority to plan submission and prioritise assessment to avoid delays to the Local Development Planning process. This work is already underway.

If the assessments are delayed, whilst this gives a local authority longer to complete the assessments and gather the information, this could delay the identification of need amongst Gypsy and Traveller communities. If the assessments are required to continue, in whatever capacity (with varying

changes to the methodology in place), the assessments may be inaccurate if the data gathering is not robust and significantly options 1 – 3 may expose the community to an increased risk of transmission of coronavirus.

In bringing forward option 4 and amending primary legislation, we have noted the feedback provided by our stakeholders who work with the communities. They report that Gypsy and Traveller communities on many sites in Wales are withdrawing from contact with non-residents including withdrawal from schools, even amongst those placing a high value on education. Practice based feedback suggests that Gypsies and Travellers have cultural norms around hygiene, cleanliness and disease that include seeing outsiders as being a potential source of contamination and disease. During the pandemic it is important to consider how welcome unknown professionals will be on sites and whether this will inhibit the important field work.

**7. Costs and benefits**

Each of the options could potentially have a negative impact on the community. If the assessments are delayed, whilst this gives a local authority longer to complete the assessments and gather the information, this could delay the identification of need amongst the community. If the assessments are required to continue, in whatever capacity (with varying changes to the methodology in place), the assessments may be inaccurate if the data gathering is not robust and significantly options 1 – 3 may expose the community to an increased risk of transmission of coronavirus.

There are very limited specific financial costs and benefits associated with each of the four options.

Option 1 – as the default option, this would provide the baseline against which the other options would be assessed and creates no additional financial costs or benefits. This option would give rise to significant impacts on those in need of culturally-appropriate accommodation, as assessments would not robustly identify all the required need. Without stable and sustainable accommodation, reduced access to healthcare, education and employment opportunities will mean these impacts will be long term.

Option 2 – it is unlikely that any significant additional costs would be incurred, nor savings. Whilst there may in some circumstances be a reduction in some costs of undertaking the assessment survey by local authorities, by a reduction in travelling costs for instance, these would be a minor component in the overall cost of undertaking the assessment and would be offset by additional costs in assembling supplementary evidence where surveys were not undertaken. As with option 1, the lack of robust identification of need is likely to result in significant and long term impacts on those in need of culturally-appropriate accommodation.

Option 3 – it is likely that this option would need to be given effect through the publication of additional guidance, which may incur a small additional administrative cost to the Welsh Government and lesser additional administrative cost to local authorities. These would be opportunity costs reflecting the value of an existing member of staff's time rather than an additional financial outlay. It is unlikely that undertaking surveys would be either more or less costly as a result of this option. As with options 1 and 2, the lack of robust identification of need is likely to result in significant and long term impacts on those in need of culturally-appropriate accommodation.

Option 4 – whilst the survey work would be delayed by up to 12 months for some authorities, the assessment would be undertaken against the existing requirements at the same cost. Local authorities who have already progressed their assessment and completed survey work may submit their assessment on the original timescale with no difference to cost. Whilst some assessments will be completed later than the original timescale (by February 2022 rather than February 2021) and these may result in slower delivery of some accommodation, the number of projects delayed are expected to be fewer in number and shorter in duration than projects delayed in options 1-3.

None of the options create or remove new requirements for local authorities to undertake assessments or to meet the need for accommodation identified.

**Summary of the preferred option**

As there are limited financial differences between the four options, the preferred option is option 4, as the negative impacts on Gypsies and Travellers of a limited number of delayed construction projects in some local areas will be significantly less than the longer delays across many areas that options 1-3 will result in, which would only be addressed following subsequent assessments in five years' time, as local housing authorities are unlikely to undertake assessments more frequently than required.

## 8. Consultation

An informal consultation event was held with stakeholders who work with Gypsy and Traveller communities. Evidence was provided that Gypsy and Traveller communities on many sites in Wales are withdrawing from contact with non-residents including withdrawal from schools, even amongst those placing a high value on education. Practice based feedback suggests that Gypsies and Travellers have cultural norms around hygiene, cleanliness and disease that include seeing outsiders as being a potential source of contamination and disease. During the pandemic it is important to consider how welcome unknown professionals will be on sites and whether this will inhibit the important field work. Stakeholders provided clear advice that remote contact methods including phone calls would be unlikely to provide robust engagement, not least because many local authorities would be unlikely to have phone numbers of those they needed to contact. The group advised that unauthorised encampments were less frequent and/or different in nature and expressed concerns that assessment of Transit (or other temporary) need was at risk of

underestimation based on the pattern seen in 2020. They unanimously supported a 12 month extension to the process.

All 22 local housing authorities in Wales were contacted in July 2020 and provided with an opportunity to comment on the proposed options. Whilst responses were requested within a week, no formal deadline was imposed and discussions with local authorities on these options continued until September 2020. Eight local authorities provided no response including five who have submitted assessments early and two that are known to be at an advanced stage of completing their assessment. Eleven authorities confirmed their preferred approach was for an extension of 12 months. Only one authority proposed amendments to the methodology combined with an extension of less than 12 months.

## 9. Competition Assessment

There is no anticipated impact on competition from this proposal. Most assessments are undertaken by local authorities and only one consultancy firm is known to operate in this area, and they have not identified any economic impact as a result of this legislation.

## 10. Post implementation review

As the desired impact of the legislation is to ensure the completion of robust assessments, the impact of this change will be evaluated once the scrutiny of all replacement assessments in the current review period is complete. This will necessarily be a subjective evaluation and the intention is to incorporate the result of the evaluation into the next review of the statutory guidance “Undertaking Gypsy and Traveller Accommodation Assessments”.

# SL(5)764 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

## Cefndir a diben

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â’r Gymraeg.

Mae Atodlen 6 yn rhestru'r unigolion a'r sefydliadau y mae Mesur 2011 yn berthnasol iddynt ac yn nodi'r safonau a allai fod yn berthnasol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 6 i Fesur 2011 trwy ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlwyd o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Yr effaith yw y bydd y safonau canlynol, o bosibl, yn berthnasol i gyd-bwyllgorau corfforedig:

- safonau cyflenwi gwasanaethau,
- safonau llunio polisi,
- safonau gweithredu,
- safonau hybu, a
- safonau cadw cofnodion.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â rheoliadau eraill a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol.

## Gweithdrefn

Gwneud cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau hyn o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo’r Senedd: (i) wedi’i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y’u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Dylai pennawd y Rheoliadau gynnwys "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU" yn ogystal ag "Y GYMRAEG", i nodi maes y gyfraith y mae'r offeryn yn ymwneud ag ef.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Yn ôl y rhaglith, "gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o [Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021]."

Mae'n ymddangos y dylai'r cyfeiriad fod at adran 174(4) a 5*(k)* [*ychwanegwyd y pwyslais*], gan fod paragraff (k) o is-adran (5) yn darparu bod is-adran (4) yn gymwys i offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wneir o dan adran 83 (cyd-bwyllgorau corfforaethol: atodol ac ati).

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae adran 'Cefndir Deddfwriaethol' y Memorandwm Esboniadol yn darparu fel a ganlyn:

> "*Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd yn rhinwedd paragraff 35 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.*"

Fodd bynnag, mae'r rhaglith i'r Rheoliadau yn dyfynnu adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gywir fel y ddarpariaeth sy'n nodi'r weithdrefn seneddol sy'n berthnasol i'r offeryn hwn. Nid yw'n eglur pam y cyfeirir yn y Memorandwm Esboniadol at baragraff 35 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan nad yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth yn berthnasol.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (dccc 1) ("y Mesur") yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Mae adran 25 o'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg a bennir gan Weinidogion Cymru os yw'r person, yn ogystal â bodloni amodau eraill, yn agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod y safon yn gymwysadwy i'r person.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 6 i'r Mesur i ychwanegu cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy Reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1). Effaith hyn yw bod cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff sy'n agored i gydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod y safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi, y safonau gweithredu, y safonau hybu a'r safonau cadw cofnodion yn gymwysadwy iddynt hwy.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Cyllid Strategol

Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays,
Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

---

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U   D R A F F T

---

# 2021 Rhif (Cy. )

# Y GYMRAEG

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Ebrill 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(2) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(l) o'r Ddeddf honno.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021.

---

(**1**) 2021 dsc 1

**Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (cyrff cyhoeddus etc: safonau)(**1**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn y tabl, o dan y pennawd "LLYWODRAETH LEOL ETC", yn y lle priodol mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "Cyd-bwyllgorau corfforedig ("*Corporate joint committees*") | Safonau cyflenwi gwasanaethau |
| | Safonau llunio polisi<br>Safonau gweithredu<br>Safonau hybu<br>Safonau cadw cofnodion" |

(3) Ym mharagraff 2 (dehongli), yn y lle priodol mewnosoder—

"ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;".

*Enw*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) 2011 mccc 1. Diwygiwyd Atodlen 6 yn flaenorol ond nid yw'r diwygiadau yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
23 Chwefror 2021

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ddarparu bod cyd-bwyllgorau corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o fewn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 1 Ebrill 2021.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

## 3. Y Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adran 84(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae adran 84(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer pennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn nodi'r rhestr o bersonau / categorïau y mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gymwys iddynt a'r safonau a allai fod yn gymwys.

Bydd y Rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd yn rhinwedd Adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Rheoliadau'n cael eu gwneud gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021 ("rheoliadau diwygio") yn diwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r rheoliadau diwygio yn darparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn agored i orfod cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o fewn Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r rheoliadau diwygio yn rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol

angenrheidiol ar waith ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlir drwy reoliadau, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau, cynhwysir awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig hefyd; mewn achosion o’r fath bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y bydd Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y byddant yn ddarostyngedig i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol, neu bwerau a dyletswyddau tebyg i awdurdodau lleol, yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae adran 25 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i berson gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg a bennir gan Weinidogion Cymru os, yn ogystal â bodloni amodau eraill, yw’r person yn agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod y safon o bosibl yn gymwys i'r person. Mae'r rheoliadau diwygio yn diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 i ychwanegu Cyd-bwyllgorau Corfforedig at y cyrff hynny y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â safon ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg.

Effaith hyn yw y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff sy'n agored i orfod cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a bod safonau cyflenwi gwasanaethau, safonau llunio polisi, safonau gweithredol, safonau hybu a safonau cadw cofnodion o bosibl yn gymwys iddynt.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn:

a. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r safonau a allai fod yn gymwys iddynt yn Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 o dan y pennawd "LLYWODRAETH LEOL ETC.”
b. Yn mewnosod diffiniad o Gyd-bwyllgorau Corfforedig ym mharagraff 2 o Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

## 5. Ymgynghori

Ymgynghorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol hefyd â Chomisiynydd y Gymraeg ar y bwriad i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Ystyriwyd cymhwyso Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a gynhaliwyd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn unol â'r dull o drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' cytunodd ymatebwyr y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un safonau a rhwymedigaethau o ran y Gymraeg ag y mae awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Yn ogystal, trafodwyd cymhwyso Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg i Gyd-bwyllgorau Corfforedig ar sawl achlysur yn ystod hynt Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd. Ymrwymodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael

eu cynnwys ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a'u cynnwys yn Safonau'r Gymraeg wrth iddynt gael eu sefydlu neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân mewn perthynas â'r rheoliadau hyn. Fodd bynnag, roedd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-orllewin 2021 yn asesu'r costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi trosfwaol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau ehangach cyrff cyhoeddus megis Safonau'r Gymraeg. Felly, ystyriwyd y costau sy'n gysylltiedig â chymhwyso'r Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2021 hyn i Gyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r asesiad effaith rheoleiddiol ar y rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig eu hunain.

Mae copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy’n cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol sy’n cyd-fynd â'r rheoliadau hynny:

https://senedd.cymru/media/asppuikv/sub-ld14134-em-w.pdf.

# SL(5)767 – Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Gwneir Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 ("y Rheoliadau") o dan y pwerau galluogi sydd wedi'u cynnwys yn adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(1).

Mae Rhan 5 o Ddeddf 2021 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafnidiaeth.

Mae adran 83(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n berthnasol mewn perthynas â (a) yr holl gyd-bwyllgorau corfforedig; (b) cyd-bwyllgor corfforedig penodol, ac (c) disgrifiad penodol o gyd-bwyllgor corfforedig.  At hynny, mae adran 84 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â Rhan 5 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio, addasu, cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad. Yn olaf, mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Mae Rhan 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) ("Deddf 2000") yn gwneud darpariaeth ynghylch trafnidiaeth leol yng Nghymru. Yn benodol, mae'n gwneud darpariaeth ynghylch Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol sydd, yng Nghymru, wedi'u diffinio at ddibenion Rhan 2 fel cynghorau sir neu fwrdeistref sirol.

Mae adran 108 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trafnidiaeth Lleol ddatblygu cynllun trafnidiaeth lleol sy'n hyrwyddo trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ardal yr awdurdod.

Mae'r Rheoliadau'n addasu Deddf 2000 mewn achosion lle mae cyd-bwyllgor corfforedig wedi'i sefydlu gan Reoliadau, ac mae'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi'i rhoi i'r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae'r addasiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyd bwyllgor corfforedig ddatblygu polisïau trafnidiaeth a sefydlu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal. Fodd bynnag, rôl pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol yn ardal y cydbwyllgor corfforedig yw rhoi'r polisïau ar waith.  Mae pedwar cyd-bwyllgor corfforedig wedi'u sefydlu o dan eu Rheoliadau priodol.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae pennawd y Rheoliadau yn cyfeirio at "LLYWODRAETH LEOL, CYMRU". Nodir mai prif ffocws y Rheoliadau yw trosglwyddo swyddogaethau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth leol i'r cyd-bwyllgorau corfforedig perthnasol sydd newydd eu ffurfio.  O'r herwydd, nid yw'n eglur pam nad yw'r pennawd pwnc yn cynnwys 'TRAFNIDIAETH' hefyd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**2 Mawrth 2021**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U  D R A F F T

# 2021 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (p. 38) ("Deddf 2000") yn gwneud darpariaeth am drafnidiaeth yng Nghymru. Yn benodol mae'n gwneud darpariaeth am Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol yng Nghymru, sydd wedi eu diffinio at bwrpas Rhan 2 fel cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol.

Mae adran 108 o Ddeddf 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Trafnidiaeth Lleol lunio cynllun trafnidiaeth lleol sy'n hyrwyddo trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd yn ei ardal.

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig. Mae cyd-bwyllgorau corfforedig yn gyrff corfforedig sy'n cynnwys y cynghorau sir a'r cynghorau bwrdeistref sirol hynny yng Nghymru a bennir yn y Rheoliadau sy'n eu sefydlu. Caniateir iddynt arfer y swyddogaethau a bennir yn y Rheoliadau hynny, gan gynnwys (ymhlith pethau eraill) swyddogaethau penodedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol o ran trafnidiaeth.

Mae'r rheoliadau hyn yn addasu Deddf 2000 mewn achosion pan fo cyd-bwyllgor corfforedig wedi ei sefydlu drwy reoliadau a'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf 2000 wedi ei rhoi i'r cyd-bwyllgor corfforedig. Mae'r addasiadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyd-bwyllgor corfforedig

ddatblygu polisïau trafnidiaeth a sefydlu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol ar gyfer ei ardal. Fodd bynnag, rôl pob Awdurdod Trafnidiaeth Lleol yn ardal y cyd-bwyllgor corfforedig yw rhoi'r polisïau ar waith.

Mae'r swyddogaethau o dan adran 108 wedi eu rhoi i 4 cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlir o dan y Rheoliadau a ganlyn—

(a) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 (O.S. 2021/xxxx) (Cy. xx);

(b) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021 (O.S. 2021/xxxx) (Cy. xx);

(c) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021 (O.S. 2021/xxxx) (Cy. xx);

(d) Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021 (O.S. 2021/xxxx) (Cy. xx).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gysylltiedig â Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig penodol o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sy'n sefydlu cyd-bwyllgorau corfforedig a rheoliadau cysylltiedig. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol. Gellir cael copi oddi wrth: yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2021 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *28 Chwefror 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad ganddi yn unol ag adran 174(4) a (5)(k) ac (l) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021, a deuant i rym ar 28 Chwefror 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "cyd-bwyllgor corfforedig" ("*corporate joint committee*") yw cyd-bwyllgor corfforedig a sefydlwyd drwy reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021;

(**1**) 2021 dsc 1.

ystyr "cyngor cyfansoddol" ("*constituent council*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, y mae Gweinidogion Cymru wedi sefydlu cyd-bwyllgor corfforedig mewn cysylltiad â'i ardal.

**Addasu Deddf Trafnidiaeth 2000**

**3.** Pan fo'r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 ("Deddf 2000") mewn cysylltiad ag ardal awdurdod trafnidiaeth lleol wedi ei rhoi i gyd-bwyllgor corfforedig, mae Deddf 2000 yn gymwys mewn perthynas ag—

(a) cyd-bwyllgor corfforedig y rhoddir y swyddogaethau iddo, a

(b) ei gynghorau cyfansoddol,

yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir yn yr Atodlen.

*Enw*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

# YR ATODLEN

**Addasu Deddf Trafnidiaeth 2000**

**1.** I'r graddau y mae'n gymwys fel y crybwyllir yn rheoliad 3, mae Rhan 2 o Ddeddf 2000 i'w darllen fel pe bai wedi ei haddasu fel a ganlyn.

**2.** Mae adran 108 (cynlluniau trafnidiaeth lleol) i'w darllen fel pe bai—

(a) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (1)—

"(1) A corporate joint committee must develop policies, to be implemented under subsection (1A), for the promotion and encouragement of safe, integrated, efficient and economic transport to, from and within its area. ";

(b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (1)—

"(1A) Each local transport authority in Wales whose area falls within the area of a corporate joint committee must carry out their functions so as to implement the policies developed by the corporate joint committee under subsection (1).";

(c) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (2A)—

"(2A) A corporate joint committee must also develop policies for the implementation by the local transport authorities in its area of the Wales Transport Strategy.";

(d) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (2A)—

"(2B) Each local transport authority in Wales whose area falls within the area of a corporate joint committee must carry out their functions so as to implement the policies developed under subsection (2A).";

(e) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (3A)—

"(3A) A corporate joint committee must prepare a document to be known as the regional transport plan containing its policies under subsections (1) and (2A).";

(f) y canlynol wedi ei roi yn lle is-adran (5)—

"(5) In this Part "regional transport policies", in relation to a local transport authority, means policies developed under subsection (1) in so far as they relate to the authority's area.";

(g) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-adran (5)—

"(6) In this Part—

(a) "corporate joint committee" means a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021, and

(b) a reference to an area of a corporate joint committee is a reference to the area comprising—

(i) the areas of the local transport authorities that made a joint committee application under section 72(1) of that Act for regulations to be made under that section establishing the corporate joint committee, or

(ii) the relevant areas (within the meaning given by section 74(1) of that Act) specified in the regulations establishing the corporate joint committee.";

(h) pennawd yr adran yw "Local and Regional Transport Plans".

**3.** Mae'r canlynol fel pe bai wedi ei roi yn lle adran 109A—

"**109A Approval of regional plan**

(1) A corporate joint committee must submit its regional transport plan to the Welsh Ministers for their approval.

(2) If the Welsh Ministers refuse to approve the plan—

(a) they must give the corporate joint committee a statement of their reasons for its refusal, and

(b) the corporate joint committee must prepare another regional transport plan and submit the plan to the Welsh Ministers for their approval.

(3) If the Welsh Ministers approve a plan under this section, the plan has effect when the approval is given.

(4) The Welsh Ministers may approve a regional transport plan under this section if (but only if) they consider—

(a) that the plan is consistent with the Wales Transport Strategy, and

(b) that the policies contained in the plan are adequate for implementation in the corporate joint committee's area of the Strategy."

**4.** Mae'r canlynol fel pe bai wedi ei roi yn lle adran 109B—

**“109B Further provision about the regional plan**

(1) A corporate joint committee must keep its regional transport plan under review and alter it if it considers it appropriate to do so.

(2)A corporate joint committee must in particular review the plan as soon as practicable after the publication of the Wales Transport Strategy or any revision of it.

(3) A corporate joint committee must replace its regional transport plan not later than five years after the date on which the plan was approved under section 109A.

(4) Section 109A applies to a replacement plan as altered as it applies to a plan as originally prepared.

(5) A corporate joint committee shall be taken to have complied with subsection (3) if (but only if)—

(a) it submits its replacement plan to the Welsh Ministers for their approval under section 109A before the end of the five year period mentioned in subsection (3), and

(b) the Welsh Ministers approve the plan under section 109A (whether the approval is given before or after the end of that five year period).

(6) If a corporate joint committee fails to comply with subsection (3) because it fails to submit its replacement plan to the Welsh Ministers before the end of the five year period mentioned in that subsection, the corporate joint committee must replace its regional transport plan as soon as practicable after the expiry of the five year period.

(7) If a corporate joint committee fails to comply with subsection (3) because the Welsh Ministers refuse to approve a plan submitted to them under section 109A, it must replace its regional transport plan as soon as practicable after the refusal.

(8) As soon as practicable after its plan, or its plan as altered, has been approved under section 109A, a corporate joint committee must—

(a) publish the plan or the plan as altered in such manner as it thinks fit, and

(b) send a copy of it to such persons (if any) as may be specified in guidance under section 112(1).

(9) A corporate joint committee must also—

(a) ensure that a copy of its regional transport plan is available for

inspection (at all reasonable hours) at such places it thinks fit,

(b) give notice, by such means as it thinks expedient for bringing it to the attention of the public, as to the places at which a copy of it may be inspected, and

(c) supply a copy of it (or any part of it) to any person on request, either free of charge or at a charge representing no more than the cost of providing the copy.”

**5.** Mae adran 109C i’w thrin fel pe bai wedi ei hepgor.

**6.** Mae’r canlynol fel pe bai wedi ei roi yn lle adran 112—

“**112 Regional plan: supplementary**

(1) In carrying out its functions under sections 108 to 109B, a corporate joint committee must have regard to any guidance issued by the Welsh Ministers concerning—

(a) the content of regional transport plans,

(b) the preparation of such plans,

(c) the alteration and replacement of such plans, and

(d) the publication and making available of such plans as originally made and as altered or replaced.

(2) Subsection (3) applies in relation to the development of policies under section 108(1) and the implementation under section 108(1A) of those policies.

(3) A corporate joint committee, or a local transport authority within the area of the corporate joint committee (as the case may be), must have regard to the transport needs of disabled persons (within the meaning of the Equality Act 2010) and of persons who are elderly or who have mobility problems.”

**7.** Mae adran 113A i’w thrin fel pe bai wedi ei hepgor.

**8.** Mae’r canlynol fel pe bai wedi ei roi yn lle adran 113B—

“**113B Directions concerning regional plan**

(1) The Welsh Ministers may give general or specific directions to a corporate joint committee as to the manner in which it is to carry out its functions under sections 108 to 109B.

(2) The Welsh Ministers may give general or specific directions to a local transport authority whose area falls within the area of a corporate joint committee as to the manner in which they are to carry out their functions under section 108.

(3) Directions given under subsection (1) may include in particular directions as to the timetable in accordance with which the regional transport plan or alterations to the plan must be prepared.

(4) Directions given under subsection (2) may include in particular directions as to—

(a) the action required to be taken to implement the policies contained in the regional transport plan;

(b) as to the steps required to be taken to remove the effects of action which is incompatible with those policies.

(5) Directions under this section—

(a) must be in writing;

(b) may be varied or revoked by further directions under this section.

(6) The Welsh Ministers must consult—

(a) in relation to a direction under subsection (1), the corporate joint committee concerned,

(b) in relation to a direction under subsection (2), the local transport authority concerned,

before giving, varying or revoking the direction.

(7) The Welsh Ministers may consult any other persons they consider appropriate in relation to giving, varying or revoking a direction under subsection (1) or (2).”

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Gorchmynion uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

23 Chwefror 2021

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, y rhoddwyd iddynt y swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 22 Chwefror 2022.

## 2. Materion sydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

## 3. Cefndir Deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adrannau 83(2), 84 a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 83(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy'n gymwys mewn perthynas ag—

(a) pob cyd-bwyllgor corfforedig;
(b) cyd-bwyllgor corfforedig penodol;
(c) disgrifiad penodol o'r cyd-bwyllgor corfforedig.

Mae adran 84 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, bydd y Gorchmynion yn cael eu gwneud gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 17 Mawrth 2022 ac yn dod i rym ar 28 Chwefror 2022. Mae'r dyddiad dod i rym yn cael ei ohirio er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â dyddiad cychwyn cyntaf y swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 o dan Reoliad 13 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 ("y rheoliadau trafnidiaeth") yn addasu Deddf Trafnidiaeth 2000 mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 pan fo swyddogaethau datblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 wedi'u rhoi i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlir drwy reoliadau, ac maent yn cynnwys y prif gynghorau hynny yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu.  Mewn rhai amgylchiadau, mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru hefyd wedi'u cynnwys mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig; lle bo hyn yn wir, bydd hyn hefyd yn cael ei nodi yn rheoliadau perthnasol sefydlu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021 ("y Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig") yn sefydlu 4 Cyd-bwyllgor Corfforedig rhanbarthol yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn darparu bod yn rhaid i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny arfer swyddogaethau datblygu polisïau o dan adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r rheoliadau trafnidiaeth yn darparu ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol i Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

Mae'r rheoliadau trafnidiaeth:
- Yn addasu adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 fel bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig y rhoddir y swyddogaethau iddo ddatblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i mewn ac allan o’i ardal ac oddi mewn iddi; ac yn darparu bod yn rhaid i bob awdurdod trafnidiaeth lleol sy'n dod o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig weithredu'r polisïau a ddatblygwyd gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.
- Yn addasu adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 fel bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig hefyd ddatblygu polisïau i’r awdurdodau trafnidiaeth lleol yn ei ardal weithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a bod yn rhaid i bob awdurdod trafnidiaeth lleol sy'n dod o fewn ardal y Cyd-bwyllgor Corfforedig weithredu'r polisïau hyn.
- Yn addasu adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 fel bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig baratoi cynllun trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cynnwys ei bolisïau.
- Yn addasu adran 108 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu ar gyfer dehongli'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ac ardal Cyd-bwyllgor Corfforedig yn briodol.
- Yn addasu adran 109A o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu ar gyfer cymeradwyo cynllun trafnidiaeth rhanbarthol a baratowyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig.
- Yn addasu adran 109B o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu ar gyfer adolygu, disodli, cyhoeddi ac arolygu cynllun trafnidiaeth rhanbarthol a baratowyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig.
- Yn addasu adran 112 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu bod yn rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig roi sylw dyledus i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ynghylch cynnwys, paratoi, newid, disodli a chyhoeddi ei gynllun trafnidiaeth rhanbarthol.

- Yn addasu adran 113B o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 i ddarparu y caiff Gweinidogion roi cyfarwyddiadau i Gyd-bwyllgor Corfforedig neu awdurdod trafnidiaeth lleol ynglŷn a'r modd y byddant yn cyflawni eu swyddogaethau o dan y darpariaethau perthnasol yn y rheoliadau trafnidiaeth.

## 5. Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021 ("Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig") rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Roedd Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cynnwys darpariaeth i roi i'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hynny swyddogaeth datblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a 2(A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000. Roedd Rheoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig hefyd yn cynnwys yr addasiadau i Ddeddf Trafnidiaeth 2000 a gynhwysir yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 y mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â hwy. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau i'r darpariaethau fel y'u drafftiwyd.

Dylid nodi bod y darpariaethau yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 wedi'u cynnwys i ddechrau fel atodlenni ym mhob un o'r Rheoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig uchod. Mabwysiadwyd y dull hwn ar gyfer yr ymgynghoriad er mwyn sicrhau eglurder bwriad pob un o'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig sy'n cael eu sefydlu. Nid yw'n briodol nac yn angenrheidiol i Reoliadau Sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig ddarparu ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol i Ddeddf Trafnidiaeth 2010.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-ddwyrain 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin 2021. Asesodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, ystyriodd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn benodol y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig ag arfer y swyddogaethau y mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021 yn ymwneud â hwy.

Mae copi o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n cyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig y De-orllewin (Cymru) 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau hynny:

https://senedd.cymru/media/asppuikv/sub-ld14134-em-w.pdf.

Eitem 3.5

# SL(5)771 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau"). Maent yn caniatáu i aelwyd mewn ardal Lefel Rhybudd 4 sydd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion (lle mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 18 oed) ffurfio aelwyd estynedig ag aelwyd arall.

Maent hefyd yn cael yr effeithiau dros dro a ganlyn (tan 12 Mawrth 2021):

(i) Maent yn caniatáu i aelwyd mewn ardal Lefel Rhybudd 4 sydd ag 1 neu ragor o blant o dan 1 oed ffurfio aelwyd estynedig ag aelwyd arall;

(ii) Maent yn caniatáu i fangreoedd lle y caiff seremonïau priodasau sifil a ffurfiad partneriaethau sifil ddigwydd agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol at ddibenion cynnal y seremonïau a'r ffurfiadau hynny.

Yn olaf, mae'r Rheoliadau yn diweddaru croesgyfeiriad ac yn dileu amrywiol ddarpariaethau nad oes eu hangen mwyach.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**1 Mawrth 2021**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 210 (Cy. 52)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/1609 (Cy. 335)) ("y prif Reoliadau"). Mae'r diwygiadau—

(a) yn caniatáu i aelwyd mewn ardal Lefel Rhybudd 4 sydd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion (er enghraifft, person sy'n 17 mlwydd oed sy'n byw ar ei ben ei hun) ffurfio aelwyd estynedig ag aelwyd arall;

(b) yn gwneud addasiadau dros dro i'r cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys i ardal

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Lefel Rhybudd 4 o dan Atodlen 4 i'r prif Reoliadau, sydd—

(i) yn caniatáu i aelwyd sydd ag 1 neu ragor o blant o dan 1 oed ffurfio aelwyd estynedig ag aelwyd arall;

(ii) yn caniatáu i fangreoedd lle y caiff seremonïau priodasau sifil a ffurfiad partneriaethau sifil ddigwydd agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol at ddibenion gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni briodas arall yn y fangre;

(c) yn gwneud mân newidiadau a newidiadau canlyniadol, gan gynnwys dirymu darpariaethau sydd wedi eu disbyddu a diweddaru croesgyfeiriad at reoliadau sydd i'w dirymu.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2021 Rhif 210 (Cy. 52)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021

*Gwnaed am 4.51 p.m. ar 26 Chwefror 2021*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru am 8.00 p.m. ar 26 Chwefror 2021*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud yr offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn, ac eithrio paragraffau (8) ac (11)(b) o reoliad 2, i rym ar 27 Chwefror 2021.

(3) Daw paragraffau (8) ac (11)(b) o reoliad 2 i rym ar 1 Mawrth 2021.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer rheoliadau 11A, 11AA ac 11B.

(3) Yn rheoliad 12, yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(4) Yn rheoliad 14(2), hepgorer is-baragraff (aa).

(5) Yn rheoliad 22(4)(a), yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(6) Yn rheoliad 30, yn lle ", 9(2), 11A(2) neu 11AA(2)" rhodder "neu 9(2)".

(7) Yn rheoliad 40—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn is-baragraff (a), hepgorer ", 11A(2), 11AA(2)";

(ii) yn is-baragraff (b), yn lle ", 9(3), 11A(3) neu 11AA(3)" rhodder "neu 9(3)";

(b) ym mharagraff (2)(a), yn lle ", 9(3), 11A(3) neu 11AA(3)" rhodder "neu 9(3)".

(8) Yn rheoliad 57(5)(a), yn lle "reoliad 2 o Reoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007"

---

(**1**) O.S. 2020/1609 (Cy. 335) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1610 (Cy. 336), O.S. 2020/1623 (Cy. 340), O.S. 2020/1645 (Cy. 345), O.S. 2021/20 (Cy. 7), O.S. 2021/46 (Cy. 10), O.S. 2021/57 (Cy. 13), O.S. 2021/66 (Cy. 15), O.S. 2021/95 (Cy. 26), O.S. 2021/103 (Cy. 28) ac O.S. 2021/172 (Cy. 40).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rhodder "reoliad 3 o Reoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020(**1**)".

(9) Ym mharagraff 3 o Atodlen 4—

(a) yn is-baragraffau (1) a (4), ym mhob lle y mae'n digwydd, yn lle "un oedolyn" rhodder "anghenion llesiant";

(b) ar ôl is-baragraff (7) mewnosoder—

"(8) Yn y paragraff hwn, ystyr "aelwyd anghenion llesiant" yw—

(a) aelwyd un oedolyn;

(b) aelwyd ag 1 neu ragor o blant a dim oedolion."

(10) Yn lle'r pennawd i Atodlen 5 rhodder "Ardaloedd ac addasiadau dros dro".

(11) Ym mharagraff 2 o Atodlen 5—

(a) ar ôl paragraff (b) mewnosoder—

"(c) mae paragraff 3(8) o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (b)—

"(c) aelwyd ag—

(i) 2 neu ragor o oedolion,

(ii) 1 neu ragor o blant o dan 1 oed, a

(iii) unrhyw nifer o blant eraill." ;

(b) ar ôl paragraff (c) (fel y'i mewnosodir uchod) mewnosoder—

"(d) mae paragraff 11 o Atodlen 4 i'w ddarllen fel pe bai—

(i) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (1)—

"(1A) A chaiff mangre a gymeradwywyd agor i'r cyhoedd i'r graddau y mae hyn yn ofynnol at ddibenion gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil neu seremoni priodas arall yn y fangre."

(ii) wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (4)—

"(5) Yn y paragraff hwn, ystyr "mangre a gymeradwywyd" yw mangre sydd wedi ei chymeradwyo yn unol â Rheoliadau Priodasau a Phartneriaethau Sifil (Mangreoedd a Gymeradwywyd) 2005(**2**)—

(**1**) O.S. 2020/1211 (Cy. 273).
(**2**) O.S. 2005/3168, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2011/2661, O.S. 2013/2294 ac O.S. 2019/1458.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) fel mangre y caniateir i briodasau gael eu gweinyddu ynddi yn unol ag adran 26(1)(bb) o Ddeddf Priodas 1949(**1**), neu

(b) at ddibenion adran 6(3A)(a) o Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004(**2**).””

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
4.51 p.m. ar 26 Chwefror 2021

(**1**) 1949 p. 76; amnewidiwyd adran 26 gan adran 3 o Ddeddf Priodas (Parau o’r Un Rhyw) 2013 (p. 30).

(**2**) 2004 p. 33; amnewidiwyd adran 6(3A) gan baragraff 2(2) o Atodlen 1 i O.S. 2005/2000.

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021.

**Mark Drakeford**
**Y Prif Weinidog**

26 Chwefror 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (“y prif Reoliadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys a amlinellir yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws. Mae Gweinidogion Cymru o’r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion sydd wedi'u nodi yn y prif Reoliadau, fel y’u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i’r bygythiad presennol a berir gan y coronafeirws.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Er bod y prif Reoliadau, fel y’u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a’r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae’r Llywodraeth o’r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth o’r farn hefyd eu bod yn gymesur.

Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu’r cyfyngiadau a’r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy’r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

Mae’r Rheoliadau diwygio hyn yn lleihau ymyrraeth y cyfyngiadau a’r gofynion o dan y prif Reoliadau â’r hawliau unigol hynny.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf 1984, a rheoliadau a wneir oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf 1984. Caiff rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn eu hamlinellu yn y Memorandwm Esboniadol i'r prif Reoliadau.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan nifer achosion a lledaeniad y coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19.

Roedd y prif Reoliadau a wnaed ar 18 Rhagfyr 2020 yn amlinellu cyfyngiadau a gofynion a fydd yn berthnasol i bedair gwahanol Lefel Rhybudd a chaiff y Lefelau Rhybudd eu hamlinellu yn y fersiwn fwyaf diweddar o'r Cynllun Rheoli Coronafeirws. Mae Cymru wedi bod o dan Lefel Rhybudd 4 ers dechrau'r dydd ar 20 Rhagfyr 2020.

Adolygwyd y prif Reoliadau ar 19 Chwefror 2021, yn unol â rheoliad 2(b) o'r Rheoliadau hynny, a chytunodd Gweinidogion Cymru y dylai Cymru barhau yn Lefel Rhybudd 4. Fodd bynnag, gweneir diwygiadau ac addasiadau nawr i gyfyngiadau a gofynion Lefel Rhybudd 4 y prif Reoliadau mewn perthynas ag aelwydydd estynedig a lleoliadau a gymeradwywyd ar gyfer gweinyddu priodasau, ffurfio partneriaeth sifil neu seremonïau priodas arall.

Mae Lefel Rhybudd 4 wedi'i haddasu dros dro (tan ddiwedd y dydd ar 12 Mawrth 2021, onid yw'n cael ei ymestyn cyn hynny) i ganiatáu i aelwyd ag un neu fwy o blant o dan 1 oed ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd arall. Mae'r gallu hwn i aelwydydd fod yn rhan o aelwyd estynedig o dan y ddarpariaeth hon yn dod i ben ar ben-blwydd cyntaf y plentyn ieuengaf (pryd y bydd y rhieni a'r plant dan sylw yn parhau i allu ymgynnull gydag unrhyw berson arall at ddibenion darparu neu dderbyn gofal neu gymorth, lle mae'n rhesymol angenrheidiol ac nad oes dewis arall rhesymol ymarferol).

Ar hyn o bryd, o dan Lefel Rhybudd 4, gall aelwydydd un oedolyn (a ddiffinnir yn rheoliad 57(1)(u) o'r prif Reoliadau) ffurfio aelwyd estynedig gydag aelwyd arall. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer plant (er enghraifft, rhai 16 neu 17 oed) sy'n byw ar eu pennau eu hunain neu ar aelwyd ag eraill o'r un oedran heb oedolyn. Mae hwn yn fwlch anfwriadol yn y ddarpariaeth ac mae'n golygu nad oes gan unigolion o'r fath yr un mynediad at gymorth ag y byddai oedolion yn ei gael. Felly, mae Lefel Rhybudd 4 yn cael ei diwygio i ganiatáu i aelwydydd o'r fath ffurfio aelwyd estynedig. Bydd newidiadau cyfatebol ar gyfer y lefelau Rhybudd eraill yn cael eu gwneud maes o law.

Daw'r newidiadau hyn i rym ar 27 Chwefror 2021.
O dan Lefel Rhybudd 4 addoldai a Swyddfeydd Cofrestr yn unig all fod yn agored i gynnal seremonïau priodas neu bartneriaeth sifil. Mae hyn yn cael ei addasu dros dro

er mwyn caniatáu i fangreoedd a gymeradwywyd agor i'r cyhoedd i'r graddau bod hyn yn ofynnol at ddibenion gweinyddu priodas, ffurfio partneriaeth sifil, neu seremoni briodas arall yn y fangre. Mae caniatáu i fangreoedd a gymeradwywyd agor fel hyn yn rhoi cysondeb ar gyfer pob math o briodasau a phartneriaethau sifil.

Daw'r newidiadau hyn i rym ar 1 Mawrth 2021, fel y cyhoeddwyd yn flaenorol.

Mae'r cyfle'n cael ei gymryd i wneud mân newidiadau a newidiadau canlyniadol hefyd, gan gynnwys dirymu darpariaethau sydd wedi eu disbyddu (i ddod i rym ar 27 Chwefror 2021) ac i ddiweddaru croesgyfeiriad at reoliadau sydd i'w dirymu (i ddod i rym ar 1 Mawrth 2021).

## 5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi’i gynnal mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol ac asesiadau effaith eraill

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi’i lunio mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn oherwydd bod angen eu rhoi ar waith ar fyrder i fynd i’r afael â’r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

**Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Chwefror 2021

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 4) 2021**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau yma o dan adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 27 Chwefror 2021. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol ac yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn frys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 25 Mawrth 2021 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen i'r pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol adrodd arno. Rwy'n bwriadu trefnu i'r Rheoliadau hyn gael eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Mawrth 2021.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a'r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020** |
| **DYDDIAD** | **26 Chwefror 2021** |
| **GAN** | **Mark Drakeford AS, Y Prif Weinidog** |

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 yn darparu ar gyfer system o lefelau rhybudd yng Nghymru, fel y nodir yng nghynllun diwygiedig Llywodraeth Cymru, *Cynllun Rheoli'r Coronafeirws*.

Mae Cymru yn dal i fod ar Lefel Rhybudd 4, sef y cyfyngiadau mwyaf caeth. Golyga hyn na chaiff pobl yn gyffredinol ffurfio aelwydydd estynedig. Ar hyn o bryd, yr unig eithriad yw oedolion sy'n byw ar ben eu hunain neu'n byw ar ben eu hunain gyda phlant. Maen nhw'n cael ffurfio "swigen gefnogaeth" gydag un aelwyd arall.

Mae hynny wedi bod yn wir o'r dechrau yng Nghymru yn achos aelwydydd sydd angen cefnogaeth ar sail dosturiol neu gymorth gyda gofal plant.

Fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amwysedd, mae'r rheoliadau bellach yn cael eu diwygio fel y bydd aelwydydd sydd ag un neu ragor o blant o dan 1 oed yn cael ffurfio swigen gefnogaeth gydag un aelwyd arall ar gyfer unrhyw bwrpas. Bydd y newid yn dod i rym yfory, 27 Chwefror. Y nod yw sicrhau y gall rhieni newydd gael cymorth gan ffrindiau neu deulu yn ystod y flwyddyn gyntaf hanfodol honno ym mywyd baban. Bydd hyn hefyd o fudd i ddatblygiad y baban.

Yn ogystal, bydd pobl ifanc 16 neu 17 mlwydd oed sy'n byw ar ben eu hunain neu gydag eraill o'r un oed ond heb oedolyn yn yr aelwyd, yn cael ffurfio swigen gefnogaeth gydag un aelwyd arall.

Os bydd rhywun mewn swigen gefnogaeth yn datblygu symptomau neu'n profi'n bositif am y coronafeirws, rhaid i bob aelod o'r swigen hunanynysu.

# SL(5)735 – Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â diogelu dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu ac yn disodli—

(a) Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 (O.S. 2013/2506 (Cy. 245)) sydd yn rheoli'r broses o ddodi gwrtaith nitrogen mewn ardaloedd sy'n agored i niwed gan nitradau, a

(b) Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd (Silwair a Slyri) (Cymru) 2010 (O.S. 2010/1493 (Cy. 136)) sydd yn rheoleiddio gofalu am silwair a slyri a rheoli silwair a slyri, gan ddarparu'r safonau dylunio ac adeiladu sy'n gymwys ar gyfer eu storio.

Roedd y gofynion o dan Reoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013 ond yn gymwys i ddaliadau a oedd wedi eu lleoli mewn Parthau Perygl Nitradau a ddynodwyd, bydd y gofynion hyn bellach yn gymwys i bob daliad yng Nghymru. Bydd y rhan fwyaf o'r mesurau yn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair a Slyri (Cymru) 2010 yn parhau i fod yn gymwys o dan y Rheoliadau hyn, ond mae'r gofynion o ran capasiti ar gyfer storio tail organig a silwair yn y Rheoliadau hynny wedi eu disodli gan y gofynion hynny yn Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau (Cymru) 2013.

Bydd yn ofynnol i unrhyw bersonau sy'n bwriadu adeiladu neu wella eu cyfleuster storio ar gyfer slyri neu silwair hysbysu Corff Adnoddau Naturiol Cymru ("CANC") am hynny 14 o ddiwrnodau cyn cychwyn y gwaith adeiladu.

Mae hyn yn disodli'r gofyniad blaenorol i roi hysbysiad cyn dechrau defnyddio'r cyfleuster storio.

Rhaid i feddianwyr daliadau organig sy'n dymuno elwa ar yr esemptiad i'r cyfnodau gwaharddedig ar gyfer taenu tail organig sydd â chyfran uchel o nitrogen ar gael yn rhwydd (rheoliad 20) gyflwyno ymgymeriad bellach i'r system reoli y cyfeirir ati yn Erthygl 27 o Reoliad y Cyngor (EC) 834/2007 yn hytrach na chofrestru gyda'r Pwyllgor Cynghori ar Safonau Organig (sydd bellach wedi ei ddiddymu).

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 30 yn galluogi CANC i gyflwyno hysbysiad i'w gwneud yn ofynnol i berson wneud gwaith, neu gymryd rhagofalon neu gamau eraill, a bennir yn yr hysbysiad. Y cyfnod i gydymffurfio â hysbysiad o'r fath yw 28 niwrnod, neu unrhyw gyfnod hwy sy'n rhesymol o dan yr amgylchiadau (rheoliad 30(4)).

Gellir cyflwyno apeliadau yn erbyn hysbysiadau rheoliad 30 i Weinidogion Cymru, yn unol â rheoliad 31. Pan gyflwynir apêl o'r fath, mae rheoliad 31(6) yn darparu bod y cyfnod ar gyfer cydymffurfio yn "ddarostyngedig i unrhyw gyfarwyddyd o dan baragraff (5)" (a all, ymysg pethau eraill, estyn y cyfnod ar gyfer cydymffurfio ag unrhyw ofyniad) "fel ei fod yn dod i ben ar y dyddiad pan fydd Gweinidogion Cymru'n penderfynu'n derfynol ar yr apêl neu, os tynnir yr apêl yn ei hôl, ar ddyddiad ei thynnu'n ôl". Pan fydd apelydd yn tynnu apêl yn ôl, byddai'r apelydd yn gallu paratoi i gydymffurfio â'r hysbysiad. Fodd bynnag, pan fydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ynghylch yr apêl ac, o'r herwydd, ei bod yn ofynnol ymgymryd â gwaith, rhagofalon neu gamau eraill, mae'n ymddangos bod yna amgylchiadau, o bosibl, lle mae'n ofynnol i apelyddion wneud gwaith/gymryd camau ar yr un diwrnod pan fydd canlyniad eu hapêl yn hysbys. Gallai hyn olygu y byddai apelyddion naill ai'n methu cydymffurfio mewn pryd â'r penderfyniad, neu mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl bod gwaith paratoi wedi'i wneud yn ddiangen. Mae'r pŵer, felly, i Weinidogion Cymru "estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad yn yr hysbysiad" yn rheoliad 31(5)(c) yn bwysig er mwyn lleihau'r risg y bydd hyn yn digwydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2021 a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod, ac i ofyn am ymateb i'r pwynt gan Lywodraeth Cymru. Nododd y Pwyllgor hefyd fod cynnig i ddirymu'r Rheoliadau wedi'i gyflwyno, ac y trefnwyd i'r ddadl gyfatebol gael ei chynnal ar 3 Mawrth 2021.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021**

Pwynt Craffu ar Rinweddau:

1. **Rheol Sefydlog 21.3(ii)**

   a. **Pŵer Gweinidogion Cymru i benderfynu ar apelau o dan reoliad 31**

      O dan reoliad 31(5)(c) mae gan Weinidogion Cymru, wrth benderfynu ar apêl o dan y rheoliad hwnnw, y pŵer i gyfarwyddo Cyfoeth Naturiol Cymru ("CNC") i estyn y cyfnod i gydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan yr hysbysiad a ddyroddwyd gan CNC. O dan reoliad 30(6) mae dyletswydd ar CNC i ddilyn y cyfarwyddyd hwnnw. Pan fônt yn penderfynu a ddylid arfer eu pŵer i gyfarwyddo o dan reoliad 31(5)(c) ai peidio, bydd Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'w dyletswydd cyfraith gyhoeddus i weithredu'n rhesymol. Mae'r dull hwn, felly, yn darparu amddiffyniad digonol i apelyddion rhag gorfod gwneud gwaith/cymryd camau o fewn amserlen annigonol unwaith y bo canlyniad eu hapêl yn wybyddus. Gallai amgylchiadau godi hefyd pan fyddai cymryd camau ar unwaith yn ymarferol ac yn briodol, er enghraifft er mwyn atal methiant storio trychinebus rhag peryglu bywydau.

# SL(5)744 - Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth sy'n codi o gychwyn, ar 1 Ebrill 2021, y darpariaethau ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Deddf 2021"), sy'n ymwneud â pherfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu (a ddiffinnir yn adran 171 o Ddeddf 2021 fel cyngor ar gyfer sir yng Nghymru neu gyngor ar gyfer bwrdeistref sirol yng Nghymru), ac o ddatgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009 ") mewn perthynas â phrif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn hefyd yn hwyluso diddymu Mesur 2009 yn y dyfodol, y darperir ar ei gyfer gan adran 170 o Ddeddf 2021.

O dan Fesur 2009, cyfeiriwyd at brif gynghorau (y cyfeirir atynt ym Mesur 2009 fel cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol), awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub fel "awdurdodau gwella Cymreig". Defnyddiwyd y term hwnnw wedi hynny mewn peth deddfwriaeth fel ffordd o gyfeirio at yr awdurdodau hyn.

Mae Mesur 2009 yn cael ei ddatgymhwyso i brif gynghorau gan adran 113 ac i awdurdodau Parciau Cenedlaethol gan adran 169 o Ddeddf 2021, a ddygir i rym, fel y noda'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau, ar 1 Ebrill 2021 gan Orchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbedion) 2021.

Mae Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 yn sefydlu cyfundrefn newydd ar gyfer asesu perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau yng Nghymru, gan ddisodli'r drefn a oedd yn gymwys i'r cynghorau hynny o dan Ran 1 o Fesur 2009. Nid yw'r drefn ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 yn gymwys i awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r diwygiadau a gynhwysir yn y rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i Bennod 1 o Ran 6 ac adran 169 o Ddeddf 2021, ac er mwyn rhoi effaith lawn iddynt. Mae angen y diwygiadau hyn hefyd er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer diddymu Mesur 2009 fel y darperir ar ei gyfer yn adran 170 o Ddeddf 2021.

Mae'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn:

a) diwygio deddfiadau sy'n dibynnu ar weithredu Mesur 2009;

b) diwygio deddfiadau i ddileu cyfeiriadau at Ran 1 o Fesur 2009 ac, mewn rhai achosion, eu disodli gan gyfeirio at Ran 6 o Ddeddf 2021;

c) diwygio deddfiadau i ddileu cyfeiriad at "awdurdod gwella Cymreig" ac, mewn rhai achosion, rhoi cyfeiriad at brif gynghorau a/neu awdurdodau tân ac achub a/neu awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn lle'r cyfeiriadau hynny.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol Drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Rheoliadau gerbron y Senedd. Ni all Gweinidogion Cymru wneud y Rheoliadau oni bai bod y Senedd yn cymeradwyo'r Rheoliadau drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn ar gyfer adrodd o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae rheoliad 4(3) yn mewnosod geiriau yn adran 33(3)(b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999 a fydd, ymhlith pethau eraill, yn caniatáu i Weinidogion Cymru roi grantiau i Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â gwariant yr aed iddo neu yr eir iddo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Bennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021. Nid yw Pennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021 mewn grym eto. Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cyfeirio at Bennod 1 o Ran 6 yn unig yn cael ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2021 gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021 ("Gorchymyn 2021"). Er mwyn cadarnhau effaith rheoliad 4(3), gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pryd a sut y dygir Pennod 3 o Ran 6 o Ddeddf 2021 i rym.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn cyfeirio at Orchymyn 2021 sydd i ddwyn i rym Pennod 1 o Ran 6 o Ddeddf 2021 (perfformiad a llywodraethiant prif gynghorau) ac adran 169 o Ddeddf 2021 (gan ddatgymhwyso Mesur 2009 i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol). Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Gorchymyn 2021 wedi'i wneud ar adeg ysgrifennu hwn ac mae'n gwahodd Llywodraeth Cymru i gadarnhau pryd y disgwylir i hyn ddigwydd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Lywodraeth Cymru.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021**

*Pwynt Craffu ar Rinweddau*: Bwriedir i Bennod 3 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 gael ei chychwyn ar yr un pryd â Phennod 1, ar 1 Ebrill 2021. Bwriedir i'r gorchymyn cychwyn, sy'n dod â'r darpariaethau hyn i rym, gael ei wneud ym mis Mawrth ar yr un pryd â'r Rheoliadau hyn (yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd). Mae Llywodraeth Cymru wedi anfon llythyr at Gadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei llunio ar hyn o bryd er mwyn gweithredu Deddf 2021.

# SL(5)751 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

## Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021 ("y Rheoliadau") wedi eu gwneud wrth ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/574 (Cy. 162)) (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl deithwyr sy'n cyrraedd sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin (h.y. yr ardal ffiniau agored sy'n cynnwys y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon) roi eu manylion cyswllt a gwybodaeth teithio, ac ynysu am gyfnod o 10 diwrnod. Mae eithriad o'r gofyniad ynysu i deithwyr sy'n cyrraedd o wledydd a thiriogaethau penodol, a elwir yn "wledydd esempt".

Ar sail y cyngor iechyd cyhoeddus presennol, mae mesurau pellach wedi'u cyflwyno o dan y Rheoliadau sy'n gosod system brofi newydd ar gyfer pobl 5 oed neu'n hŷn sy'n cyrraedd Cymru (yn amodol ar nifer cyfyngedig o eithriadau), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt drefnu a chael profion ar ddiwrnod 2 ac 8 o'u cyfnod ynysu ac i dalu amdanynt. Bydd methu â gwneud hynny yn drosedd, ac yn eu gadael yn agored i ddirwy. Bydd methu â chael y ddau brawf hefyd yn golygu bod y cyfnod hunanynysu yn cael ei ymestyn i 14 diwrnod. Mae'r Rheoliadau hefyd yn gosod gofynion uwch ar deithwyr o ran gwybodaeth.

Cymerir mesurau pellach mewn perthynas â gwledydd a restrir yn Atodlen 3A o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai risg uwch oherwydd cysylltiadau ag amrywolion o'r coronafeirws, er mwyn diogelu ymhellach rhag y risg o drosglwyddo gwahanol amrywolion yn y gymuned. Yn ogystal â'r gwaharddiad presennol ar hediadau uniongyrchol a llongau o'r gwledydd a restrir, ni fydd unrhyw un sydd wedi bod yn un o'r gwledydd hynny yn ystod y 10 diwrnod diwethaf yn cael dod i mewn i Gymru o 4am ar 15 Chwefror. Bydd methu â chydymffurfio â'r cyfyngiad hwn yn drosedd, a bydd yr unigolyn dan sylw yn agored i ddirwy.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn diwygio Atodlen 2 (personau esempt) i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, sy'n eithrio rhai categorïau o weithwyr rhag gorfod ynysu, neu mewn rhai amgylchiadau, darparu gwybodaeth teithiwr. Mae Rhan 1 o Atodlen 2 yn cael ei diwygio i fewnosod darpariaeth sy'n eithrio'r rhai sy'n teithio drwy'r Deyrnas Unedig o'r gofyniad i ynysu ac i ddarparu gwybodaeth teithiwr.

Mae Rhan 6 o'r Rheoliadau yn creu eithriadau newydd o'r gofynion i ynysu yn unol â rheoliadau 7 ac 8 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae'r Rheoliadau'n mewnosod

Atodlen 5 newydd i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol sy'n ymwneud ag eithriadau sectoraidd, ac maent yn diwygio rheoliad 10(4) o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (gofynion ynysu: esemptiadau) mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, i ganiatáu i bobl adael eu mangre ynysu at ddibenion cael prawf am y coronafeirws. Yn ail, i ddarparu bod y categorïau o weithwyr a restrir yn yr Atodlen 5 newydd yn cael gadael eu mangre ynysu er mwyn cyflawni eu gwaith lle na allant wneud hynny o'u cartref.

Mae rheoliad 20 yn diwygio Atodlen 4 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol (digwyddiadau chwaraeon penodedig), gan ddisodli'r rhestr bresennol o ddigwyddiadau chwaraeon gyda rhestr wedi'i diweddaru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn gwneud amryw newidiadau canlyniadol a darpariaethau trosiannol.

Daeth y mesurau rheoli ychwanegol ar gyfer gofynion ynysu i rym ar gyfer teithwyr sy'n cyrraedd Cymru am 4am ar 15 Chwefror. Fodd bynnag, nid yw'r diwygiadau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn effeithio ar y gofynion o dan y Rheoliadau hynny ar gyfer pobl sy'n cyrraedd Cymru cyn i'r diwygiadau hyn ddod i rym.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 22(2)(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Mae'r Rheoliadau'n cynnwys amryw gyfeiriadau anghywir a hepgoriadau fel a ganlyn:

- Mae'r cyfeiriad at 'reoliadau 2 i 12' yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw rheoliadau 2 i 20.
- Mae rheoliad 11(b) o'r Rheoliadau yn hepgor y rhif adran perthnasol yn Neddf Anudon 1919, sef adran 5.
- Mae'r cyfeiriad at 'baragraff 24 o Atodlen' yn rheoliad 17(3) o'r Rheoliadau yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw paragraff 14 o Atodlen 5.
- Mae'r cyfeiriad at 'baragraff 31(2)(a) o Atodlen 5' yn rheoliad 19(2) o'r Rheoliadau yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw 21(2)(a) o Atodlen 5.

- Mae'r cyfeiriad at 'baragraff 31(2)(a) o Atodlen 5' yn rheoliad 19(3) o'r Rheoliadau yn anghywir.  Y cyfeiriad cywir yw 21(2)(b) o Atodlen 5.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd saith pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 13 Chwefror 2021.

Yn benodol, rydym yn nodi'r hyn y mae'r llythyr yn ei ddweud ynghylch yr angen i'r Rheoliadau fynd i'r afael ar frys â'r risgiau diweddaraf sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol:

> *"Mae'r mesurau ychwanegol hyn yn cynnwys system brofi newydd ar gyfer pobl 5 oed neu hŷn sy'n cyrraedd Cymru (yn amodol ar nifer cyfyngedig o eithriadau), sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt drefnu a chael profion ar ddiwrnod 2 ac 8 eu cyfnod o hunanynysu. Bydd methu â gwneud hynny yn drosedd, ac yn eu gadael yn agored i ddirwy.  Bydd methu â chael y ddau brawf hefyd yn golygu bod y cyfnod hunanynysu yn cael ei ymestyn i 14 diwrnod.*
>
> *At hynny, mae mesurau pellach yn cael eu cymryd mewn perthynas â gwledydd sydd eisoes wedi'u nodi fel rhai risg uwch oherwydd cysylltiadau ag amrywiolion o'r coronafeirws ("gwledydd rhestr goch") er mwyn diogelu ymhellach rhag y risg o drosglwyddo gwahanol amrywiolion yn y gymuned.*
>
> *Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod a dod â hwy i rym cyn iddynt gael eu gosod, yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd; a pharhau â'r ymagwedd pedair gwlad tuag at deithio rhyngwladol, o ystyried newid yn y dystiolaeth ar risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Rheoliadau'n gosod gofynion newydd cymhleth ar gyfer profi, ynysu, adrodd, ac mewn perthynas ag amryw esemptiadau iddynt.  Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion newydd arwain at gosbau troseddol.  Gan gadw'r lefel o gymhlethdod mewn golwg, ynghyd â'r gosb ddifrifol am dorri'r rheolau, mae'n bwysig bod y dinesydd yn gallu cyrchu a deall yn llawn y gyfraith berthnasol sy'n cael ei chyflwyno gan y Rheoliadau.

Er y derbynnir bod deddfwriaeth o'r natur hon o reidrwydd yn gymhleth ar adegau, nodwn y lefel uchel o gymhlethdod a gyflwynwyd gan reoliadau newydd 6B i 6J (fel y'u

mewnosodwyd gan reoliad 3 o'r Rheoliadau), a 6D yn enwedig. Nid yw'n ymddangos bod y Nodyn Esboniadol na'r Memorandwm Esboniadol yn rhoi digon o ganllawiau i roi dealltwriaeth lawn o'r rhwymedigaethau cyfreithiol manwl y mae'r darpariaethau hyn yn eu gosod ar y dinesydd ac, o'r herwydd, mae canllawiau ychwanegol yn ddymunol. Nodwn yn benodol y byddai natur y darpariaethau hyn yn addas ar gyfer esboniad drwy siart lif.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Nodyn Esboniadol i'r Rheoliadau yn cynnwys cyfeiriadau at reoliadau sy'n diwygio darpariaethau penodol yn y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Er bod yr effaith wedi'i disgrifio'n gywir ym mhob achos, mae rhai o'r rheoliadau diwygio y cyfeirir atynt wedi eu rhifo'n anghywir. Dyma'r rhifau cywir:

- Mae'r cyfeiriad at 'Reoliad 14' yn seithfed paragraff y Nodyn Esboniadol yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw rheoliad 13.
- Mae'r cyfeiriad at 'Reoliad 15' yn wythfed paragraff y Nodyn Esboniadol yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw rheoliad 14.
- Mae'r cyfeiriad at 'Reoliad 4' yn wythfed paragraff y Nodyn Esboniadol yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw rheoliad 15.
- Mae'r cyfeiriad at 'Reoliad 9' yn negfed paragraff y Nodyn Esboniadol yn anghywir. Y cyfeiriad cywir yw rheoliad 20.

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn gyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith fod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**5. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**6. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ffurfiol ei wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."*

**7. Rheol Sefydlog 21.3 (i) – ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu awdurdod lleol neu gyhoeddus er mwyn cydnabod unrhyw drwydded, cydsyniad neu unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath**

Nodwn fod Rheol Sefydlog 21.3(i) yn gymwys i reoliad 6J newydd, fel y'i mewnosodwyd gan reoliad 3 o'r Rheoliadau, gan ei fod yn darparu ar gyfer gorfodi, cyhoeddi ac adennill taliadau gan Weinidogion Cymru ar gyfer profion diwrnod 2 a diwrnod 8.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwynt technegol yn ogystal â phwyntiau rhinweddau 2 a 3.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

***Pwynt Craffu Technegol 1:***

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu technegol ac yn cadarnhau y bydd cywiriadau yn cael eu gwneud ar y cyfle cyntaf posibl.

***Pwynt Craffu ar Rinweddau 2:***

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gall manylion ychwanegol yn y Nodyn Esboniadol a'r Memorandwm Esboniadol fod o gymorth. Nodwn, yn benodol, awgrym y Pwyllgor y byddai natur y darpariaethau hyn yn addas ar gyfer esboniad drwy siart lif. Ystyriwyd hyn ond roedd y safonau hygyrchedd ar gyfer cyflwyniad gwefannau yn argymell peidio â defnyddio'r dull hwn. Mae'r canllawiau wedi cael eu hailstrwythuro i greu tudalen esbonio newydd ac rydym yn gobeithio bod Canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr ag ymarfer cyfathrebu proffil uchel, yn golygu bod teithwyr yn cael gwybod pa ofynion profi y mae rhaid eu dilyn.

***Pwynt Craffu ar Rinweddau 3:***

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y pwynt craffu ar rinweddau a godwyd.

# SL(5)754 - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau") fel a ganlyn -

(i) Caniateir i berchenogion ysgolion ganiatáu i ddisgyblion ym Mlwyddyn 2 ac is ddychwelyd i'r ysgol;

(ii) Caniateir i berchenogion sefydliadau addysg bellach ganiatáu i fyfyrwyr ddychwelyd i'r sefydliad os ydynt yn astudio amaethyddiaeth, adeiladu, arlwyo, peirianneg neu letygarwch a bod angen iddynt fynd i'r sefydliad i gwblhau eu cyrsiau; ac

(iii) Yn ystod y cyfnod rhwng 20 Chwefror 2021 a 12 Mawrth 2021 (ond nid fel arall) gall hyd at 4 o bobl o 2 aelwyd wahanol ymarfer corff gyda'i gilydd yn yr awyr agored.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 diwrnod (ac eithrio diwrnodau pan fo'r Senedd wedi'i diddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Nodyn Esboniadol yn nodi y cyflawnir effaith benodol drwy ddiwygio Rheoliad 4(8) o'r prif Reoliadau. Caiff yr effaith ei disgrifio'n gywir ond mae'r cyfeiriad at Reoliad 4(8) yn anghywir. Cyflawnir yr effaith a ddisgrifir, mewn gwirionedd, drwy ychwanegu Rheoliad 4(6A) newydd at y prif Reoliadau.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*Er bod y prif Reoliadau, fel y'u diwygir gan y Rheoliadau hyn, yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth o'r farn bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaenu clefydau heintus a/neu fod hawl i wneud yr ymyriad ar y sail ei fod yn ceisio cyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.*"
>
> *Mae Erthygl 5 (yr hawl i ryddid), Erthygl 8 (yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol), Erthygl 9 (rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd), Erthygl 11 (rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu) ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) yn cael eu cyffwrdd gan y prif Reoliadau.*
>
> *Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os oes angen gwneud hynny mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau'r holl gyfyngiadau a gofynion o'r fath ar y sail mai eu bwriad yw cyflawni nod cyfreithlon, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Hefyd, mae angen cydbwyso unrhyw ymyrraeth â'r hawliau hyn â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (yr hawl i fywyd). Mae addasu'r cyfyngiadau a'r gofynion o dan y prif Reoliadau drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad y coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws yn erbyn hawliau unigolion a busnesau, mewn modd sy'n parhau'n gymesur â'r angen i leihau cyfradd trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> "*O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.*"

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb oddi wrth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phwynt 1.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2021**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am yr hysbysiad o'r mater.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

26 Chwefror 2021

Annwyl Mick

**RHOI DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 AR WAITH**

Gan fod y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ("Deddf 2021") wedi cael Cydsyniad Brenhinol bellach, roeddwn yn awyddus i achub ar y cyfle i roi trosolwg i'r Pwyllgor o'r camau rwy'n bwriadu eu cymryd er mwyn helpu i roi Deddf 2021 ar waith.

Er mwyn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol o ran pa newidiadau deddfwriaethol sy'n cael eu rhoi ar waith pryd, ac er mwyn sicrhau y gall pawb wneud y paratoadau gofynnol, bydd angen gwneud nifer o offerynnau statudol cyn diwedd tymor y Senedd hon.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaeth Arbed) 2021 ("y Gorchymyn Cychwyn cyntaf")**

Bydd y Gorchymyn Cychwyn cyntaf, yr wyf yn bwriadu ei wneud ddechrau mis Mawrth, yn cychwyn amrywiaeth eang o ddarpariaethau ar gyfres o ddyddiadau rhwng mis Mawrth 2021 a mis Mai 2022.

Daw'r holl bwerau gwneud Rheoliadau yn Rhannau 2, 3 a 4 o Ddeddf 2021 nad ydynt mewn grym eto i rym ar y diwrnod ar ôl gwneud y Gorchymyn er mwyn hwyluso'r broses o ddrafftio'r is-ddeddfwriaeth angenrheidiol, ymgynghori arni a'i gwneud.

Daw adran 163 o Ddeddf 2021, sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi prif weithredwr gan y Comisiwn Ffiniau, ac adran 164 o'r Ddeddf, sy'n diwygio Deddf 2013 mewn perthynas â chyfarwyddiadau a wneir o dan adran 48 o'r Ddeddf honno, i rym ar 1 Ebrill 2021.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre: 0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Pŵer cymhwysedd cyffredinol

Daw'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i rym ar gyfer prif gynghorau ar 1 Tachwedd 2021. Fel y rhoddais wybod i'r Pwyllgor yn ystod Cam 1, drafftiwyd Rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol cymwys baratoi a chymeradwyo achos busnes cyn arfer y pŵer cyffredinol i wneud rhywbeth at ddiben masnachol.

Rwy'n bwriadu cyhoeddi fersiwn drafft o ***Reoliadau Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (Diben Masnachol) (Amodau) (Cymru) 2021*** er mwyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol arnynt yn ystod mis Mawrth.

Gan ddibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw, rwy'n rhagweld y caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud yn ystod mis Hydref, ar yr amod y bydd y Rheoliadau drafft wedi cael eu gosod ger bron y Senedd ac wedi'u cymeradwyo. Rwy'n bwriadu ehangu'r Rheoliadau hyn i gynghorau cymuned cyn cychwyn y pŵer cyffredinol ar gyfer y cynghorau hyn.

Daw'r pŵer cyffredinol i rym ar gyfer cynghorau cymuned ar 5 Mai 2022. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni baratoi'r is-ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol gofynnol i gefnogi'r broses o roi'r darpariaethau ar waith.

Y ddyletswydd ar gynghorau cymuned i baratoi adroddiad blynyddol

Daw adran 52 o Ddeddf 2021 i rym ar 1 Ebrill 2022. Mae'r ddarpariaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau tref a chymuned baratoi a chyhoeddi adroddiad am flaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cyngor. Bydd yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi eu hadroddiad cyntaf, a fydd yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2021-22, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol honno.

Rhan 3 a 4 o Ddeddf 2021

O ystyried yr amserlen graffu ddiwygiedig ar gyfer Deddf 2021, rwyf wedi gohirio cychwyn nifer o'r darpariaethau yn y Ddeddf i 5 Mai 2022 er mwyn cyd-fynd â dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin nesaf.

Yn fy marn i, mae'r dull hwn yn fwy priodol a bydd yn tarfu llai ar awdurdodau lleol, yn enwedig o ystyried y pandemig parhaus, yn hytrach na chyflwyno nifer o ofynion newydd ar y sector yn ystod y flwyddyn cyn etholiad cyffredin. Ceir rhestr lawn o'r darpariaethau a ddaw i rym ar y dyddiad hwn yn Atodiad A.

*Canllawiau*
Er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth a'r cymorth angenrheidiol ar gael i awdurdodau lleol wrth iddynt roi'r darpariaethau hyn ar waith, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion baratoi canllawiau fel sail i'r darpariaethau sy'n nodi'n glir y diwylliant a'r dull gweithredu a ddisgwylir wrth roi'r ddeddfwriaeth ar waith.

Yn ogystal â datblygu canllawiau newydd, caiff canllawiau sy'n bodoli eisoes eu hailystyried a'u diweddaru. Yn hytrach na chreu nifer o ganllawiau ar wahân y mae'n rhaid eu darllen gyda'i gilydd, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddatblygu cyfres gyfunol o ganllawiau, y cyfeirir ati ar hyn o bryd fel 'y Llawlyfr Democratiaeth', sy'n seiliedig ar werthoedd ac egwyddorion cydraddoldeb, tryloywder, atebolrwydd, parch a phartneriaeth rhwng etholwyr a'r rheini sydd wedi'u hethol.

*Democratiaeth Ddigidol*
Ochr yn ochr â'r broses o ddatblygu canllawiau, mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y ffordd orau o fanteisio ar botensial technoleg ddigidol fel rhan o fywydau beunyddiol dinasyddion yng Nghymru.

Rwyf wedi comisiynu'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i gynnal prosiect Darganfod er mwyn ystyried nodweddion dyfodol democratiaeth ddigidol yn 2022 a thu hwnt i gynghorau ac i ddinasyddion, a hynny yn sgil pob agwedd ar Ddeddf 2021, ac i nodi'r sefyllfa sydd ohoni a sut y gallwn ddatblygu o'r sefyllfa honno i allu cyflawni gofynion Deddf 2021 yn llawn erbyn 2022.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 2 a Darpariaethau Arbed) 2021 ("yr ail Orchymyn Cychwyn")**

Mae'r ail Orchymyn Cychwyn yn darparu ar gyfer dod â Rhan 6 o Ddeddf 2021 i rym, sy'n darparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer cyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd i brif gynghorau ac yn rhoi pwerau cefnogi ac ymyrryd newydd i Weinidogion Cymru; darpariaethau ailstrwythuro o fewn Rhan 7 o Ddeddf 2021; y darpariaethau rhannu gwybodaeth yn adran 159 a datgymhwyso Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ("Mesur 2009") i brif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Mae'r ail Orchymyn Cychwyn hefyd yn cynnwys darpariaethau arbed sy'n ymwneud â datgymhwyso Mesur 2009 i brif gynghorau ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod arfer rhai swyddogaethau penodol a phethau eraill a wneir o dan Fesur 2009 yn parhau i gael effaith ar ôl cychwyn darpariaethau Deddf 2021 sy'n datgymhwyso Mesur 2009 i'r awdurdodau hyn.

Yn ogystal, o ganlyniad i gychwyn y gyfundrefn perfformiad newydd yn Rhan 6, a datgymhwyso Mesur 2009 yn dilyn hynny, mae angen nifer o ddiwygiadau canlyniadol i ddeddfiadau eraill.

Ar 9 Chwefror, cyflwynais fersiwn ddrafft o ***Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) 2021*** er mwyn darparu ar gyfer y diwygiadau hyn. Ar yr amod y caiff y Rheoliadau eu cymeradwyo gan y Senedd, byddaf yn gwneud y Rheoliadau hyn a'r ail Orchymyn Cychwyn yn fuan wedi hynny.

Rwy'n bwriadu dod â'r rhan fwyaf o'r darpariaethau hyn i rym ar 1 Ebrill 2021. Bydd hyn yn sicrhau y bydd y gyfundrefn perfformiad newydd yn gymwys i brif gynghorau o flwyddyn ariannol 2021-2022 ac mewn perthynas â'r flwyddyn honno. Bydd y dull hwn yn rhoi'r flwyddyn ariannol gyfan i brif gynghorau gynnal eu hunanasesiad cyntaf, gan gyflwyno adroddiad yn gynnar yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23. Bydd cynghorau yn parhau i asesu eu perfformiad yn unol â Mesur 2009 mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol gyfredol, gan gyhoeddi adroddiadau erbyn diwedd mis Hydref 2021.

Bydd y darpariaethau sy'n ymwneud ag Asesiadau Perfformiad Paneli yn cychwyn yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf ym mis Mai 2022. Bydd hyn yn golygu y gellir cyflwyno'r gyfundrefn newydd mewn ffordd fwy graddol a phwyllog, ac y gellir cynnal o leiaf un cylch o hunanasesiadau cyn ei gwneud hi'n ofynnol cwblhau asesiad panel.

*Canllawiau*
Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau yn ystod mis Mawrth i gefnogi'r broses o roi'r gyfundrefn perfformiad a llywodraethu newydd ar waith i brif gynghorau. Mae fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â llywodraeth leol ers 24 mis, drwy grŵp ffocws bach o swyddogion llywodraeth leol sy'n chwarae rhan yn nhrefniadau perfformiad a llywodraethu eu hawdurdodau, i gyd-gynhyrchu'r canllawiau hyn.

Daeth yr ymgynghoriad ar y canllawiau drafft i ben yn gynharach yn ystod y mis, a chaiff yr ymatebion eu hystyried yn ofalus wrth lunio fersiwn derfynol y canllawiau.

**Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Arbed) 2021 ("y trydydd Gorchymyn Cychwyn")**

Bydd y trydydd Gorchymyn Cychwyn yn dod ag adran 47 o Ddeddf 2021 i rym, sy'n darparu ar gyfer mynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol, gan gynnwys mynychu o bell, ac Atodlen 4 i Ddeddf 2021 (fel y'i cyflwynwyd gan adran 49) i'r graddau nad yw'r darpariaethau hyn eisoes mewn grym.

Mae Rhan 1 o Atodlen 4 yn diwygio deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, Rhan 5A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") ac Atodlen 12 iddi a Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 yn bennaf, er mwyn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau awdurdodau lleol, gan gynnwys ei gwneud hi'n ofynnol cyhoeddi rhai dogfennau cyfarfod penodol ar ffurf electronig. Mae Rhan 2 o Atodlen 4 yn gwneud rhai diwygiadau canlyniadol penodol o ganlyniad i adran 47.

Cafodd y darpariaethau hyn eu mewnosod yn ystod Cam 3 at ddiben gwneud trefniadau parhaol mewn perthynas â rhai darpariaethau penodol yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau 2020"). Rhoddodd Rheoliadau 2020 hyblygrwydd er mwyn galluogi awdurdodau lleol i weithredu'n ddiogel, yn effeithiol ac yn gyfreithlon, ond gan barhau i fod yn agored ac yn atebol i'r cyhoedd, er enghraifft, drwy alluogi cyfarfodydd i gael eu cynnal ar sail mynychu'n llawn neu'n rhannol o bell a thrwy wneud darpariaeth ynghylch cyhoeddi rhai dogfennau penodol ar ffurf electronig.

Dim ond mewn perthynas â chyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021 y mae Rheoliadau 2020 yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, gan mai dim ond mewn perthynas â chyfarfodydd hyd at 7 Mai 2021 y mae adran 78 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth ar eu cyfer.

Gan mai dim ond i gyfarfodydd a gynhelir cyn 1 Mai 2021 y mae Rheoliadau 2020 yn gymwys, rwy'n bwriadu dod ag adrannau 47 a 49 o Ddeddf 2021 ac Atodlen 4 iddi i rym ar 1 Mai (i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym).

Fel y nodwyd gennyf mewn llythyrau blaenorol, mae'r pandemig wedi tynnu sylw at y ffaith bod darpariaethau cyfredol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol wedi dyddio, yn enwedig y darpariaethau gweithdrefnol a thechnegol sy'n llywodraethu'r ffordd y caiff cyfarfodydd eu cofnodi, sut y caiff gwysion eu hanfon at aelodau, a sut y caiff dogfennau gan gynnwys hysbysiadau, agendâu a chofnodion eu cyhoeddi.

Os na ddaw darpariaethau uchod Deddf 2021 i rym ar 1 Mai, bydd awdurdodau yn dychwelyd at ddarpariaethau Deddf 1972 (a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig) fel yr oeddent cyn iddynt gael eu haddasu gan Reoliadau 2020, a fyddai'n gam sylweddol yn ôl. Byddai hyn yn arbennig o heriol pe byddai angen i awdurdodau lleol barhau i weithredu mewn ffordd sy'n ddiogel o ran COVID-19 ar yr adeg honno, gan na fyddent yn gallu cyfarfod yn gyfreithiol ac yn ddiogel heb fod y darpariaethau diwygiedig mewn grym.

Mae dod â'r darpariaethau hyn i rym ar y dyddiad hwn yn dibynnu ar gymeradwyaeth y Senedd i ***Reoliadau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol a Darpariaethau Amrywiol) 2021*** ("y Rheoliadau Canlyniadol").

Mae'r Rheoliadau Canlyniadol, yr wyf wedi cyflwyno fersiwn ddrafft ohonynt ger bron y Senedd, yn gwneud diwygiadau i ddeddfiadau eraill sy'n ganlyniadol ar y diwygiadau a wnaed i Ddeddf 1972 gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021, gan weithredu darpariaethau yn adran 47 mewn perthynas â chynnwys hysbysiadau (neu wysion yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol) ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys cyfarfodydd o bell, ac yn gwneud darpariaeth drosiannol er mwyn sicrhau y gellir symud yn ddidrafferth o Reoliadau 2020 i ddarpariaethau Deddf 2021.

Mae'r Rheoliadau Canlyniadol hefyd yn darparu bod yn rhaid i ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi ar ffurf electronig, fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2020, fod yn hygyrch am chwe blynedd o ddyddiad y cyfarfod y maent yn cyfeirio ato. Ar hyn o bryd, nid yw Rheoliadau 2020 yn dynodi am ba hyd y mae angen i ddogfennau a gaiff eu cyhoeddi ar ffurf electronig o dan y Rheoliadau hynny barhau'n hygyrch, sy'n golygu mewn gwirionedd ei bod yn ofynnol iddynt fod yn hygyrch am gyfnod amhenodol.

<u>Diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001</u>

Nid yw Rhan 5A o Ddeddf 1972 nac Atodlen 12 iddi yn gymwys i weithrediaethau prif gynghorau, a gwneir darpariaeth yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001"), er bod yr un egwyddorion yn gymwys ar draws cyrff deddfwriaeth.

Nid oedd digon o amser i gyflwyno diwygiadau'r Llywodraeth yn ystod Cam 3 er mwyn diwygio Rheoliadau 2001 i gysoni'r trefniadau ar gyfer gweithrediaethau prif gynghorau â'r darpariaethau diwygiedig yn Rhan 5A o Ddeddf 1972 mewn perthynas â phrif gynghorau a chyrff eraill llywodraeth leol.

Mae angen darpariaeth bellach i ddiwygio Rheoliadau 2001 ac rwy'n bwriadu gwneud ***Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2021*** yn ystod mis Mawrth.

Os na wneir y diwygiadau i Reoliadau 2001 i ddod i rym ar yr un pryd ag y daw Atodlen 4 i rym, bydd gweithrediaethau prif gynghorau yn dychwelyd at ddarpariaethau Rheoliadau 2001 ar 1 Mai 2021, a thrwy hynny wynebu'r un heriau a nodwyd gennyf uchod mewn perthynas â'r prif gynghorau.

Yn ogystal, gan ei bod yn ofynnol i brif gynghorau wneud trefniadau ar gyfer mynychu o bell o dan adran 47 mewn perthynas â'u gweithrediaeth, mae angen diwygio Rheoliadau 2001 er mwyn sicrhau eu bod yn ategu'r darpariaethau yn adran 47, yn yr un ffordd ag y mae Atodlen 4 yn diwygio Deddf 1972 mewn perthynas â chyfarfodydd y prif gyngor.

Yn olaf, pe na châi Rheoliadau 2001 eu diwygio fel y cynigir, byddai cyfarfodydd y weithrediaeth yn destun gofynion sy'n wahanol i'r gofynion ar gyfer cyfarfodydd y prif gyngor, a fyddai'n arwain at ddryswch ac anghysondeb.

Wrth ddatblygu'r Rheoliadau Diwygiadau Canlyniadol a'r diwygiadau i Reoliadau 2001, rwyf wedi ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

*Canllawiau*
Rwy'n bwriadu cyhoeddi canllawiau er mwyn helpu awdurdodau lleol i roi'r darpariaethau hyn ar waith. Er y caiff y canllawiau hyn eu cyhoeddi cyn canllawiau Democratiaeth 2022 y cyfeiriais atynt yn gynharach yn y llythyr hwn, cânt eu drafftio ar sail yr un gwerthoedd ac egwyddorion sylfaenol, sef cydraddoldeb, tryloywder, atebolrwydd a pharch.

Bydd y canllawiau hyn hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried materion fel cydraddoldeb, yn benodol, cydymffurfio â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a'r disgwyliad y bydd awdurdodau yn gwneud addasiadau rhesymol wrth benderfynu pa drefniadau sy'n briodol ar gyfer cynnal cyfarfodydd. Er enghraifft, byddwn yn disgwyl i hyn gynnwys ystyried materion fel darparu cyfleusterau isdeitlo ac ati.

**Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Rwyf hefyd wedi cyflwyno'r offerynnau statudol drafft sydd eu hangen er mwyn galluogi'r cyd-bwyllgorau corfforedig cyntaf i gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2021. Dyma haen gyntaf yr offerynnau statudol mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

Mae'r haen hon yn cynnwys pedair cyfres o Reoliadau sefydlu, un i bob rhanbarth, sef:

- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru 2021***
- ***Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru 2021***

Yn ogystal â darparu ar gyfer sefydlu pob Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y trefniadau cyfansoddiadol craidd a'r manylion allweddol, fel aelodaeth, daearyddiaeth a'r swyddogaethau a gaiff eu harfer gan bob Cyd-bwyllgor Corfforedig: cynllunio datblygiad strategol; cynllunio trafnidiaeth ranbarthol; a'r pŵer i wneud pethau i hybu neu wella llesiant economaidd eu hardaloedd.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â'r Rheoliadau sefydlu drafft a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu a sesiynau briffio technegol cyn y cyfnod ymgynghori ac yn ystod y cyfnod hwnnw. Cafwyd 52 o ymatebion i'r broses ymgynghori ac ni chafwyd unrhyw geisiadau am newidiadau sylfaenol i'r Rheoliadau.

Er bod y Rheoliadau sefydlu drafft yn darparu ar gyfer yr addasiadau angenrheidiol i Ddeddf Trafnidiaeth 2000, er mwyn galluogi'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig i arfer eu swyddogaethau trafnidiaeth arfaethedig, yn unol â'r egwyddor o wneud darpariaeth unwaith, darperir ar gyfer yr addasiadau hyn bellach yn ***Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Swyddogaethau Trafnidiaeth) (Cymru) 2021***

Mae'r Rheoliadau yn darparu y daw'r swyddogaethau i'w harfer i rym ar 28 Chwefror 2022 ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig De-ddwyrain Cymru neu 30 Mehefin 2022 ar gyfer y tri Chyd-bwyllgor Corfforedig arall. Mae'r cyfnod oedi hwn er mwyn rhoi cyfle i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ymgymryd â gwaith paratoadol cyn cyflawni'r swyddogaethau hynny.

Cyflwynwyd nifer o Offerynnau Statudol hefyd ochr yn ochr â'r Rheoliadau Sefydlu er mwyn sicrhau, o'r adeg y cânt eu sefydlu, y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig:

- yn dod o dan gylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (***Rheoliadau Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019 (Diwygio Atodlen 3) 2021***)
- yn dod o fewn cylch gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru (***Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021***)
- yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Gwasanaeth Cyhoeddus (***Gorchymyn Deddf Cydraddoldeb 2010 (Awdurdodau Cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus) (Cymru) 2021***)

- yn gallu bod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg (***Rheoliadau Mesur Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Atodlen 6 i Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011) 2021***)

Bydd hyn yn sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ofynion goruchwylio, rheoli ac ymddygiad priodol o'r cychwyn a'u bod yn cyflawni yn erbyn yr ymrwymiadau a wnaed gennyf wrth basio Deddf 2021 mewn perthynas â materion fel Safonau'r Gymraeg.

O fewn yr haen gyntaf, mae ***Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Cymru) 2021*** yn rhoi nifer o ddarpariaethau craidd ar waith mewn perthynas â threfniadau gweinyddu a llywodraethu cyffredinol y Cyd-bwyllgorau Corfforedig, gan gynnwys darpariaeth i wneud y canlynol:

- cyn cymhwyso'r fframwaith moesegol i lywodraeth leol yn ehangach, sicrhau bod aelodau, cyfranogwyr cyfetholedig o gynghorau cyfansoddol a chyflogeion Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i safonau ymddygiad priodol
- sicrhau bod arferion cyfrifyddu a rheoli ariannol priodol ar waith mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig
- galluogi trefniadau i gael eu gwneud ar gyfer darparu gwasanaethau rhwng Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phrif gynghorau
- sicrhau y caiff aelodau Cyd-bwyllgor Corfforedig eu trin yn gyfartal gan y Cyd-bwyllgor hwnnw

Unwaith y bydd Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 wedi'i wneud a bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i ddarpariaethau perthnasol Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, rwy'n bwriadu gwneud darpariaeth i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau cyfrifyddu a rheoli ariannol priodol.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd ***Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2021***, sy'n ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd, yn cael eu cymhwyso at Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ar gyfer Cyd-bwyllgorau Corfforedig. Rwy'n bwriadu gwneud y Rheoliadau hyn y diwrnod ar ôl i Orchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Diwygio) (Cyrff Llywodraeth Leol yng Nghymru) 2021 gael ei wneud, ond dylid nodi y daw i rym yn ystod cyfnod y toriad.

Bwriedir gwneud is-ddeddfwriaeth bellach yn ystod y tymor nesaf er mwyn cwblhau'r broses o gymhwyso'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer llywodraeth leol y bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gweithredu o'i fewn – er enghraifft, dim ond ar ôl eu sefydlu y gellir eu gwneud yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddaf yn parhau i weithio gyda llywodraeth leol i gyd-ddatblygu trefniadau priodol a chymesur ar gyfer rhoi'r fframwaith hwnnw ar waith.

**Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021**

Yn olaf, rwyf hefyd wedi cyflwyno Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) (Diwygio) 2021 sy'n diwygio Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gynyddu hawl absenoldeb mabwysiadu i aelodau awdurdod lleol o 2 wythnos i 26 wythnos. Bydd y newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn golygu y bydd yr un cyfnodau absenoldeb mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu ar gael i aelodau prif gynghorau ac yn darparu ar gyfer trefniadau tebyg mewn perthynas ag absenoldeb mabwysiadu i'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer absenoldeb mamolaeth.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau mewn perthynas â'r offerynnau statudol hyn.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

**Atodiad A: Darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n dod i rym ar 5 Mai 2022.**

Bydd yr awdurdodau lleol perthnasol yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau a restrir isod o etholiadau llywodraeth leol 2022.

- Dyletswydd cyfranogiad y cyhoedd gan gynnwys dyletswydd i baratoi strategaeth cyfranogiad y cyhoedd (adrannau 39-41)
- Dyletswydd i roi cynllun deisebau ar waith (adran 42)
- Dyletswydd i gyhoeddi cyfeiriadau swyddogol (adran 43)
- Dyletswydd i ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru o dan Bennod 2 o Ran 3 (adran 44)
- Dyletswydd i gyhoeddi cyfansoddiad a chanllaw i'r cyfansoddiad (adran 45)
- Dyletswydd i wneud trefniadau i alluogi cyfarfodydd i gael eu darlledu'n electronig (adran 46)
- Penodi prif weithredwr (adran 54)
- Dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (adran 62)
- Dyletswydd pwyllgor safonau i lunio adroddiad blynyddol (adran 63)
- Dyletswydd ar gynghorau cymuned i baratoi cynllun hyfforddiant (adran 67)
- Asesiadau perfformiad paneli (adran 92 a 93)

Daw'r darpariaethau canlynol hefyd i rym ar 5 Mai 2022:

- Cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynghorau cymuned: yn darparu bod yn rhaid rhoi cyfle rhesymol i aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod cyngor cymuned gyflwyno sylwadau am unrhyw eitem fusnes y bwriedir ei thrafod yn y cyfarfod (adran 48)
- Ailystyried cydnabyddiaeth yn dilyn cyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru: yn diwygio adran 143A o Fesur 2011 i ddarparu pan fydd Gweinidog Cymru yn rhoi cyfarwyddyd i brif gyngor ailystyried ei ymateb i argymhelliad gan yr IRP, na ellir dirprwyo'r gwaith ailystyried a bod yn rhaid i'r cyngor llawn fod yn rhan o'r broses (adran 56)
- Penodi cynorthwywyr i'r weithrediaeth: yn darparu ar gyfer penodi aelodau prif gynghorau fel cynorthwywyr i'r weithrediaeth. Ni fydd y cynorthwywyr yn aelodau o'r weithrediaeth ond gallent weithredu ar ei rhan o dan rai amgylchiadau penodol (adran 57)
- Rhannu swydd: yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol 2000 i ddarparu ar gyfer dau aelod o brif gyngor yn rhannu swydd ar weithrediaeth ac yn cynyddu'r uchafswm a ganiateir o ran maint y weithrediaeth pan fydd aelodau'r weithrediaeth yn rhannu swydd. (adran 58)
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu: yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth i'r cyhoedd neu aelodau o brif gyngor am benderfyniadau gweithrediaeth y cyngor hwnnw (adran 65)
- Pŵer i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau benodi pwyllgorau trosolwg a chraffu ar y cyd: yn diwygio pŵer gwneud rheoliad yn adran 58 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 fel y gall rheoliadau ei gwneud yn ofynnol i brif gynghorau sefydlu pwyllgor trosolwg a chraffu ar y cyd (adran 66)
- Pwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio: Aelodaeth a Gweithrediadau (Pennod 2 o Ran 6)
- Dileu'r cyfyngiad ar swyddogion monitro i gael eu penodi'n bennaeth gwasanaethau democrataidd hefyd ac atal prif weithredwr cyngor rhag cael ei benodi'n bennaeth gwasanaethau democrataidd (adran 161)
- Diddymu pleidleisiau sy'n dibynnu ar gyfarfod cymunedol: yn diwygio Deddf 1972 er mwyn diddymu pleidleisiau cymunedol, ac eithrio pleidleisiau llywodraethu cymunedol (adran 162)

Competition & Markets Authority



*Mick Antoniw MS*
Chair
Legislation, Justice and Constitution Committee
The Senedd
Pierhead St,
Cardiff
CF99 1SN

*By email: SeneddLJC@senedd.wales*

From: Andrea Coscelli CBE
*Chief Executive*

Direct line: 020 3738 6286

*2 March 2021*

Dear Mick,

**Office for the Internal Market (OIM)**

I am writing with regard to the UK Internal Market Act which requires the CMA to establish a new Office for the Internal Market (OIM) later this year.

The OIM will have a distinct remit within the CMA to provide technical advice to the UK government and parliament and the devolved administrations and legislatures on the smooth running of trade within the United Kingdom. The OIM will also monitor and report on the health of the UK internal market, including trends and developments across sectors, nations and regions.

The OIM will be an important new function for the CMA and I am determined to ensure that it fulfils its role with professionalism, impartiality and analytical rigour.

The Act provides that the OIM must act even-handedly in carrying out its functions with respect to each of the governments across the UK. This will be an important principle underpinning the work of the OIM, and we will work closely with the Devolved Administrations, as the CMA already does with many of its functions when there is an aspect of the work that touches on devolved responsibilities.

The OIM is not expected to be operational until autumn 2021 and so the details of its governance and functions are still being developed. However, as required by the Act, the CMA intends to prepare and publish general advice and information about how it will approach the exercise of its internal market functions over the coming months. We expect to consult on this guidance in late spring and summer (being aware of the elections in May for the Scottish Parliament and the Senedd Cymru/Welsh Parliament).

The Cabot, 25 Cabot Square, London, E14 4QZ • Telephone 020 3738 6000 • Fax 020 3738 6067
www.gov.uk/cma • general.enquiries@cma.gov.uk • Twitter @CMAgovUK

As the OIM prepares to start its work, engagement with the Legislation, Justice and Constitution Committee will be important. Once our planning has progressed further, we will write to you again with further details in advance of the consultation and would be keen to meet and discuss these with you.

Please do not hesitate to let me know if you have any questions in the meantime.

Best regards



Andrea Coscelli CBE
*Chief Executive*
andrea.coscelli@cma.gov.uk

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/00262/21

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

seneddccera@senedd.wales

2nd Mawrth 2021

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Chwefror 2021 yn rhoi gwybod yn ffurfiol i mi am fwriad y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad ar y pecyn o Reoliadau Newid yn yr Hinsawdd a osodwyd ar 9 Chwefror 2021. Nodaf bryder y Pwyllgor ynglŷn â'r amserlen ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Yn dilyn fy llythyr atoch ym mis Mehefin 2020 (ein cyf: MA/LG/0821/20), byddwch yn ymwybodol o'r oedi anochel wrth gyhoeddi cyngor y Pwyllgor ar y Newid yn yr Hinsawdd, sydd ei angen i lywio datblygiad y Rheoliadau hyn. Er gwaethaf yr oedi hwn, mae'r Rheoliadau ar gael i graffu arnynt ar gyfer yr 20 diwrnod eistedd safonol rhwng cael eu gosod a'r ddadl. Mae'r ddadl wedi'i threfnu ar hyn o bryd ar gyfer 9 Mawrth 2021 gyda'r nod o ddod â'r Rheoliadau i rym, yn amodol ar ewyllys y Senedd, ar 12 Mawrth 2021.

Yn dilyn eich llythyr a'ch cais i alluogi'r Pwyllgor i graffu a chyflwyno adroddiad, rwyf wedi cytuno i symud y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Rheoliadau i 16 Mawrth 2021. Rwy'n siŵr y bydd y Pwyllgor yn cefnogi'r cam hwn, ond bydd yr Aelodau am nodi y bydd hyn, o reidrwydd, yn effeithio ar ddyddiad dod i rym arfaethedig y Rheoliadau, a fydd yn symud i 19 Mawrth 2021. Caiff y newid hwn ei wneud ar ôl i'r Rheoliadau gael eu cymeradwyo gan y Senedd.

Mae fy swyddogion ar gael i ddarparu briff technegol ar y Rheoliadau i staff eich Pwyllgor, fel y darparwyd ganddynt yn 2018.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn Gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: DC/JJ/00529/21

Mick Antoniw AS - Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

03 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol i roi gwybod i chi y bydd Cyfarfod Gweinidogol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ar y Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol yn cael ei gynnal yr wythnos hon, sef dydd Gwener 5 Mawrth. Mae'r Aelod-weinyddiaethau wedi cytuno i gynnal cyfarfod rhithiol, dan arweiniad Ynys Manaw. Fel y Gweinidog sy'n gyfrifol am gynhwysiant digidol, fi fydd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru.

Mae'r cyfarfod yn gyfle i Aelod-weinyddiaethau'r BIC drafod cynhwysiant digidol, sy'n gwestiwn allweddol o ran cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb, a'r gweithgarwch sy'n mynd rhagddo ar draws y gweinyddiaethau i sicrhau bod pobl yn gallu ymgysylltu â'r newidiadau technolegol sy'n digwydd mor gyflym yn ein cymdeithas, a manteisio arnynt. Yn ogystal, bydd yn gyfle i drafod effaith y pandemig ar agenda cynhwysiant digidol a'r rôl hollbwysig y mae'n rhaid inni i gyd ei chwarae er mwyn helpu dinasyddion i feithrin hyder digidol drwy gyfuniad o gymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a mynediad.

Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i Weinidogion ystyried gwaith ehangach sy'n digwydd ar draws y sectorau mewn perthynas â diogelwch ar-lein, gan ddod i gytundeb ar yr un pryd ar y Cynllun Gwaith i'r dyfodol.

Bydd y cyngor yn cytuno ar hysbysiad yn y cyfarfod, a byddaf yn rhoi'r manylion cyhoeddi a chanlyniad y cyfarfod i'r Pwyllgor maes o law.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi ysgrifennu mewn termau tebyg at gadeiryddion y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, John Griffiths AS; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Lynne Neagle AS; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Bethan Sayed AS; a Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau, Russell George AS.

Yn gywir,



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Senedd Cymru
Y Pwyllgor Busnes
—
Welsh Parliament
Business Committee

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

3 Mawrth 2021

Annwyl Mick,

**Rheolau Sefydlog Drafft ar y weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi**

Diolch am eich llythyrau ar 11 Hydref 2019 a 4 Rhagfyr 2019 mewn perthynas â'r gweithdrefnau newydd arfaethedig sy'n ymwneud â Biliau Cydgrynhoi. Fel rhan o'i adolygiad cyfredol o rai Rheolau Sefydlog, mae'r Pwyllgor Busnes wedi trafod y sylwadau a wnaed gennych.

Rydym yn ddiolchgar i chi am ystyried y weithdrefn ddrafft yn ofalus. Mae ymateb manwl ynghlwm.

Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad yn cynnig y dylid mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog drafft cyn diddymu’r Senedd.

Yn gywir,

Elin Jones

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPwyllgorBusnes@Senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
0300 200 6565

**Atodiad A i'r llythyr**

***Rheol Sefydlog 26C.1:***

*Hoffem dynnu eich sylw at Reol Sefydlog 26C.1, yn enwedig o ran a yw'n angenrheidiol ac yn briodol iddi gynnwys cydgrynhoi'r gyfraith gyffredin fel rhan o'i chwmpas.*

1. Nid yw'n arbennig o gyffredin i Filiau Cydgrynhoi yn y DU ymgorffori cyfraith achosion, ac ni ddisgwylir i hynny fod yn gyffredin ychwaith o ran y Biliau Cydgrynhoi a gyflwynir yn y Senedd.

2. Mae'n briodol sicrhau y gellir cynnwys cyfraith gyffredin fel rhan o ymarfer cydgrynhoi oherwydd, pan fydd Bil Cydgrynhoi yn dwyn ynghyd ddeddfwriaeth ar bwnc, gall hefyd fod yn briodol cynnwys cyfraith achosion sy'n berthnasol ac elfennau eraill o'r gyfraith gyffredin er mwyn ailddatgan y gyfraith bresennol mewn modd mwy cyflawn a gwella hygyrchedd. H.y. ymgorffori effaith cyfraith achosion o ran ystyr y ddeddfwriaeth bresennol, neu reolau'r gyfraith gyffredin sydd â chysylltiad agos â'r darpariaethau statudol. Er enghraifft, efallai y bydd cyfraith achosion sy'n egluro ystyr darpariaeth, neu'n cyfyngu ar effaith darpariaeth mewn ffordd na chafodd ei nodi ar ei hwyneb. Gellir cynnwys y math hwn o gyfraith achosion yn y ddeddfwriaeth wedi'i chydgrynhoi fel ei bod yn adlewyrchu'n gywir sut roedd y ddarpariaeth flaenorol yn gweithio mewn gwirionedd. Mewn rhai achosion, gallai methu ag ymgorffori cyfraith achosion arwain at ailddatgan y gyfraith mewn modd anghyflawn a chamarweiniol.

3. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi trafod y mater hwn yn ei ymarferion cydgrynhoi ei hun ar gyfer Llywodraeth y DU, ac yn ei adroddiad, ***'Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru'***, mae'n awgrymu y gallai codeiddio gynnwys "cyfraith achosion sefydlog yn sefydlu rheolau o fewn maes pwnc cod y byddai'n ddefnyddiol eu gwneud yn fwy hygyrch trwy eu cynnwys yn y cod, yn ogystal â chyfraith achosion sy'n ategu darpariaethau statudol penodol trwy, er enghraifft, lenwi bylchau neu gynnig diffiniadau o dermau statudol nas diffiniwyd." Yn fwy diweddar, ym Mhennod 7 o bapur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith ar gyfer ei brosiect ynghylch *Cyfraith Cynllunio yng Nghymru*, trafododd y Comisiwn y cwestiwn a ddylid cynnwys cyfraith achosion wrth gydgrynhoi deddfwriaeth gynllunio. Roedd y papur[1] yn trafod yr amgylchiadau lle byddai'n briodol ymgorffori cyfraith achosion a'r mathau o gyfraith achosion y gellid eu cynnwys, gan gynnig rhai enghreifftiau.

---

[1] Ar gael yn: https://www.lawcom.gov.uk/project/cyfraith-cynllunio-yng-nghymru/

4. Fel y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, nid oes dim bwriad gan Lywodraeth Cymru i gydgrynhoi rheolau annibynnol y gyfraith gyffredin.

***Rheol Sefydlog 26C.2:***

*Rheol Sefydlog 26C.2(i): mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllawiau drafft yn nodi y byddai'r Rheol Sefydlog hon yn caniatáu newid cysyllteiriau mewn darpariaeth sy'n bodoli eisoes mewn Deddf. Gan fod gan 'a' a 'neu' wahanol ystyron ac effeithiau wrth eu defnyddio mewn rhestr o ddarpariaethau, nodwn y gallai newid o'r fath fod yn gyfystyr â diwygio polisi.*

5. Nid newid y gyfraith o ran ei sylwedd sydd o dan sylw yma, ond newid sut y caiff y gyfraith ei chyflwyno. Efallai y bydd Bil Cydgrynhoi yn ceisio cydgrynhoi gwahanol Ddeddfau sy'n defnyddio cysyllteiriau mewn ffyrdd gwahanol neu rai nad ydynt yn eu defnyddio fel y byddem ni heddiw. Y nod bob amser fyddai sicrhau bod Bil Cydgrynhoi yn gyson ynddo'i hun ac yn gyson â'r arddull ddrafftio gyfredol gyhyd â phosibl. Yn y pen draw, bydd y pwyllgor cyfrifol yn penderfynu yn y lle cyntaf a yw unrhyw newidiadau o'r fath yn briodol o fewn paramedrau Rheol Sefydlog 26C, a rhaid i'r Senedd gyfan gymeradwyo unrhyw newidiadau o'r fath hefyd naill ai yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Senedd neu'r Cyfnod Terfynol.

*Rheol Sefydlog 26C.2(iii): mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllawiau drafft yn awgrymu y byddai'r Rheol Sefydlog hon yn caniatáu hepgor darpariaethau mewn Deddfau presennol lle nad oes bwriad bellach i gychwyn y ddarpariaeth honno. Awgrymwn yn barchus fod 'bwriad' yn rhywbeth a fydd yn dibynnu ar ddewisiadau polisi. Felly, efallai na fyddai'n cael ei ystyried yn briodol galluogi Llywodraeth bresennol i ddefnyddio Bil Cydgrynhoi i gael gwared ar ddyletswyddau cyfreithiol nad oes ganddi fwriad i'w defnyddio, ond y mae'n bosibl y bydd eraill am eu defnyddio yn y dyfodol.*

6. Rheol Sefydlog 26C.2(iii): mae hyn yn ymwneud â dileu darpariaethau nad oes eu hangen mwyach ac yn amlwg mae cwestiwn o ran pwy ddylai benderfynu hyn. Yn y lle cyntaf, mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu beth i'w gynnwys yn ei Bil Cydgrynhoi, a byd yn fater i'r Cwnsler Cyffredinol ei ystyried wrth benderfynu a ellir cynnig y Bil fel y cyfryw ai peidio. Fodd bynnag, fel bob amser, y pwyllgor cyfrifol a'r Senedd fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ellir dileu darpariaeth o'r gyfraith. Pan na fydd pŵer wedi cael ei ddefnyddio, bydd unrhyw gwestiwn ynghylch a gaiff ei ddefnyddio yn y dyfodol yn dibynnu a oes tebygolrwydd realistig y caiff y pŵer ei ddefnyddio. Rhaid gofyn nid yn unig a yw Gweinidogion cyfredol yn debygol o ddefnyddio pŵer, ond a oes tebygolrwydd realistig y bydd unrhyw lywodraeth yn ei ddefnyddio yn y dyfodol. Mae'n gwbl arferol i Filiau Cydgrynhoi'r DU ddiddymu pwerau ar y sail nad yw Gweinidogion nac eraill yn debygol o'u defnyddio. Er enghraifft, rhoddir pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru yn gyffredinol, felly eu bwriadau hwy (nawr ac yn y dyfodol) sy'n berthnasol. Mae

adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru yn cynnwys argymhellion i beidio ag ailddatgan darpariaethau amrywiol o ddarnau o ddeddfwriaeth gynllunio, y cafodd rhai ohonynt eu deddfu dros 50 mlynedd yn ôl ac eraill mor ddiweddar â 2008, ar y sail nad oes eu hangen mwyach. Mae'r rhain yn cynnwys pwerau i sefydlu "comisiynau ymchwiliadau cynllunio" a "pharthau cynllunio syml" y bwriadwyd iddynt wella'r broses gynllunio ond na chawsant eu defnyddio erioed, a darpariaethau ynghylch cynnwys polisïau ynni mewn cynlluniau datblygu a chau priffyrdd sydd wedi cael eu disodli gan bwerau eraill.

*Rheol Sefydlog 26C.2(iv): mae'r Rheol Sefydlog ddrafft yn defnyddio'r geiriau 'mân' a 'boddhaol'. O ystyried bod ystyr y termau hyn yn oddrychol, rydym yn awgrymu bod angen ystyried ymhellach sut i ddrafftio'r Rheol hon;*

7. Nid yw'r syniad o wneud newidiadau i sicrhau bod cyfreithiau'n cael eu cydgrynhoi yn foddhaol yn un newydd: dyma'r sail y mae Biliau Cydgrynhoi San Steffan yn gwneud mân newidiadau i'r gyfraith arni. Mae'r canllawiau drafft yn cynnwys llawer o fanylion am y math o newid a ragwelir a byddai'r manylion hyn ar gael i'r cyhoedd. Yn yr un modd â phopeth arall yn Rheol Sefydlog 26C.2, bydd y Llywodraeth – gan gyfeirio at gyngor y Cwnsler Cyffredinol a'r Prif Gwnsler Deddfwriaethol – yn ffurfio barn wrth baratoi Bil Cydgrynhoi a bydd yn rhaid iddi gyfiawnhau ei safbwynt wrth gyflwyno'r Bil, ac wrth i'r Senedd graffu arno wedi hynny. Mae p'un a ellir cyfiawnhau disgrifio unrhyw newidiadau a gynigir fel rhai 'mân', ac a oes angen y newidiadau i sicrhau bod cyfreithiau'n cael eu cydgrynhoi yn foddhaol ymhlith y cwestiynau y bydd angen i'r pwyllgor cyfrifol eu hateb fel rhan o'r broses Ystyriaeth Gychwynnol.

*Rheol Sefydlog 26C.2(iv): mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllawiau drafft yn nodi y byddai'r Rheol Sefydlog hon yn galluogi symud darpariaethau o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth. Unwaith eto, o gofio bod hyn yn arwain at newid sylweddol, rydym yn awgrymu y dylid ei ystyried ymhellach.*

8. Mae'r canllawiau drafft yn cyfeirio at y posibilrwydd o symud deunydd i'r ddau gyfeiriad (naill ai o ddeddfwriaeth sylfaenol i is-ddeddfwriaeth neu, weithiau, o is-ddeddfwriaeth i ddeddfwriaeth sylfaenol). Mae Comisiwn y Gyfraith yn ei gynigion ar gyfer cyfraith cynllunio wedi nodi sefyllfaoedd lle y mae'r ddau yn ddymunol. Mae arfer deddfwriaethol wedi newid dros amser felly mae'n bosibl y bydd rhai darnau o ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â phethau mewn ffyrdd na fyddem yn eu disgwyl mwyach. Efallai y bydd gwahanol Ddeddfau sy'n cael eu cydgrynhoi yn anghyson o ran yr hyn y maent yn ei gynnwys ar eu hwyneb a'r hyn y maent yn ei adael i reoliadau; efallai y bydd gormod o fanylion mewn Deddf, neu ormod o ddeunydd pwysig mewn is-ddeddfwriaeth. Y diben yw gwella cysondeb y corff o ddeddfwriaeth yn ei gyfanrwydd ac, fel bob amser, byddai'r pwyllgor cyfrifol yn craffu ar unrhyw newidiadau ac yn gofyn am gymeradwyaeth y Senedd gyfan.

*Rheol Sefydlog 26C.2(vi) – nid yw'n glir i ni pam y byddai angen trefniadau trosiannol yn ystod y broses gydgrynhoi.*

9. Efallai y bydd angen trefniadau trosiannol a darpariaethau arbed pan fo’r gyfraith yn cael ei newid neu'n symud o un system i un arall. Pan fo cyfreithiau’n cael eu cydgrynhoi, mae angen sicrhau bod popeth sydd wedi digwydd neu’n mynd rhagddo o dan y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithio o dan y ddeddfwriaeth newydd. Os gwneir mân newidiadau i'r gyfraith fel rhan o'r gwaith cydgrynhoi, byddai angen ymdrin â sut y mae'r newidiadau hynny'n effeithio ar bethau sydd wedi digwydd neu sy’n mynd rhagddo o dan y gyfraith flaenorol. Er enghraifft, os bydd cais cynllunio wedi'i gyflwyno o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ond na fyddai'n cael ei benderfynu nes bod y ddeddfwriaeth gydgrynhoi newydd mewn grym, gallai darpariaethau trosiannol ac arbed ddarparu ar gyfer ymdrin â'r cais a gyflwynwyd eisoes o dan y Ddeddf gydgrynhoi newydd.

***Rheol Sefydlog 26C.3:***

*Nodwn fod Rheol Sefydlog 26C.3 yn galluogi'r Llywydd i gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig i Aelodau o’r Senedd ar ddehongli Rheolau Sefydlog 26C.1 a 26C.2, a sut y mae Rheol Sefydlog 26C.1 a 26C.2 yn gweithredu’n gyffredinol. O ystyried bod Rheol Sefydlog 6.17 eisoes yn galluogi'r Llywydd i “roi canllawiau ysgrifenedig i’r Aelodau ynglŷn â chynnal trafodion y Senedd yn y modd priodol”, nid yw'n glir i ni pam y mae angen Rheol Sefydlog 26C.3.*

10. Mae’r rheol hon wedi’i chynnwys i newid y ffordd y caiff y wybodaeth ei chyflwyno. O ystyried pwysigrwydd y canllawiau fel ffordd o ddarparu rhagor o fanylion ac enghreifftiau o'r hyn y mae’n dderbyniol ei wneud drwy Fil Cydgrynhoi, ystyriwyd ei bod yn briodol cynnwys darpariaeth benodol yma er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd iddi, er y gallai'r weithdrefn ddrafft fod wedi dibynnu ar Reol Sefydlog 6.17. Mae hefyd yn golygu bod y canllawiau'n cael eu cyhoeddi o dan Reol Sefydlog y Bil Cydgrynhoi a bod cysylltiad uniongyrchol rhwng y canllawiau hynny a'r weithdrefn gysylltiedig.

***Rheol Sefydlog 26C.6:***

*Mae'r nodyn sy'n cyd-fynd â Rheol Sefydlog 26C.6 yn nodi y bydd angen i'r Llywydd ystyried a fydd angen newid y penderfyniad ar gyfer Biliau mewn unrhyw ffordd ar gyfer Biliau Cydgrynhoi. Nid yw’n glir i ni pam y dylai ffurf Bil Cydgrynhoi fod yn wahanol i ffurf Bil Cyhoeddus, yn enwedig gan mai un o ddibenion cydgrynhoi yw sicrhau bod darpariaethau mewn Deddfau hŷn yn gyson ag arddulliau drafftio modern a hygyrch, ac mae modd gwneud hynny eisoes yn sgil Penderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol – Biliau Cyhoeddus.*

11. Ar hyn o bryd, nid yw swyddogion y Senedd na'r Llywodraeth yn ymwybodol o resymau dros ddiwygio'r Penderfyniad ar y Ffurf Briodol. Disgwyliwn y bydd Biliau Cydgrynhoi yn cael eu drafftio a'u gosod yn yr un modd â Biliau sy'n diwygio'r gyfraith o dan Reol Sefydlog 26 a'r bwriad yw adolygu'r penderfyniad ar gyfer Rheol Sefydlog 26 i weld a ellir ei gymhwyso ar gyfer Rheol Sefydlog 26C pe bai'r Rheolwyr Busnes yn cytuno ar y Rheol Sefydlog. Fodd bynnag, wrth inni symud ymlaen drwy unrhyw broses ddrafftio gallai materion newydd sy'n unigryw i Filiau Cydgrynhoi ddod i'r amlwg a'r bwriad yw tynnu sylw'r Aelodau at y posibilrwydd hwn a darparu ar ei gyfer.

***Rheol Sefydlog 26C.9:***

*Effaith Rheol Sefydlog 26C.9(v) yw caniatáu i Femorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â Bil Cydgrynhoi beidio â chynnwys gwybodaeth am ddarpariaethau trosiannol, diwygiadau canlyniadol ac achosion o ddiddymu'r ddeddfwriaeth bresennol. Awgrymwn y dylai'r Rheol Sefydlog hon fod yn gymwys i Reolau Sefydlog 26C.2(ii) hyd at (vi), yn hytrach na 26C.2(ii) hyd at (v).*

12. Ni fydd angen nodiadau drafftio ar gyfer pob un o'r newidiadau a ganiateir o dan y Rheol Sefydlog hon i egluro'r hyn a wnaed. Er enghraifft, os eir ati i ddileu'r cyfeiriadau at Gymru neu Weinidogion Cymru o'r ddeddfwriaeth sydd ar ôl, ni fyddai angen eglurhad pellach. Yn yr achosion lle byddai'n ddefnyddiol cael eglurhad wrth graffu ar y Bil, byddai eglurhad yn cael ei gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol. Rhagwelir y gallai'r rhain fod yn gyfuniad o sylwadau cyffredinol yn egluro'r dull cyffredinol, neu sylwadau manylach ar ddarpariaethau/newidiadau unigol.

*Mae Rheol Sefydlog 26C.9(vii) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Esboniadol gadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru. Gan nad yw Biliau Cydgrynhoi yn newid polisi, nid yw'n glir i ni sut y gallent arwain at wariant ychwanegol.*

13. Er ei bod yn wir na all Bil Cydgrynhoi arwain at wariant 'sylweddol' ychwanegol (sef pam y mae hynny'n cael ei ddiystyru a pham nad oes darpariaeth ar gyfer penderfyniad ariannol), mae'n bosibl y gall fod goblygiadau ariannol o bryd i'w gilydd, yn deillio, fwy na thebyg, o'r trefniadau trosiannol y mae'n rhaid eu rhoi ar waith wrth symud o'r ddeddfwriaeth bresennol i'r ddeddfwriaeth newydd. Gallai costau posibl gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â diweddaru gwefannau, hyfforddiant ymgyfarwyddo a diweddaru canllawiau a phapurau cynghori. Gallai costau eraill gynnwys, er enghraifft, ffurflenni cais cynllunio newydd y mae angen iddynt adlewyrchu rhifau adrannau newydd ac unrhyw newidiadau o ran strwythur, iaith a/neu fformat sy'n codi yn sgil y gwaith cydgrynhoi. Y bwriad yw sicrhau bod y Senedd yn ymwybodol o'r amcangyfrifon gorau o'r costau hynny, os ydynt yn deillio o achos penodol o gydgrynhoi.

***Ymdrin â darpariaethau canlyniadol***

*Mae paragraffau 44 i 47 o'r papur a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes yn nodi cynnig sy'n cynnwys Bil ar wahân i'r prif Fil Cydgrynhoi a fyddai'n cynnwys darpariaethau canlyniadol sy'n amherthnasol i'w bwrpas. Awgrymwn fod angen rhagor o fanylion am y weithdrefn arfaethedig hon; yn enwedig y bwriad i grwpio'r Biliau hyn yn unol â chynigion, gan olygu y byddent yn cael eu derbyn neu'n methu gyda'i gilydd, a'r cynnig ar gyfer camau diwygio olynol. Credwn hefyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd darparu enghreifftiau o sut y mae'r weithdrefn hon yn gweithio'n ymarferol mewn mannau eraill. Yn olaf, rydym yn awgrymu bod angen nodi'n glir sut y byddai'r ddau Fil o fewn y diffiniad arfaethedig cyfredol o Fil Cydgrynhoi, fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 26C.1.*

14. Mae'r Llywodraeth yn ystyried y dull hwn fel ffordd o'i gwneud yn bosibl cadw'r diddymiadau a'r diwygiadau canlyniadol i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth allan o'r prif Ddeddfau sy'n nodi'r gyfraith ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad, byddai'r brif Ddeddf yn nodi'r holl gyfraith yng Nghymru y byddai angen i bobl fod yn ymwybodol ohoni ar ôl cydgrynhoi'r darnau o ddeddfwriaeth, a byddai'r Ddeddf darpariaethau canlyniadol yn nodi diwygiadau i ddarnau eraill o ddeddfwriaeth, megis unrhyw ddiwygiadau i Ddeddfau y DU yr oedd eu hangen i gael gwared ar ddarpariaethau yn ymwneud â Chymru a sicrhau eu bod yn parhau i weithio i Loegr. Nid yw'r syniad hwn yn un newydd – mae cynsail i'r dull hwn mewn ymarferion cydgrynhoi ar raddfa fawr a gynhaliwyd yn San Steffan. Er enghraifft, y gwaith o gydgrynhoi cyfraith tai ym 1985, cyfraith cynllunio ym 1990, cyfraith dŵr ym 1991, a deddfwriaeth y GIG yn 2006. Roedd pob ymarfer cydgrynhoi yn cynnwys o leiaf ddwy Ddeddf o sylwedd ynghyd â Deddf darpariaethau canlyniadol.

15. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Rheol Sefydlog ddrafft yn darparu'n benodol ar gyfer y dull hwn nac yn gofyn amdano, ond nid yw ychwaith yn ei atal, ac y byddai angen i'r ddau Fil fodloni gofynion y Rheol Sefydlog. Efallai na fydd angen cymryd y dull ym mhob achos o dan y weithdrefn benodol hon yng Nghymru, ac awgrymwyd y dylai'r Rheolwyr Busnes adolygu'r trefniadau ar ôl iddynt gael eu profi yn ymarferol.

16. Mae rhagor o wybodaeth yn Atodiad B o ran cais y Pwyllgor am (i) manylion pellach, (ii) enghreifftiau o sut y mae'r weithdrefn yn gweithio'n ymarferol mewn mannau eraill, (iii) eglurder ar sut y mae'r ddau Fil o fewn y diffiniad arfaethedig cyfredol o Fil Cydgrynhoi fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 26C.1.

***Amserlennu'r gwaith o graffu ar Filiau Cydgrynhoi***

*Gwnaed cryn ymdrech a threuliwyd cryn amser yn paratoi ar gyfer cydgrynhoi cyfraith cynllunio fel y mae'n gymwys yng Nghymru. Cymerodd Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr bedair blynedd i gynnal adolygiad manwl o gyfraith cynllunio, gan fod y dasg honno mor eang. Er i Lywodraeth Cymru roi ymateb interim i'r Adroddiad ym mis Mai eleni, deallwn na fydd yn ymateb yn llawn i argymhellion Comisiwn y Gyfraith tan y flwyddyn newydd. Credwn fod yr amser a gymerodd i Gomisiwn y Gyfraith gwblhau ei waith yn ategu ein barn y dylid rhoi cymaint o amser i'r pwyllgor cyfrifol ag y bo angen i graffu'n drylwyr ac yn fanwl ar unrhyw gynnig Bil Cydgrynhoi. Yn ein barn ni, mae'n hanfodol sicrhau y caniateir digon o amser ac adnoddau ar gyfer gwaith craffu, yn enwedig os bydd y pwyllgor cyfrifol yn cael y dasg a awgrymir yn Rheol Sefydlog 26C.17, sef ystyried pa mor briodol yw cwmpas y gwaith cydgrynhoi, a yw'r gyfraith bresennol berthnasol wedi'i chynnwys yn y Bil Cydgrynhoi, ac a yw'r deddfiadau hynny wedi'u cydgrynhoi yn gywir. At hynny, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol wrthym ei fod yn derbyn ei bod yn anodd disgrifio'r amgylchiadau lle y gallai fod angen cydgrynhoi deddfwriaeth ar frys, ac rydym yn cytuno.*

17. Mae Rheol Sefydlog 26C.13 ddrafft yn nodi bod yn 'rhaid i'r Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried Bil Cydgrynhoi'. Er y disgwylir y bydd Biliau Cydgrynhoi yn fwy, ar y cyfan, na'r rhan fwyaf o Filiau diwygio, ni fyddant yn rhoi polisïau newydd ar waith, ac ni fyddant yn aml yn newid effaith y gyfraith. Ymarfer technegol yw cydgrynhoi, ac mae'r Rheol Sefydlog (yn enwedig Rheol Sefydlog 26C.2) a chanllawiau cysylltiedig y Llywydd yn adlewyrchu hynny. Gyda'i gilydd, fe'u cynlluniwyd i sicrhau y bydd y Senedd yn cynnal y broses graffu yr un ffordd â Seneddau eraill – fel asesiad technegol o'r gwaith cydgrynhoi.

18. Mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi nodi barn y Llywodraeth y dylid trafod Biliau Cydgrynhoi mewn modd effeithiol ac effeithlon. Wrth gyflwyno amserlen arfaethedig, disgwyliwn y bydd y Llywodraeth yn ystyried y pryderon a nodwyd gan y Pwyllgor o ran amseru. Yn ôl yr arfer, bydd y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â'r 'pwyllgor cyfrifol' ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer pob Bil. Mae Biliau Cydgrynhoi yn llai tebygol o fod yn sensitif o ran amser na Biliau diwygio o dan Reol Sefydlog 26, a ddylai helpu i sefydlu amserlenni sy'n dderbyniol i bawb.

***Adolygu'r Rheolau Sefydlog unwaith y bydd y weithdrefn wedi'i phrofi'n ymarferol***

*Mae bwrw ati â'r nod o gydgrynhoi cyfraith Cymru yn dasg sylweddol. Rydym yn cydnabod sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol y bydd proses o ddysgu yn nhymor nesaf y Senedd wrth i'r Biliau Cydgrynhoi cyntaf gael eu cyflwyno ar gyfer gwaith craffu. Yn sgil hynny, rydym yn cytuno â'r Cwnsler Cyffredinol y dylid cynnal adolygiad o'r weithdrefn ar gyfer Biliau*

*Cydgrynhoi ar ôl i Senedd Cymru graffu ar y Bil Cydgrynhoi cyntaf, er mwyn sicrhau bod y Rheolau Sefydlog, a'r gweithdrefnau yn fwy cyffredinol, yn addas at y diben a fwriadwyd.*

19. Dyna sy'n digwydd fel arfer wrth gyflwyno gweithdrefnau newydd sylweddol fel hyn. Pan fydd hynny'n digwydd, mae'n debygol y bydd y Pwyllgor Busnes yn ymgynghori â'r pwyllgor cyfrifol i lywio'r adolygiad a gofyn ei farn ar unrhyw feysydd i'w diwygio.

**Atodiad B – Manylion pellach am 'Filiau Cytras'**

Fel y'i drafftiwyd, mae'r Rheol Sefydlog yn galluogi dau Fil 'cytras' neu fwy i gael eu cydgrynhoi heb geisio eu diffinio. Gan na fydd angen biliau canlyniadol ym mhob achos ac oherwydd y gall eu pwrpas a'r ffordd y cânt eu defnyddio amrywio, byddai'n feichus ceisio diffinio cysyniad o'r fath yn y Rheol Sefydlog a darparu ar ei gyfer drwy gydol y weithdrefn. Yn hytrach, mae'r syniad o filiau cytras yn defnyddio'r darpariaethau presennol, yn Rheol Sefydlog 26C arfaethedig ac mewn mannau eraill yn Rheolau Sefydlog y Senedd.

Byddem yn rhagweld trafodaethau rhwng swyddogion y Llywodraeth a swyddogion y Senedd yn y cyfnod cyn cyflwyno unrhyw Fil(iau) Cydgrynhoi i drafod pa mor ddymunol ac ymarferol yw defnyddio biliau 'cytras' ym mhob achos, ac yn y pen draw, byddai'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes benderfynu a yw'n cytuno y caiff mwy nag un Bil fod yn ddarostyngedig i'r un amserlen.

Fel man cychwyn, y rhagdybiaeth bresennol yw y byddai'r egwyddorion a ganlyn yn berthnasol pan ddefnyddir y dull 'biliau cytras':

- wrth gyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried y Biliau Cydgrynhoi, byddai'r Pwyllgor Busnes yn nodi y dylid craffu ar y Biliau ar yr un pryd a byddai'n pennu'r un amserlen ar gyfer y ddau Fil (Rheol Sefydlog 26C.13);
- o dan Reol Sefydlog 26C.18, byddai'r Aelod sy'n gyfrifol am y Bil yn cynnig cynigion ar wahân ar gyfer pob Bil yn cynnig eu bod yn symud ymlaen fel Biliau Cydgrynhoi, ond yn defnyddio Rheolau Sefydlog 12.24 a 12.40 i alluogi'r cynigion i gael eu grwpio o ran trafod a phleidleisio, sy'n golygu y byddent yn cael eu derbyn neu'n methu gyda'i gilydd;
- gallai'r pwyllgor cyfrifol lunio un adroddiad ar y pecyn Biliau yn nodi a ddylent symud ymlaen fel Biliau Cydgrynhoi (Rheol Sefydlog 26C.16 a Rheol Sefydlog 26C.36);
- gallai unrhyw gynnig i fwrw ymlaen ag Ystyriaeth Fanwl y Senedd gynnwys y ddau Fil neu fod ar ffurf dau gynnig ar wahân;
- cyfnodau diwygio: oherwydd bod y ddau Fil yn cael eu derbyn neu'n methu gyda'i gilydd mae angen iddynt fynd drwy bob cyfnod gyda'i gilydd. Rhagwelir y byddai amserlen y Pwyllgor Busnes a'r ffordd y mae'r pwyllgor cyfrifol yn trefnu ei gyfarfodydd yn hwyluso hyn – h.y. byddai'r Pwyllgor

Busnes yn gosod terfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y ddau Fil, ac yng nghyfnod Ystyriaeth Fanwl y Pwyllgor, byddai'r pwyllgor cyfrifol yn ymdrin â gwelliannau i'r ddau Fil mewn un cyfarfod, neu cyn gynted ag y bo modd ar ôl hynny. Yn y naill achos neu'r llall, ni chynhelir unrhyw drafodion ar gyfnod nesaf y Bil Cydgrynhoi nes bod cyfnod cyfredol y Bil Canlyniadol yn cael ei gwblhau (neu beidio). Cyflwynwyd 'Ystyriaeth Fanwl Bellach y Pwyllgor' er mwyn galluogi i newidiadau pellach gael eu gwneud i un Bil yn dilyn newidiadau i'r llall (nid yw'r cyfnod cyfatebol, sef 'Cyfnod 2 pellach' yn bodoli o dan Reol Sefydlog 26). Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth angenrheidiol, ynghyd ag 'Ystyriaeth Fanwl y Senedd' ac 'Ystyriaeth Fanwl Bellach y Senedd' (y mae'r ddau yn seiliedig ar ddarpariaethau Rheol Sefydlog 26 o ran Cyfnod 3), yn ei gwneud yn bosibl ystyried unrhyw welliannau ychwanegol;

- Byddai'r cynigion ar gyfer y Cyfnod Terfynol yn cael eu grwpio o ran trafod a phleidleisio, fel bod y ddau Fil yn cael eu derbyn neu'n methu gyda'i gilydd.

*Enghreifftiau o'r weithdrefn yn gweithio'n ymarferol mewn mannau eraill:*

Pan aed ati yn 2006 i gydgrynhoi deddfwriaeth yn ymwneud â'r GIG, roedd hynny'n cynnwys dwy Ddeddf Gydgrynhoi newydd, un ar gyfer Lloegr ac un ar gyfer Cymru, yn ogystal â Deddf "Darpariaethau Canlyniadol". Dilynodd y tair Deddf yr un amserlen, a hyd y gwelwn, cawsant eu trafod gyda'i gilydd yn ystod y broses graffu. Dilynwyd proses debyg wrth gydgrynhoi deddfwriaeth o ran dŵr a chynllunio yn setiau newydd o Ddeddfau yn gynnar yn y 1990au. Yn Senedd y DU, defnyddir y dull hwn yn gyffredinol pan fo'r gyfraith yn cael ei chydgrynhoi i fwy nag un Ddeddf newydd (oherwydd y gallai darpariaeth ganlyniadol fod yn berthnasol i fwy nag un o'r Deddfau newydd).

*Eglurder ynghylch sut y mae'r ddau Fil o fewn y diffiniad arfaethedig cyfredol o Fil Cydgrynhoi fel y nodir yn Rheol Sefydlog 26C.1:*

Byddai'r ddau Fil yn Filiau Cydgrynhoi, oherwydd mai pwrpas y ddau fyddai cydgrynhoi'r gyfraith, ac ni fyddent ond yn cynnwys darpariaethau o'r fath a ganiateir gan Reol Sefydlog 26C.2. Gall unrhyw Fil nad yw'n mynd y tu hwnt i'r diffiniad hwnnw fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ar gyfer Biliau Cydgrynhoi; nid oes dim gofyniad na disgwyliad bod unrhyw Fil yn cynnwys pob math o'r darpariaethau a ganiateir.

Er enghraifft, rhagwelir y gallai diwygiadau o'r fath gynnwys dileu 'Cymru' o'r ddeddfwriaeth a sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol yn parhau i weithredu ar gyfer Lloegr (neu fod unrhyw ddeddfwriaeth nad yw wedi'i datganoli yn parhau i weithredu ar gyfer Cymru). Fel bob amser, y pwyllgor cyfrifol (ac yn ddiweddarach y Senedd gyfan) sydd â'r gair olaf.

Elin Jones AM
Llywydd and Chair of Business Committee

4 December 2019

Annwyl Lywydd

**Draft Standing Orders for a Consolidation Bill procedure**

Further to my letter of 11 October 2019, we have now had the opportunity to consider the draft Standing Order for a Consolidation Bill procedure within the context of the Counsel General's **proposals for consolidation and codification**, following an evidence session with him on 18 November 2019. As a result, we wish to share with you some additional comments to be considered along with our original observations.

*Timetabling the scrutiny of Consolidation Bills*

Substantial time and effort has already been spent in preparing for the consolidation of planning law as it is applicable in Wales. The Law Commission for England and Wales took four years to undertake a **detailed review of planning law**, such is the breadth of that task. While providing an **interim response** to the Report in May of this year, we understand that the Welsh Government will not fully respond to the Law Commission's recommendations until the new year.

We believe that the time taken for the Law Commission to complete its work supports our view that the responsible committee should be afforded as much time as is needed to undertake thorough and robust scrutiny of any Consolidation Bill proposal. In our view, a sufficient period for scrutiny and appropriate resources are particularly vital if, as Standing Order 26C.17 suggests, the responsible committee will be tasked with considering whether the scope of the consolidation is appropriate, whether the relevant existing law has been included within the consolidation Bill, and whether the consolidation of those enactments is correct. Furthermore, the Counsel General told us that he accepted that the circumstances around where there may be a need to consolidate legislation urgently are difficult to describe, and we agree.

*Consolidation Bills in tandem*

In my previous letter, I drew attention to our initial views on the proposal for provisions consequential to the main purpose of consolidation to be included in a separate, second Bill. During our scrutiny session with the Counsel General on 18 November, we asked him

for his views on how consolidating in two parts would work in practice. While acknowledging that the proposal was "not entirely clear cut", the Counsel General was firm in his view that it would not be appropriate for one Bill to pass if the other did not. While we can see no obvious procedural barrier within the draft Standing Orders to the concept of achieving consolidation in an area via two Bills progressing in parallel, we are mindful that this approach is innovative. For that reason we suggest that further, detailed consideration is given to this proposal in advance of the Standing Orders being finalised.

*Guidance*

The guidance that will accompany the new Standing Orders for a Consolidation Bill procedure is going to be valuable to both Members and stakeholders in order to fully explain the process in an open and transparent way in an unfamiliar but important aspect of legislating. In my 11 October letter, I drew attention to a number of matters highlighted by the draft guidance which we believe require further attention and take this opportunity to reiterate those comments.

*Reviewing the Standing Orders*

Embarking on the objective of consolidating Welsh law is a substantial task. We acknowledge the Counsel General's comments that there will be a process of learning in the next Assembly term as the first Consolidation Bills are brought forward for scrutiny. For that reason we agree with the Counsel General that there should be a review of the Consolidation Bill procedure after the National Assembly has scrutinised the first Consolidation Bill, to ensure the Standing Orders and procedures more generally are fit for their intended purpose.

*Other matters*

With regards to other matters raised by the Counsel General, including protecting the structure of Welsh law and the possibility of new processes for the scrutiny of subordinate legislation, we wish to draw to your attention to the **transcript of our 18 November meeting**, in the event that these matters may be considered by the Business Committee in the near future.

Yours sincerely



**Mick Antoniw AM**
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Elin Jones AM
Llywydd and Chair of Business Committee

11 October 2019

Annwyl Lywydd

**Draft Standing Orders for a Consolidation Bills procedure**

Thank you for the information provided to us in your letter of 10 July 2019. We were also grateful to the Assembly Commission and Welsh Government officials who provided a technical briefing to us on the proposed procedure for the scrutiny of Consolidation Bills on 16 September 2019.

It is our intention to consider the Counsel General's position statement on Consolidation and Codification, which we anticipate will be released shortly, before providing final comments to you on the draft Standing Order. However, in the meantime, we would like to share with you our initial views.

*Standing Order 26C.1*

We wish to draw your attention to Standing Order 26C.1, particularly in terms of whether it is necessary and appropriate for the consolidation of common law to be included within its scope.

*Standing Order 26C.2*

We wish to draw your attention to a number of points relating to Standing Order 26C.2:

- Standing Order 26C.2(i) - the information provided in the draft guidance indicates that this Standing Order would permit the changing of conjunctions in an existing provision in an Act. As 'and' and 'or' have different meanings and affects when used in a list of provisions, we are mindful that such a change could amount to policy reform.
- Standing Order 26C.2(iii) - the information provided in the draft guidance indicates that this Standing Order would permit the omission of provisions in existing Acts where there is no longer an intention to commence that provision. We respectfully suggest that 'intention' is something that will be dictated by

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

policy choices. It may, therefore, not be considered appropriate to enable a present government to use a Consolidation Bill to remove legal duties which it has no intention to use, but which others may wish to utilise in the future.

- Standing Order 26C.2(iv):
  - the draft Standing Order uses the words 'minor' and 'satisfactory'. Given that the meaning of these terms is subjective, we suggest that this drafting is considered further;
  - the information provided in the draft guidance states that this Standing Order would enable provisions to be moved from primary to secondary legislation. Again, given that this amounts to a significant change, we suggest that this is given further consideration.
- Standing Order 26C.2(vi) – it is unclear to us why transitional arrangements would be needed during the act of consolidation.

*Standing Order 26C.3*

We note that Standing Order 26C.3 enables the Presiding Officer to issue written guidance to Assembly Members on the interpretation of Standing Orders 26C.1 and 26C.2, and the operation of SO 26C generally. Given that Standing Order 6.17 already enables the Presiding Officer to "issue written guidance to Members for the proper conduct of Assembly proceedings", it is not clear to us why Standing Order 26C.3 is necessary.

*Standing Order 26C.6*

The note accompanying Standing Order 26C.6 states that the Presiding Officer will need to consider whether the determination for Bills will need to be amended in any way for Consolidation Bills. We are not clear why the form of a Consolidation Bill should be different to that of a public bill, particularly as a purpose of consolidation is meant to bring provisions in older Acts in line with modern and accessible drafting styles which are already enabled by the determination on the proper form of public Bills.

*Standing Order 26C.9*

We would like to draw attention to two points that relate to Standing Order 26C.9:

- Standing Order 26C.9(v) has the effect of allowing an Explanatory Memorandum that accompanies a Consolidation Bill to not include information about transitional provisions, consequential amendments and repeals of existing legislation. We suggest that this Standing Order should capture 26C.2(ii) to (vi), and not just 26C.2(ii) to (v).
- Standing Order 26C.9(vii) requires an Explanatory Memorandum to confirm that the provisions of the Consolidation Bill give rise to no additional significant expenditure payable out of the Welsh Consolidated Fund. It is not clear to us how

a Consolidation Bill, which does not change policy, may give rise to additional expenditure.

*Dealing with consequential provisions*

Paragraphs 44 to 47 of the paper considered by Business Committee set out a proposal which involves a separate Bill to the main Consolidation Bill that would include "consequential provisions that are tangential to its purpose". We suggest that further detail on this proposed procedure is needed; in particular the proposals that these Bills would be grouped by motions and would therefore stand and fall together, and the proposal for consecutive amending stages. We also believe that it would be helpful if examples of this procedure working in practice elsewhere could be provided. Finally, we suggest clarity is provided on how both Bills would appropriately fall within the current proposed definition of a Consolidation Bill, as set out in Standing Order 26C.1.

It is our intention to provide additional comments to you once we have had the opportunity to consider the draft Standing Order and guidance in the context of the Welsh Government's plans for consolidation and codification.

Yours sincerely

**Mick Antoniw AM**
Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/02782/20

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

mick.antoniw@senedd.wales

2nd Rhagfyr 2020

Annwyl Mick,

**Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cynnyrch Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio Etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd am eich pryderon ynghylch Rheoliadau Cynnyrch Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020.

Mae'r Rheoliadau'n cywiro diffygion trwy ddiwygio cyfraith yr UE a ddargedwir ynghylch Dynodiadau Daearyddol (GI) perthnasol i sicrhau bod y gyfraith yn gweithredu'n effeithiol o 1 Ionawr 2021 pan ddaw'r Cyfnod Pontio i ben. Mae hyn yn fater hawdd ei ddatrys i sicrhau bod gennym, yn unol â'r polisi, gynllun olynu cynhwysfawr fydd yn barod ar unwaith.

Bydd yn cyflawni nod cyntaf Llywodraeth Cymru o roi sicrwydd a pharhad, nod y mae busnesau Cymru hefyd yn cyrchu ato. Mae bwyd a diod Cymru'n cael eu masnachu o fewn marchnad y DU, nid o fewn Cymru'n unig. Mae gan drefn achredu a hyrwyddo a gynigir trwy gynllun GI sy'n gyffredin i'r DU y potensial y gael llawer mwy o effaith, gan ategu ein strategaeth gyffredinol ar gyfer helpu'r sector bwyd a diod i dyfu, o ran maint ac enw da.

Bydd y cynllun Prydeinig hwn yn gyfrwng i sicrhau bod cynnyrch gwarchodedig Cymru a'r DU yn dal i gael eu hamddiffyn yn ein marchnadoedd domestig a hefyd, eu bod yn cael eu cydnabod yn yr UE. Rhaid felly i'r DU greu cynllun sy'n bodloni gofynion yr UE er mwyn iddi allu ymuno â chynlluniau'r EUGI fel trydedd wlad. Bydd ymgeiswyr newydd llwyddiannus â chynllun y DU yn glir wedyn i ofyn am gydnabyddiaeth yr UE os dyna'u dewis. Mae hyn yn bwysig i sicrhau bod yr un ymddiriedaeth a chydnabyddiaeth i'r cynllun gan gwsmeriaid trwy Gymru, y DU a'r byd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Rheoliadau’n rhoi yn ei le y polisi a ffefrir ar gyfer yr holl weinyddiaethau datganoledig o fewn amserlen rydym yn cytuno â hi.

Mae Llywodraeth Cymru a’r Gweinyddiaethau Datganoledig wedi perswadio Defra i greu cynllun y cawn mewnbwn boddhaol iddo ynghylch arfarnu ceisiadau mewn ffordd dryloywo a gwrthrychol. Mae proses gynhwysfawr wedi’i dylunio ar y cyd ac rwy’n fodlon y dylai greu cynllun llwyddiannus.

Mae’n amlwg wrth ddatblygu’r polisi a’r broses ddeddfwriaethol nad oedd Defra am roi rôl statudol i Weinidogion Cymru a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill a’r unig ganlyniad yr oedd Defra am ei dderbyn oedd un fyddai’n rhoi’r holl swyddogaethau i’r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Nod ein polisi ni o’r dechrau oedd creu cynllun DU gyfan, gan sicrhau dilyniant difwlch rhwng dechrau’r cynllun hwnnw a diwedd cynllun yr UE, a bod cyfleoedd priodol i Lywodraeth Cymru gael cyfrannu at y broses arfarnu ceisiadau. Mae’r broses reoleiddio a gweinyddu rydym wedi cytuno arni â Defra a’r Gweinyddiaethau Datganoledig yn gwireddu hynny ac mae gennym broses glir ar gyfer datrys unrhyw anghydfodau all godi. O ganlyniad, nid oes angen inni ystyried cwestiynau pellach ynghylch sut mae swyddogaethau yn cael eu rhoi am y tro.

Gan edrych tua’r dyfodol, bydd Llywodraeth Cymru’n chwarae ei rhan lawn yn y cynllun newydd a byddwn yn ei fonitro ac yn ei werthuso’n ofalus. Rydym yn gobeithio am lwyddiant yn hyn o beth ond byddwn wrth reswm yn ystyried priodoldeb a defnyddioldeb y trefniadau wrth i’n polisi ein hunain ddatblygu ac wrth i farchnadoedd y DU a rhyngwladol addasu ar ôl Brexit.

Ynghylch gorchymyn adran 109, mae Llywodraeth Cymru’n rhagweld y caiff ei roi gerbon y Senedd cyn Nadolig.

Yn Gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Lesley Griffiths AS
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

17 Tachwedd 2020

Annwyl Lesley

**Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gwnaethom ystyried datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C, mewn perthynas â **Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020** yn ein cyfarfod ar **9 Tachwedd 2020**.

Byddwch yn gwybod mai diben y Rheoliadau yw creu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol (GIs) sy'n gweithio ar gyfer Prydain, a rheoliadau'r DU y gellir eu gorfodi yn ddomestig ar gyfer y sectorau gwin a diodydd gwirodol, gyda'r nod deuol o sicrhau gwarchodaeth barhaus i 86 o enwau presennol cynnyrch y DU sydd wedi'u cofrestru fel Dynodiadau Daearyddol o dan gynlluniau'r UE, a sicrhau bod y DU yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran Sefydliad Masnach y Byd.

Rydym wedi cymryd diddordeb yng nghynnydd y rhaglen fframweithiau cyffredin, yn enwedig gan fod sefydlu'r fframweithiau hyn yn gysylltiedig yn gynhenid â'r **Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin**, a'r ddeddfwriaeth sy'n cael ei dwyn ymlaen o dan delerau'r Cytundeb hwnnw.

Pan fo fframwaith yn ddeddfwriaethol (neu'n rhannol ddeddfwriaethol) ei natur a bod deddfwriaeth yn cael ei gosod gerbron y Senedd, ein bwriad yw adrodd yn unol â'n cylch gwaith o dan Reol Sefydlog 21, yn ogystal ag adrodd ar unrhyw faterion cyfansoddiadol ehangach. Byddwch yn ymwybodol ein bod wedi mabwysiadu'r dull hwn gyda Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020 diweddar.

Mae llunio'r Rheoliadau yn berthnasol i fframweithiau cyffredin ac am y rhesymau hyn rydym yn amlinellu ein pryderon isod.

Gwyddom fod Dynodiadau Daearyddol Bwyd (Enwau Bwyd Gwarchodedig) yn parhau'n un o'r meysydd polisi fframweithiau cyffredin sy'n destun dadl. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o fframweithiau cyffredin ym mis Medi 2020 yn nodi bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus rhwng y llywodraethau. Felly, nid yw'n eglur i ni pam mae Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â'r Rheoliadau hyn pan nad yw trafodaethau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

o'r fath wedi'u cwblhau. Byddem yn ddiolchgar o gael esboniad ar ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o'r pwynt hwn.

Ymhellach, er bod y Rheoliadau hyn yn ceisio cynnal cyfundrefn bresennol yr UE ar ôl y cyfnod pontio, nid ydym yn deall, pe bai unrhyw lywodraeth yn y DU yn ceisio gwyro oddi wrth y cynllun a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn, sut y byddai'r broses ar gyfer rheoli sefyllfa o wyro o'r fath ac unrhyw anghydfod posibl yn cael ei gweithredu. Unwaith yn rhagor, byddem yn ddiolchgar o gael esboniad ar farn Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

Gwyddom hefyd, ar y dechrau, fod cytundeb ar draws y DU y byddai cynllun Dynodiadau Daearyddol newydd (i ddisodli cynllun GI yr UE) yn cael ei roi ar waith drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Er ei fod ymhell o fod yn ddelfrydol, rydym o'r farn y byddai Bil y DU i gyflawni'r nod hwn wedi rhoi rhywfaint o gyfle i drafod a chraffu yn y Senedd drwy'r broses cydsyniad deddfwriaethol.

Rydym yn cydnabod bod y Rheoliadau hyn, unwaith yn rhagor, yn creu swyddogaethau cydredol sy'n arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidogion y DU, a nodwn y farn a fynegir yn y datganiad ysgrifenedig:

> "Mae Rheoliadau 2020 hefyd yn cynnwys darpariaeth sy'n galluogi swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru i fod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol o ran Cymru gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. At hynny, rhoddir rhai swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, ond maent yn arferadwy o ran Cymru dim ond gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae gan y swyddogaethau botensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac felly gallant gyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn o dan adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru i ddiwygio Atodlen 7B er mwyn negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol."

Rydym oll yn ymwybodol, os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, ac fel yr amlygir yn y datganiad ysgrifenedig, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Rydym yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* i negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol. Mae'n destun pryder, fodd bynnag, nad yw'r amserlen ar gyfer y Gorchymyn hwn ar gael eto. Byddem yn ddiolchgar o gael diweddariad ar y mater penodol hwn.

Mae'r anghytuno hefyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a yw cynlluniau Dynodiadau Daearyddol wedi'u datganoli yn ychwanegu at ein pryderon ac yn tynnu sylw ymhellach at gymhlethdod cynyddol y setliad datganoli yng Nghymru.

Nodwn safbwynt Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y datganiad ysgrifenedig:

> “Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
>
> (…)
>
> Mewn perthynas â chynlluniau GI, mae gennym ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod GIs Cymru yn cael eu diogelu ledled y DU (ac yn ddelfrydol, drwy'r trafodaethau ar bartneriaeth yr UE yn y dyfodol).   * Mae offerynnau blaenorol sy'n cael eu cydgrynhoi yn Rheoliadau 2020 wedi bod yn destun gohebiaeth barhaus rhwng Defra a Llywodraeth Cymru, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghytuno â safbwynt Defra bod GIs yn ymwneud â materion a ddargedwir. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau, cytunwyd y bydd gan Weinidogion Cymru rôl ystyrlon yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun GI.

Nid yw’r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau cytundeb rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU a fyddai'n rhoi 'rôl ystyrlon' i Weinidogion Cymru yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun Dynodiad Daearyddol, yn ein barn ni, yn cynrychioli datrysiad boddhaol i'r mater hwn. Byddwch yn gwybod ein bod wedi bod yn lleisio ein pryderon yn gyson ynghylch amlder cytundebau o'r fath, yn enwedig gan nad ydynt yn rhwymo'r naill lywodraeth na'r llall. At hynny, nid yw'r ateb hwn i'r anghydfod yn datrys y broblem o ran a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol wedi'u datganoli. Dylai telerau'r cytundeb a wnaed rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fod ar gael i'r cyhoedd, a dylai copi ohono gael ei rannu â’r Senedd cyn gynted â phosibl.

Rydym wedi tynnu sylw Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig y Senedd at y materion hyn. Atodir fy llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw, er gwybodaeth i chi.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Rhagfyr 2020

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Senedd Cymru
**Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
Welsh Parliament
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

17 Tachwedd 2020

Annwyl Mike

**Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gwnaethom ystyried datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, a osodwyd o dan Reol Sefydlog 30C, mewn perthynas â **Rheoliadau Cynhyrchion Amaethyddol, Bwyd a Diod (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020** yn ein cyfarfod ar **9 Tachwedd 2020**.

Mae'r Rheoliadau sy'n destun y datganiad ysgrifenedig yn gwneud nifer o newidiadau i ddeddfwriaeth ddomestig a deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE, a'u pwrpas yw darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Dynodiadau Daearyddol (GI) yn ddomestig ar gyfer Prydain Fawr.

Rydym yn ymwybodol o'r **gwaith** a gyflawnodd eich Pwyllgor y llynedd ar enwau bwyd gwarchodedig ac, oherwydd diddordeb a chyfrifoldebau cyffredinol eich Pwyllgor yn y maes hwn, rydym am dynnu eich sylw at y Rheoliadau a'r datganiad ysgrifenedig am y rhesymau a nodir isod.

Cytunodd y DU a'r UE, yn y Protocol Ymadael Iwerddon-Gogledd Iwerddon y bydd dynodiadau daearyddol Gogledd Iwerddon yn parhau i gael eu gwarchod gan drefn Dynodiadau Daearyddol yr UE ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Efallai y gwyddoch fod dyfodol Dynodiadau Daearyddol o ran y DU a'r UE yn cael ei drafod ar hyn o bryd fel rhan o'r trafodaethau ar y berthynas rhyngddynt yn y dyfodol. Pe bai dim cytundeb, byddai angen i gynhyrchion Prydain Fawr gydymffurfio â gweithdrefn ymgeisio trydydd gwledydd yr UE i gael cofrestriad yr UE.

Bydd y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn felly'n creu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol Prydain sy'n gweithio, a rheoliadau'r DU y gellir eu gorfodi yn ddomestig ar gyfer y sectorau gwin a diodydd gwirodol, gyda'r nod deuol o sicrhau gwarchodaeth barhaus i 86 o enwau presennol cynnyrch y DU sydd wedi'u cofrestru fel Dynodiadau

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
0300 200 6565

Daearyddol o dan gynlluniau'r UE a sicrhau bod y DU yn parhau i gyflawni ei chyfrifoldebau o ran Sefydliad Masnach y Byd.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer defnyddio logo Dynodiadau Daearyddol newydd ar gynhyrchion gwarchodedig fel rhan o'r cynllun, h.y. bydd cig oen Cymreig fel bwyd gwarchodedig yn dod gyda logo 'gwarchodedig gan y DU' yn y dyfodol.

Mae anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a yw cynlluniau Dynodiadau Daearyddol wedi'u datganoli. Yn ei datganiad ysgrifenedig, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei barn ar y pwynt hwn:

> "Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2020 yn cynnwys darpariaethau sy'n rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn meysydd sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
>
> (...)
>
> Mewn perthynas â chynlluniau GI, mae gennym ddiddordeb mawr mewn sicrhau bod GIs Cymru yn cael eu diogelu ledled y DU (ac yn ddelfrydol, drwy'r trafodaethau ar bartneriaeth yr UE yn y dyfodol). * Mae offerynnau blaenorol sy'n cael eu cydgrynhoi yn Rheoliadau 2020 wedi bod yn destun gohebiaeth barhaus rhwng Defra a Llywodraeth Cymru, gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn anghytuno â safbwynt Defra bod GIs yn ymwneud â materion a ddargedwir."

Mae Gweinidogion Cymru, fodd bynnag, wedi cytuno y bydd ganddynt rôl ystyrlon yn y trefniadau llywodraethu ar gyfer y cynllun Dynodiadau Daearyddol. Sicrhawyd y rôl hon drwy gytundeb rhynglywodraethol; fel y bydd eich Pwyllgor yn gwybod, nid yw cytundebau o'r fath yn rhwymo'r naill lywodraeth na'r llall. At hynny, nid yw'r ateb hwn i'r anghydfod, wrth gwrs, yn datrys y mater a yw cynlluniau Dynodiad Daearyddol wedi'u datganoli. Ni chyhoeddwyd dim cytundeb rhynglywodraethol fe ymddengys.

Efallai yr hoffech wybod hefyd fod y Rheoliadau yn creu swyddogaethau cydredol y gall Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU eu harfer. Os yw'r Senedd yn dymuno dileu elfen Gweinidog y DU o swyddogaeth gydredol, yna byddai'n rhaid i Lywodraeth y DU gydsynio i'w dileu. I'r graddau hynny, mae'r Rheoliadau'n effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wnaed o dan adran 109 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Byddai Gorchymyn o'r fath yn negyddu'r effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ddileu'r angen am gydsyniad Llywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau cydredol, ond nid yw'r amserlen ar gyfer y Gorchymyn hwn ar gael hyd yma.

Byddwch yn gwybod fod Dynodiadau Daearyddol Bwyd (Enwau Bwyd Gwarchodedig) yn parhau yn un o'r meysydd polisi fframweithiau cyffredin sy'n destun dadl. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU o fframweithiau cyffredin ym mis Medi 2020 yn nodi bod y mater hwn yn destun trafodaethau parhaus rhwng y llywodraethau. Nid yw'n eglur i ni pam mae Llywodraeth y DU wedi bwrw ymlaen â'r Rheoliadau hyn pan nad yw trafodaethau o'r fath wedi'u cwblhau. Felly, er bod y Rheoliadau hyn yn ceisio cynnal cyfundrefn bresennol yr UE ar ôl y cyfnod pontio, pe bai unrhyw lywodraeth yn y DU yn

ceisio gwyro oddi wrth y cynllun a gyflwynir gan y Rheoliadau hyn, nid oes proses y cytunwyd arni ar gyfer rheoli sefyllfa o'r fath.

Rydym hefyd yn ymwybodol bod eich gwaith blaenorol ar y mater hwn wedi nodi pryderon ynghylch effaith unrhyw gytundebau masnach yn y dyfodol ar gynllun Dynodiadau Daearyddol.

Rwy'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i fynegi ein pryderon am lunio'r Rheoliadau, yn enwedig gan eu bod yn codi materion o bwysigrwydd cyfansoddiadol, pwysigrwydd gwleidyddol a phwysigrwydd cyfreithiol. Rwyf hefyd yn bwriadu tynnu sylw at gymhlethdod cynyddol y setliad datganoli yng Nghymru, fel y dangoswyd yn sgîl yr anghydfod ynghylch y Rheoliadau.

Yn gywir



**Mick Antoniw AS**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
We welcome correspondence in Welsh or English

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon